Bl	Gwyn Thomas	Cymru	Prydain	Y Byd
1936	2 Medi – Ganwyd yn Nhanygrisiau ger Blaenau Ffestiniog. Y cartref oedd Tŷ Capel Carmel, sef Capel yr Annibynwyr yn Nhanygrisiau. Ei dad oedd Edward Christmas Thomas (Ted). Un o'i jôcs oedd bod ganddo "Father Christmas" drwy'r flwyddyn! Pobydd oedd e wrth ei waith. Eluned (Jones cyn priodi) oedd enw ei fam. Athrawes ysgol gynradd oedd hi, er mai gwaith llanw a wnaeth yn ystod magwraeth Gwyn. Roedd hi hefyd yn organyddes yn y capel. Roedd ei daid ar ochr ei fam (John Jones) yn arfer gweithio fel gof chwarel ac yn byw gyda nhw. Roedd e'n flaenor yn y capel. Unig blentyn oedd Gwyn Thomas: "Yn fabi roeddwn i'n un o'r bloeddwyr beunosol mwyaf effro a welodd Ynys Prydain..."	➢ 27 Mawrth – Roedd gan 12% o gartrefi Cymru drwydded radio. 264,140 trwydded ar gyfer poblogaeth o 2.1 miliwn o bobl. ➢ 8 Medi – Llosgodd Saunders Lewis, DJ Williams a Lewis Valentine yr ysgol fomio ger Pwllheli fel protest. Cafodd y tri eu carcharu. Roedd yn cael ei ystyried yn drobwynt i wleidyddiaeth Cymru a chenedlaetholdeb Cymreig. ➢ Tachwedd – Ymunodd nifer o Gymry â'r Frigâd Ryngwladol i ymladd yn erbyn ffasgaeth yn Sbaen – yn erbyn y Cadfridog Franco. Ymunodd 177 Cymro i gyd a lladdwyd 33.	➢ 20 Ionawr – Bu farw George y pumed a daeth ei fab Edward yr wythfed yn frenin. ➢ 4 Medi – Cwrddodd Lloyd George â Hitler yn yr Almaen. ➢ 5 Hydref – Gorymdaith Jarrow – gorymdaith 300 milltir gan ddynion di-waith o dref Jarrow yng ngogledd ddwyrain Lloegr i Lundain. ➢ 11 Rhagfyr – Ildiodd Edward yr wythfed y goron.	➢ Glaniodd Franco yn Cadiz a dechreuodd Rhyfel Cartref Sbaen. ➢ 3 Awst – Enillodd Jessie Owens, dyn du, dair medal aur yng Ngemau Olympaidd Berlin.
1937		➢ Haf – Ymddangosodd rhifyn cyntaf y cylchgrawn llenyddol gan y rhai oedd yn ysgrifennu yn Saesneg yng Nghymru. *Wales* oedd ei enw a'r	➢ 12 Mai – Darllediad allanol cyntaf y BBC oedd coroni'r Brenin George y chweched yn Abaty Westminster.	➢ 16 Chwefror – Codwyd patent ar y ffibr newydd 'neilon'. ➢ 16 Ebrill – Dinistriwyd tref Guernica yn ystod

		golygydd oedd Keidrych Rhys o Fethlehem ger Llandeilo. Cafodd dau o'r rhifynnau eu golygu gan Dylan Thomas a Nigel Heseltine. Roedd y brandio ar gyfer y cyhoeddiad wedi'i seilio ar y syniad "er ein bod yn ysgrifennu yn Saesneg, mae ein gwreiddiau yng Nghymru". ➢ Cafodd ras geffylau'r Grand National ei hennill gan geffyl o'r enw 'Royal Mail'. Hugh Lloyd, Cymro, oedd ei berchennog, Ivor Anthony o Gydweli oedd yr hyfforddwr, ac Evan Williams o'r Bont-faen oedd y joci. ➢ 4 Gorffennaf – Agorodd y BBC led band radio newydd yn benodol ar gyfer darllediadau Cymraeg ar ôl ymgyrchu gan Bwyllgor Darlledu Prifysgol Cymru a chwynion gan wrandawyr yn Lloegr am glywed Cymraeg ar eu radio.		Rhyfel Cartref Sbaen gan fomiau awyrennau'r Almaen. ➢ 6 Mai – Lladdwyd 30 o bobl wrth i long awyr *Hindenburg* fynd ar dân wrth lanio yn yr Unol Daleithiau.
1938		➢ 7 Gorffennaf - Cafodd Augustus John, yr artist o Gymro o Ddinbych-y-pysgod, ei ddewis yn un o dri arlunydd Prydeinig i arddangos gwaith yn y Louvre ym Mharis. Roedd y Natsïaid wedi gwahardd dangos ei waith. Bu Augustus John	➢ Llofnododd Neville Chamberlain gytundeb â'r Almaen, Ffrainc a'r Eidal, yn Munich, er mwyn sicrhau "heddwch yn ein cyfnod ni" i Ewrop gyfan.	➢ 14 Mawrth – Gorymdeithiodd Hitler drwy Vienna ddiwrnod ar ôl cyhoeddi bod yr Almaen ac Awstria wedi'u huno.

		yn dilyn ffordd o fyw fohemaidd. Daeth yn enwog nid yn unig fel artist ond fel rhywun oedd yn astudio bywyd sipsiwn Romani, a daeth yn un o ffrindiau Dylan Thomas. Yn wir, oddi ar Augustus John y dygodd Dylan Caitlin Macnamara, a ddaeth yn wraig iddo. ➢ 22 Hydref – Ym Mharc Ninian yng Nghaerdydd, curodd tîm pêl-droed Cymru dîm Lloegr mewn buddugoliaeth gofiadwy o bedair gôl i ddwy. Yn gynharach yn y flwyddyn roedd Lloegr wedi curo'r Almaen o chwe gôl i dair. Roedd y rhai a sgoriodd dros Gymru i gyd yn dod o ardal Ferthyr Tudful. ➢ 23 Tachwedd – Agorwyd y Deml Heddwch ac Iechyd ym Mharc Cathays, Caerdydd. Cafodd ei hadeiladu'n gartref i ddau fudiad – syniad gwreiddiol gan David Davies, Llandinam ac roedd dau ddiben i fod iddo. Y cyntaf oedd rhoi cartref i Gymdeithas Coffa Genedlaethol Cymru'r Brenin Edward y seithfed corff gwirfoddol er mwyn atal, trin a dileu twbercwlosis yr oedd yr Arglwydd Davies wedi'i sefydlu yn 1910. Davies oedd llywydd cyntaf Cyngor Cenedlaethol Cymru Undeb		➢ Cafodd Sigmund Freud, Iddew o Awstria (tad seicdreiddiad a niwroleg) ei hedfan o Vienna yn Awstria i fyw yn Llundain oherwydd i'r Natsïaid oresgyn Awstria. Gwrthododd yr S.S. a'r Gestapo roi caniatâd i Freud adael y wlad am dri mis. Gyda help Ernest Jones, ei gydweithiwr o Gymro, y llwyddodd Freud i ddianc. ➢ 3 Gorffennaf – Torrodd trên locomotif stêm o'r enw *Mallard* y record am injan stêm drwy deithio ar 126 milltir yr awr. ➢ 27 Medi – Lansiwyd y *Queen Elizabeth*, y llong i deithwyr fwyaf erioed hyd at hynny. ➢ 9 Tachwedd – Ymosododd y Natsïaid ar Iddewon yr Almaen mewn digwyddiad a gafodd ei enwi'n *Kristallnacht* , noson dryllio'r gwydr.

		Cynghrair y Cenhedloedd ac yn 1934 addawodd £58,000 tuag at godi adeilad i'r ddau fudiad. Roedd yr Arglwydd Davies eisiau i'r Deml Heddwch ac Iechyd fod yn "gofeb i'r dynion dewr hynny o bob cenedl a roddodd eu bywydau yn y rhyfel a oedd i fod i orffen pob rhyfel" ac felly cafodd ei gyflwyno er cof am y rhai a oedd wedi rhoi eu bywydau yn y rhyfel hwnnw. Roedd Davies wedi ymladd yn y ffosydd yn ystod y rhyfel hwn, ac roedd wrthi'n ddyfal yn chwilio am drefn ryngwladol sefydlog drwy Gynghrair y Cenhedloedd ac Undeb Cynghrair y Cenhedloedd. Roedd eisiau gweld Heddlu Rhyngwladol cryf yn cael ei sefydlu fel bod modd cael cytundeb a heddwch rhyngwladol. Cafodd y Deml ei hagor gan Mrs Minnie James o Ddowlais, Merthyr, a gollodd dri mab yn y Rhyfel Byd Cyntaf.		
1939	Y teulu'n symud o Danygrisiau i Flaenau Ffestiniog – "Fe ddar'u ni – Nhad, Mam, Taid, Twm y gath a minnau – fudo, â'n dodrefn ar lorri i Wuns Rôd;" – i rif 106 Wynne Rd. Tŷ ar rent.	➢ 2 Mehefin – Aeth y llong danfor HMS *Thetis* i drafferth oddi ar yr arfordir ym Mae Lerpwl. Ceisiodd bad achub Llandudno achub y llongwyr tanfor, ond lladdwyd 99 o'r criw o 103.	➢ 3 Medi – Cyhoeddodd Neville Chamberlain, Prif Weinidog Prydain, fod Prydain mewn rhyfel yn erbyn yr Almaen. ➢ Dechreuodd menywod ifanc weithio ar y tir – 'land girls' oedd	➢ 1 Ebrill – Daeth Rhyfel Cartref Sbaen i ben gyda buddugoliaeth i'r ffasgwyr o dan arweinyddiaeth y Cadfridog Franco.

	Teulu ei fam oedd yn byw yn Nhanygrisiau, a theulu ei dad o Flaenau. Cafodd ei dad ei fagu yn y Meirion Hotel. Roedd ei dad bellach yn gweithio yn y becws yn y siop fwyd – y Coparét. Enw'r ardal o fewn Blaenau oedd Maenofferen (roedd capel Methodistaidd yno yn rhoi enw ar yr ardal). I gapel Carmel, Tanygrisiau yr oedd yn mynd iddo tan iddyn nhw symud. Wedyn i Gapel yr Annibynwyr, Jerusalem. Roedd dwy festri – "un fawr ar gyfer y Band of Hope a chyflwyno dramâu a dangos sleidiau efo hyd-lusern ('majiclantar' ar lafar), a festri lai yn y cefn ar gyfer y Seiat a'r Cyfarfod Gweddi a'r Gymdeithas Ddiwylliadol."	Boddodd rhai, cafodd eraill eu dal heb aer. ➢ Enillodd Arthur Whitford o Abertawe ei 10fed teitl Gymnasteg Prydeinig, gan ennill bob blwyddyn o 1928 i 1936. Dechreuodd hyfforddi yng Nghlwb y Bechgyn yn Eglwys Sgeti. Ef oedd y cyntaf i gyflwyno trefn hyfforddi gymnasteg. ➢ Mai – Cafodd pob cartref yng Nghymru fasgiau nwy oherwydd bod rhyfel yn bygwth. ➢ 2 Mai – Yn y pen draw, cytunodd Swyddfa'r Post i roi cyfarwyddiadau dwyieithog mewn blychau ffôn yng Nghymru. Enillwyd y ddadl oherwydd bod y cyfarwyddiadau i ddefnyddio'r blwch ffôn yn Llundain, er enghraifft yng Ngorsaf Victoria, yn Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg. ➢ Awst – Dechreuwyd ffilmio'r ffilm *Proud Valley*. Roedd hi'n adrodd hanes pentref glofaol yng Nghymru a sut cafodd gweithiwr du (a chwaraewyd gan Paul Robeson, actor a chanwr o America) ei dderbyn yn rhan o'r gymuned lofaol. Roedd hyn yn ddechrau perthynas gref rhwng Paul Robeson, a ddioddefodd lawer o ragfarn hiliol	yr enw arnyn nhw ac roedden nhw'n rhan o'r ymdrech ryfel i dyfu rhagor o fwyd o'r tir.	➢ 24 Awst – Llofnododd yr Almaen a'r Undeb Sofietaidd gytundeb heddwch. ➢ 1 Medi – Yr Almaen yn goresgyn Gwlad Pwyl. ➢ 30 Tachwedd – Yr Undeb Sofietaidd yn ymosod ar y Ffindir.

		yn ystod ei yrfa, a chymunedau glofaol Cymru. ➢ 18 Medi – Bu farw Gwen John, arlunydd talentog o Sir Benfro, a chwaer Augustus John, yn Dieppe, Normandi, Ffrainc. Astudiodd yn Ysgol Gelf Slade, Llundain, cyn symud i Baris. ➢ 25 Medi – Agorwyd yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn Aberystwyth gan Syr Ifan ab Owen Edwards, a sylfaenodd fudiad yr Urdd. Dechreuodd gyda 7 disgybl; yna erbyn diwedd 1940 – 17 disgybl, 32 erbyn 1942 a 71 erbyn 1945. ➢ 29 Medi – Gadawodd y Swyddfa Ryfel i aelodau'r lluoedd Prydeinig ysgrifennu llythyrau Cymraeg adref a chafodd gwrthwynebwyr cydwybodol hawl i gael eu tribiwnlys wedi'i glywed drwy gyfrwng y Gymraeg.		
1940		➢ 21 Ionawr – Yn Rhaeadr Gwy, Powys, cofnodwyd y tymheredd isaf erioed i Gymru, sef -23.3 °C (-10 °F). Roedd hi'n aeaf oer gydag eira trwm. ➢ Cafodd mynydd Epynt yn sir Frycheiniog ei gymryd drosodd gan y Swyddfa Ryfel a'i droi'n faes hyfforddi milwrol. Cafodd dau gant o	➢ 10 Mai – Ymddiswyddodd Neville Chamberlain fel Prif Weinidog a chymerodd Winston Churchill ei le wrth i'r Almaen ymosod ar wlad Belg a'r Iseldiroedd.	➢ 9 Ebrill – Lluoedd yr Almaen yn ymosod ar Ddenmarc a Sweden. ➢ 14 Mehefin – Lluoedd yr Almaen yn gorymdeithio drwy Baris. ➢ 22 Mehefin – Ffrainc yn ildio i'r Almaen.

		ffermwyr (a'u teuluoedd) eu gorfodi i adael eu cartrefi, a defnyddiwyd y capel lleol – Y Babell – yn darged bomio. Roedd pobl yn teimlo'n gryf am hyn. Nid yw'r tir hwn wedi cael ei ddychwelyd byth ac mae'n dal i fod yn faes hyfforddi milwrol. ➢ Medi – Cafodd gweithiau celf eu symud o wahanol orielau i'w storio yn ystod y rhyfel mewn hen ogof chwarel lechi ym Mlaenau Ffestiniog, Gogledd Cymru. ➢ Fel rhan o'r Ymdrech Ryfel, cynhyrchwyd posteri yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg, oedd yn annog y boblogaeth i arbed, ailgylchu a chynhyrchu rhagor. Roedden nhw'n cael eu hystyried yn bropaganda. ➢ Awst – Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Bangor fel rhaglen radio a'i darlledu i Brydain gyfan. Enillwyd y gadair gan T. Rowland Hughes. ➢ 19 Awst – Cafodd tanceri olew eu bomio yn Noc Penfro, gan achosi ffrwydrad a thân enfawr. Llosgodd y tân am 18 niwrnod. Cafodd pum dyn tân eu lladd ac anafwyd 38 arall. Dinistriwyd 11 o'r 17 tancer olew.		➢ 5 Tachwedd – Franklin Roosevelt yn cael ei ailethol fel Arlywydd Unol Daleithiau America.

1941		➢ 19–21 Chwefror – Cafodd 41 erw o Abertawe eu gwastatáu a'u dinistrio gan y bomio. Roedd y ddinas wedi bod yn darged ers 27 Mehefin 1940, a pharhaodd hyn tan fis Chwefror 1943. Ddydd Mercher 19 Chwefror 1941, chwap wedi 8.00pm, targedodd 61 o awyrennau Abertawe a gollwng 492 o fomiau a 15,700 o fomiau tân. Digwyddodd yr un peth dros y tair noson ganlynol. Roedd y bomiau oedd heb ffrwydro'r un mor beryglus, gan i dri bachgen ifanc a aeth i edrych arnyn nhw gael eu chwythu i farwolaeth. Yn 1941 lladdwyd 985 o sifiliaid oherwydd cyrchoedd awyr yng Nghymru. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd i gyd, dioddefodd Abertawe tua 40 o gyrchoedd awyr, a lladdwyd 387 o bobl, mwy na Chaerdydd, a gollodd 355 o drigolion. Ym mis Mehefin, bomiwyd Brymbo yng ngogledd Cymru. Dioddefodd llawer o bentrefi bach yng ngogledd Cymru wrth i'r awyrennau ollwng eu bomiau diwethaf ar y ffordd adref. Dioddefodd pentrefi bach fel Llandegla, Llansannan, Gwytherin a Nantglyn. Y targedau swyddogol	➢ 11 Mai – Roedd y Blitz yn dal i ddigwydd yn Llundain. ➢ 27 Mai – Suddodd llynges Prydain *Bismark*, llong ryfel yr Almaen. Roedd pawb yn credu nad oedd y llong hon yn gallu suddo.	➢ 13 Ionawr – Bu farw James Joyce, yr awdur byd-enwog o Iwerddon. ➢ 8 Rhagfyr – Bomiodd awyrennau Japan Pearl Harbour, Hawaii, gan ddechrau'r rhyfel rhwng Japan a UDA.

		oedd Lerpwl, Manceinion a Birmingham. ➢ Roedd y ffatri arfau ym Mhen-y-bont yn cyflogi 37,000 o bobl. Menywod oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw. Hon oedd y ffatri arfau fwyaf ym Mhrydain ar y pryd. ➢ 28 Hydref – Dangoswyd *How Green Was My Valley*, y ffilm enwog am Gymru, wedi'i seilio ar nofel enwog Richard Llewellyn, yn Efrog Newydd. Penderfynodd y cyfarwyddwr gael actorion Gwyddelig i chwarae'r cymeriadau Cymreig, a ffilmiwyd y cyfan mewn pentref glofaol Cymreig wedi'i adeiladu'n arbennig yn San Fernando, California. Serch hynny, aeth y ffilm ymlaen i ennill pum Oscar gan gynnwys y ffilm orau.		
1942	Pan oedd yn nosbarth Miss Evans yn Ysgol Maenofferen, ac yntau tua 6 oed, bu farw ffrind iddo o'r enw Cecil Davies. Cafodd hyn effaith arno, ac yntau ddim yn deall ystyr 'marw' go iawn ar y pryd. Bu yn ymweld â mam Cecil gyda blodau o'r ysgol, a chafodd ei wahodd i weld y corff. "Yna mi es i yn fy ôl i'r ysgol, yn methu deall pethau."	➢ 26 Mehefin – Carcharwyd Rudolph Hess, dirprwy arweinydd (Führer) yr Almaen, mewn ysbyty meddwl yn y Fenni, Gwent. Roedd wedi cael ei ddal yn yr Alban flwyddyn yn flaenorol, pan hedfanodd i mewn yn gyfrinachol i geisio trafod cytundeb heddwch. Roedd llawer o ddamcaniaethau cynllwyn ynghylch y stori hon.	➢ 1 Rhagfyr – Cyhoeddwyd Adroddiad Beveridge a oedd yn sôn am y posibilrwydd o sefydlu'r wladwriaeth les ym Mhrydain ar ôl y rhyfel.	➢ 9 Awst – Dechreuodd Mahatma Gandhi a 50 o gefnogwyr ar gyfnod o anufudd-dod sifil yn India er mwyn cael rhyddid i bobl India.

		➢ 22 Hydref – Pasiwyd deddf yn caniatáu i berson roi tystiolaeth yn Gymraeg yn Llysoedd Cymru. Roedd hyn wedi cael ei wahardd ers dyddiau'r Brenin Harri'r Wythfed.		
1943	Roedd y rhyfel yn effeithio ar Flaenau Ffestiniog fel pob man arall, yn arbennig wrth i frodyr hŷn rhai o'i ffrindiau a'i gydnabod, gael eu lladd. Yn y pictiwrs - drwy *Gaumont British News* a *Pathe News*, y cyrhaeddai lluniau o'r brwydro. Byddai ffilmiau deng munud yn cael eu dangos yn canolbwyntio ar y brwydro, ar bropaganda ac ar "y llanast dynol oedd yno". Roedd tri lle pictiwrs i gyd: - Empire (Remp) ar y Stryd Fawr; Forum - ar gongl y parc chwarae; a Pharc Sinema (Parc Sun) - adeilad o sinc gwyrdd. Mae'r ddau olaf wedi eu dymchwel. Roedd rhai pobl â rhagfarn yn erbyn y sinema, yn arbennig J.S. Jones, prifathro'r ysgol elfennol (gynradd). Roedd eraill, fel ei deulu (yn cynnwys ei daid), heb farn naill ffordd na'r llall.	➢ 30 Ebrill - Defnyddiwyd corff dyn digartref o Aberbargod, Morgannwg, a gyflawnodd hunanladdiad yn Llundain, mewn twyll i gamarwain yr Almaenwyr o'r enw 'Operation Mincemeat'. Cafodd ei wisgo fel swyddog milwrol, daethpwyd o hyd iddo wedi boddi ar arfordir Sbaen, ond roedd yn cario dogfennau pwysig a oedd yn awgrymu bod Lluoedd y Cynghreiriaid yn mynd i lanio ar ynys Sardinia er mwyn goresgyn yr Eidal. Llyncodd yr Almaenwyr y stori'n gyfan gwbl! Digwyddodd y glanio llwyddiannus ar ynys Sicily, ond roedd lluoedd yr Almaen wedi symud i Sardinia yn barod. ➢ 8 Gorffennaf – Daeth olion o'r Oes Haearn i'r golwg ar Ynys Môn ger gorsaf y llu awyr, Y Fali. Hwn fyddai un o'r darganfyddiadau mwyaf arwyddocaol o'r Oes Haearn ym Mhrydain.	➢ 12 Chwefror – sefydlodd yr Arglwydd Nuffield ymddiriedolaeth gyda rhodd o £10 miliwn – galwyd hi yn Ymddiriedolaeth Ysgoloriaethau Nuffield. ➢ 3 Mai – roedd disgwyl i bob menyw 18–45 oed weithio o leiaf yn rhan amser ar gyfer yr ymdrech ryfel.	➢ 25 Gorffennaf - cafodd Mussolini, unben yr Eidal, ei ddymchwel, ac o ganlyniad ildiodd yr Eidal i luoedd y Cynghreiriaid. ➢ 28 Mawrth – Bu farw Sergei Rachmaninov, y cyfansoddwr o Rwsia, yn 69 oed. Roedd wedi symud i Beverley Hills, Los Angeles ers 1917.

	Bu'r pictiwrs a'r ffilmiau yn ddylanwad mawr ar fywyd a gwaith Gwyn Thomas. Roedd gwersyll milwrol yn Nhrawsfynydd – ac felly fe ddeuai nifer o filwyr i'r sinemâu yma. Roedd pob math o ffilmiau ar gael, rhai Americanaidd neu Eingl – gan gynnwys cowbois, Batman a Flash Gordon, Draciwla a Tarzan, Abbot a Costello, Laurel a Hardy, ac wedyn rhai Walt Disney	➢ 14 Medi – Darllediad gan Wynford Vaughan Thomas, darlledwr enwog o Abertawe, a oedd mewn awyren fomio Lancaster wrth iddi fomio Berlin. Hefyd darlledodd o wersyll crynhoi Belsen ar ddiwedd y rhyfel. ➢ Sefydlodd Eddie Price a naw o bobl fusnes eraill Tenovus, yr elusen ganser. Maen nhw wedi codi symiau sylweddol o arian ar gyfer ymchwil a datblygiad ym maes ymchwil feddygol yma yng Nghymru.		
1944	Mynd i'r ysgol elfennol (gynradd) – gyda'r nod o baratoi at yr Ysgoloriaeth i gael mynd i'r Ysgol Ramadeg. Pwyslais mawr ar Gymraeg, Saesneg a Syms! Algebra yn rhan o hyn!	➢ Ymddangosodd Richard Burton am y tro cyntaf mewn cynhyrchiad comedi, *The Druids Rest* yn ardal West End Llundain. ➢ Roedd y rhyfel wedi cynnig rhyddid i fenywod, gyda nifer yn gweithio yn ffatrïoedd yr ymgyrch ryfel a nifer mawr yn gweithio ar y tir fel 'land-girls'. Gwyneth Richards o Landinam, sir Faesyfed, oedd y ferch gyntaf i gystadlu mewn cystadlaethau cneifio defaid gyda Chlybiau Ffermwyr Ifainc Cymru. ➢ 27 Mawrth – Lladdwyd 12 o bobl yng Nghaerdydd yn y cyrchoedd awyr olaf ar Gymru.	➢ 6 Ebrill – Cyflwynwyd y system dreth incwm PAYE (Pay As You Earn). ➢ 20 Tachwedd – Daeth y 'blacowt' i ben yn Llundain. ➢ 3 Awst – Newidiodd y Ddeddf Addysg 1944 y system addysg i ysgolion uwchradd yng Nghymru a Lloegr. Galwyd y ddeddf yn 'Deddf Butler' ar ôl y gwleidydd Ceidwadol R.A. Butler. Oherwydd y ddeddf roedd addysg – yn enwedig addysg uwchradd – am ddim i bob disgybl. Cododd oedran gadael yr ysgol i 15.	➢ 6 Mehefin– Glaniadau D-Day. Glaniodd Lluoedd y Cynghreiriaid ar draethau Ffrainc i ryddhau Ewrop o reolaeth y Natsïaid. ➢ 20 Gorffennaf – Methodd ymgais rhai Almaenwyr i geisio lladd Hitler drwy osod bom wrth ei ymyl.

1945	Symudodd y teulu pan oedd Gwyn Thomas yn naw oed, o 106 Wuns Rôd i 1 Benar View, ym mhen arall Blaenau Ffestiniog. Benthyg arian i brynu tŷ a wnaed. Tŷ tri llawr gyda seler. Y cymdogion yn Wuns Rôd oedd teulu o'r de. Roedd y wraig – Beti Davies – yn seicig, sy'n esbonio sut cafodd Gwyn Thomas ddiddordeb yn y maes hwn. Ond roedd y capel yn chwarae rhan flaenllaw yn ei fywyd cynnar. Dyma'r cyfnod pan fyddai'n mynd i gwpwrdd llyfrau ei daid. Roedd ei daid yn darllen llyfrau diwinyddol, wythnosolion crefyddol fel *Y Tyst* a'r *Dysgedydd.* Mae'n nodi hefyd yn ei hunangofiant *Bywyd Bach*, "Un o gymwynasau mawr Owen M. Edwards i bobol fel fy Nhaid oedd llyfrau *Cyfres y Fil* a'r *Cymru Coch.*" Mae'n amlwg fod yr awydd i ddarllen wedi cydio ynddo'n ifanc iawn. Roedd dylanwad ei daid arno'n drwm. Mae'n nodi ei fod yn cofio ei daid yn ennill am gerdd i Gaban Hen Bobol yn y Blaenau. Dyma ŵr hefyd	➢ 26 Mawrth – Bu farw Lloyd George yn 82 oed. Ef oedd y Cymro cyntaf i ddod yn Brif Weinidog Prydain. Cafodd ei gladdu wrth Afon Dwyfor, Llanystumdwy, ger Cricieth yng Ngwynedd. ➢ 15 Tachwedd – Agorodd y Brenin George VI Ystâd Ddiwydiannol Fforest-fach. Roedd yn nodweddiadol o'r safleoedd diwydiannol newydd a ddatblygwyd i gyflogi pobl ac i roi hwb i'r economi ar ôl y rhyfel. ➢ Ar ôl yr etholiad, cafodd dau AS o Gymru swyddi amlwg: daeth Aneurin Bevan, AS Glyn Ebwy, yn Weinidog dros Iechyd, a daeth James Griffiths, AS Llanelli, yn Weinidog Yswiriant Gwladol. ➢ Yn ysgol haf Plaid Cymru, etholwyd Gwynfor Evans yn llywydd Plaid Cymru gan ddilyn Saunders Lewis, llywydd cyntaf y blaid. Bu Gwynfor Evans yn Llywydd tan 1981.	➢ 8 Mai – Cyhoeddodd Winston Churchill y Prif Weinidog ddiwedd yr Ail Ryfel Byd – Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (Victory in Europe – VE Day. ➢ 5 Gorffennaf – Etholiad cyffredinol. Ddaeth y canlyniad ddim tan 26 Gorffennaf. Cafodd y Blaid Lafur fuddugoliaeth enfawr a daeth Clement Atlee yn Brif Weinidog.	➢ 27 Ionawr – Dechreuodd erchyllterau'r Natsïaid yn lladd yr Iddewon ddod i'r amlwg, wrth i bobl gael gwybod am yr erchylltra yng ngwersyll crynhoi Auschwitz yng ngwlad Pwyl. Yr Holocost oedd yr enw ar hyn, gyda dros chwe miliwn o Iddewon wedi cael eu llofruddio gan y Natsïaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. ➢ 15 Awst – Cyhoeddi Diwrnod Buddugoliaeth dros Japan (Victory Over Japan Day – VJ Day).

	a oedd yn “adnabod Hedd Wyn, yn gwybod yn dda am Michael D. Jones ac Ap Fychan”. Yn 9 oed dechreuodd Gwyn Thomas ar arfer o ddarllen 30 o adnodau’r Beibl bob dydd – a hynny yn arwain at gynyddu ei eirfa a miniogi ei deimlad at rythmau iaith. Cafodd diwedd y rhyfel a rhyddhau gwybodaeth am y gwersylloedd arteithio yn Ewrop - sef erchyllterau'r Holocost, effaith fawr ar Gwyn Thomas a’i genhedlaeth. Mae’n dadlau bod yr Holocost yn dangos maint drygioni dyn ac fel mae’n ‘ofni’ sut mae modd i’r unigolyn ddisgyn i’r fath lefel o ymddygiad. Dyna pam mae’n barod i farnu a holi'r hunan yn ei waith. Ym mis Rhagfyr bu farw ei daid (John Jones – tad ei fam) a’i gladdu ym mynwent Pen y Cefn, Trawsfynydd. Roedd ei nain wedi marw cyn ei eni, yn 1928. Bu’r gŵr yma yn ddylanwad mawr arno yn ystod ei blentyndod.			
1946	Tua’r cyfnod hyn prynodd ei dad fusnes becar - hen fusnes Jôs Bach yn Stryd Dorfil. Bu Gwyn Thomas yn helpu ei dad yn y becws o hyn allan,	➢ Erbyn 1946 roedd 13,653 tractor yng Nghymru, o'i gymharu â 1,932 yn 1938. Cafodd y rhyfel effaith	➢ 1 Awst – Daeth y Bil Yswiriant Gwladol yn ddeddf. Roedd yn yswirio pob gweithiwr yn erbyn risg diweithdra, salwch ac	➢ 24 Chwefror – Cafodd Juan Peron ei ethol yn Arlywydd yr Ariannin. Roedd yn cael ei gefnogi

	pan oedd cyfle, yn arbennig ar Sadyrnau. Tyfodd y busnes gan sefydlu rownd fara hefyd. Roedd yr Ysgol Sul yn chwarae rhan bwysig iawn yn ei ddatblygiad, lle roedd yr athrawon yn trafod straeon y Beibl, ond hefyd yn trafod digwyddiadau'r dydd a hanes Twtancamŵn a brenhinoedd yr Aifft. Fe chwaraeodd y straeon yma ran allweddol yn ei ddatblygiad fel llenor ac ysgolhaig. "Yn blant yr Ysgol Sul fe fyddem hefyd yn gorfod dysgu adnodau a meistroli storïau o'r Beibl bob blwyddyn i gael ein harholi arnynt: dyma 'Yr Arholiad Llafar'."	enfawr ar gynhyrchiant amaethyddol yng Nghymru. ➢ 15 Ebrill – Y cyfarfodydd cyntaf erioed gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Y ddwy opera gyntaf a berfformiwyd oedd *Cavalleria Rusticana* ac *I Pagliacii*. Gweledigaeth Idloes Owen, cyn-löwr o Ferthyr ac Ivor John, y cerddor o Abertawe, oedd y cwmni opera. ➢ 25 Gorffennaf – Sefydlwyd Cerddorfa Ieuenctid Genedlaethol Cymru gan Irwyn Walters a oedd yn dod yn wreiddiol o Rydaman.	ymddeoliad. Roedd hyn yn cynnwys pobl hunangyflogedig hefyd. James Griffiths, AS Llanelli a arweiniodd y Bil.	gan ei ail wraig Eva Duarte ('Evita'), ac roedd y ddau'n hynod boblogaidd ymysg llawer o bobl y wlad. ➢ 11 Gorffennaf – Cafodd math newydd o wisg nofio ei arddangos ym Mharis am y tro cyntaf, y 'bicini' oedd ei enw. ➢ 22 Tachwedd – Aeth teclyn ysgrifennu newydd o'r enw 'beiro' ar werth.
1947	Bob blwyddyn cyn y Gymanfa , byddai gorymdaith o gwmpas Blaenau, gyda phob Ysgol Sul yn cario baner fawr, yn debyg i aelodau o undebau llafur. Byddai pob plentyn yn gwisgo rhoséd neu fedal hefyd. Mae'n disgrifio'r cyfan "yn garnifal lliwgar, gorfoleddus, a buddugoliaethus". Digwyddiad arall o bwys oedd Te Parti plant yr Ysgol Sul. Yn rhan o hyn (yn answyddogol) roedd gwylio moch yn cael eu lladd	➢ 11–15 Mehefin – Cynhaliwyd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen am y tro cyntaf gyda 14 gwlad wedi'u cynrychioli. Syniad y sylfaenwyr oedd hyrwyddo heddwch a chytgord byd-eang. ➢ 1 Mawrth – Agorwyd ysgol gynradd Gymraeg gan awdurdod lleol yn Llanelli – Ysgol Gymraeg Dewi Sant. ➢ 27 Mawrth – Agorodd Billy Butlin wersyll gwyliau ger Pwllheli, gogledd Cymru. Gweddnewidiodd y gwersylloedd hyn y syniad am	➢ 1 Ionawr – Cafodd yr holl byllau glo ym Mhrydain eu gwladoli, felly'r llywodraeth oedd yn eu rhedeg. Sefydlwyd y Bwrdd Glo Cenedlaethol i wneud hyn. ➢ Ionawr – Mawrth – Y gaeaf gwaethaf ers i gofnodion gael eu gwneud ac oherwydd y tymheredd o dan y rhewbwynt a lluwchfeydd eira mawr, cafodd cymunedau eu hynysu ac roedd rhaid i'r gwasanaethau brys ddosbarthu bara i bobl.	➢ 7 Ebrill – Bu farw Henry Ford, yr Americanwr a sefydlodd Gwmni Modur Ford. ➢ 15 Awst – Cafodd India fod yn wlad annibynnol eto. Felly daeth diwedd Raj India (1858–1947) pan oedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn rheoli'r isgyfandir. ➢ 29 Tachwedd - Cytunodd y Cenhedloedd Unedig ar

	yn y lladd-dy, y tu ôl i wal ffin cefn Capel Jerusalem. Cafwyd eira trwm iawn yn y flwyddyn hon – ac roedd pob man wedi'i gloi am wythnosau lawer. Er hyn, roedd wrth ei fodd yn mynd ar sled. Dyma flwyddyn canlyniad yr Ysgoloriaeth – "Roeddwn i wrth giât yr ysgol pan welais J.S. yn cerdded i fyny'r allt tuag ataf. Hanner y ffordd i fyny amneidiodd arnaf, ac euthum innau i'w gyfarfod. 'Rwyt ti'n gyntaf drwy'r sir; cer i ddweud wrth dy fam.'" Cafodd ei brifathro – J.S. Jones ddylanwad mawr arno – dyn diwylliedig a oedd yn mynnu safon a gwaith caled.	wyliau rhad i deuluoedd oedd yn gweithio. Agorodd wersyll arall ar Ynys y Barri, de Cymru yn 1966. ➢ 23 Ebrill – Digwyddodd trasiedi ddwbl oddi ar arfordir de Cymru pan suddodd *Samtampa*, llong ager mewn storm arbennig o wael a boddi 41 o'r criw. Wrth geisio eu hachub nhw, suddodd bad achub y Mwmbwls hefyd, gan foddi'r criw o 8 aelod.	➢ 23 Mai – Creodd Llywodraeth Prydain ddwy wladwriaeth o'r hen India – India Newydd a Pakistan. ➢ 15 Awst – Agorwyd y gwaith niwclear cyntaf ym Mhrydain – yn Harwell, swydd Rhydychen.	gynllun i rannu Palestina yn ddwy wladwriaeth rhwng yr Iddewon a'r Arabiaid. Felly cafodd Israel a Phalestina eu sefydlu.
1948	Roedd Gwyn Thomas yn Ysgol Ramadeg Ffestiniog bellach. Bu yn nhimau pêl-droed a chriced yr ysgol. Dyma gyfnod datblygu dawn perfformio Gwyn Thomas wrth iddo ddod yn ddigon hen i gymryd rhan yn nramâu'r capel. Roedd y radio yn chwarae rhan bwysig yn y cartref - a phawb yn	➢ 1 Gorffennaf – Agorwyd amgueddfa awyr agored Sain Ffagan ger Caerdydd fel Amgueddfa Werin Cymru. ➢ Gorffennaf/Awst – Tom Richards o Risga yng Ngwent oedd y Cymro Cyntaf i ennill Medal Olympaidd unigol. Enillodd Fedal Arian yn ras y Marathon. Roedd Cymry eraill wedi	➢ 29 Gorffennaf – Agorodd Gemau Olympaidd Llundain. Y rhain oedd y Gemau Olympaidd cyntaf ers yr Ail Ryfel Byd. Roedd y Gemau blaenorol wedi'u cynnal yn Berlin yn 1936. Doedd dim hawl i dimau o'r Almaen a Japan i gystadlu. ➢ 5 Gorffennaf –: Sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gan	➢ 30 Ionawr – Lladdwyd Mahatma Gandhi yn India gan eithafwyr. ➢ 14 Mai – Sefydlwyd Israel fel gwlad Iddewig. ➢ Tachwedd 3 – Ailetholwyd Harry S. Truman yn Arlywydd UDA.

	trin a thrafod y rhaglen boblogaidd sef *Noson Lawen* gydag un o fechgyn yr ardal - Meredydd Evans - yn rhan ohoni. Roedd mynd mawr ar eisteddfodau yn y cyfnod, gyda phob capel yn cynnal un. “Roeddwn i’n casáu cael fy ngorfodi i wneud unrhyw adrodd a chanu, a hynny gyda chas perffaith – roedd fy actio anaml yn fater arall oherwydd roedd gwisgo fel rhywun arall yn gwneud byd o wahaniaeth.” Byddai hefyd yn mynd ar wyliau ’nôl i Danygrisiau at ei fodryb Anti Mâr (Mary). Roedd hi’n nyrs ond hefyd “yn un dda am stori ysbryd”. Hwyrach mai dyna ddechrau ei ddiddordeb mewn straeon felly.	ennill medalau mewn campau i dimoedd cyn hyn. ➢ 21–24 Awst – Curodd Clwb Criced Morgannwg glwb Hampshire i ennill Pencampwriaeth y Siroedd am y tro cyntaf erioed. Wilfred Wooller oedd y capten. ➢ 12 Hydref – Agorwyd ffatri Hoover ym Merthyr. ➢ 27 Hydref – Sefydlwyd Bwrdd Croeso Cymru i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru.	Aneurin Bevan, yr AS o Gymru a'r Gweinidog Iechyd.	
1949	Roedd yn un o Gang Maenfferam erbyn hyn, sef criw o fechgyn a fyddai’n crwydro ac yn chwarae cowbois, marblis, concyrs, bachyn a phowl, ceffyl bach, botymau, topiau poteli, cyrcs, pêl-droed, criced, dringo yng Nghoed Cwmbowydd a chael eu hel o bob man. Roedden nhw’n chwarae pêl-droed lle bynnag roedd yna le gwastad –	➢ 1 Ebrill – Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) i hyrwyddo addysg yng Nghymru ac i uno'r polisi ledled y wlad. ➢ 23 Gorffennaf – Ffurfiwyd Cymdeithas Dawnsio Gwerin Cymru yn yr Amwythig gan Lois Blake. ➢ 21 Medi – Cwympodd meteoryn 5 pwys drwy do Gwesty'r Tywysog	➢ 25 Mawrth – Enillodd Syr Laurence Olivier wobr Oscar am ei berfformiad yn y ffilm *Hamlet*. ➢ 27 Gorffennaf – Yn Hatfield, swydd Hertford, hedfanwyd yr awyren jet gyntaf i deithwyr.	➢ 4 Ebrill – Sefydlwyd NATO – Cyfundrefn Cytundeb Gogledd Iwerydd, i amddiffyn gwledydd y gorllewin. ➢ 18 Ebrill – Ffurfiwyd Gweriniaeth Iwerddon. ➢ 1 Hydref – Daeth Tsieina yn Weriniaeth Gomiwnyddol o dan

	Cae Fflat, Cae Oxford Street, yng nghefn tai gwag neu mewn adfeilion.	Llywelyn ym Meddgelert, gogledd Cymru. Chafodd neb ei anafu. ➢ Tachwedd – Neilltuwyd 3,100 erw rhwng Pont-y-pŵl a Chasnewydd er mwyn adeiladu tref newydd yng Nghymru. Felly cafodd tref fechan Cwmbrân gyda 12,000 o bobl ei throi'n dref fwy gyda 35,000 o drigolion. ➢ 17 Rhagfyr – Agorodd trosglwyddydd BBC yn Sutton Coldfield ac o ganlyniad roedd llawer o bobl yng Nghymru yn gallu cael signal teledu am y tro cyntaf.		arweinyddiaeth Mao Zedong.
1950	Roedd y capel yn dal i fod yn bwysig iddo, ac yn aml ar nos Fercher y drefn oedd mynd i'r 'pictiwrs' am 5.00pm, am awr ac wedyn i'r capel - cwrdd gweddi neu seiat. Roedd Gwyn Thomas yn gweld y Gymraeg "yn ffitio'r ddau beth". Roedd y ffilmiau cowboi yn boblogaidd iawn, ac mae Gwyn Thomas yn cyfeirio at y ffilmiau yma fel 'llenyddiaeth arwrol', ac er mai Saesneg oedd iaith y ffilmiau, bydden nhw yn eu Cymreigio. Yn syml – roedd yna Ddynion Da a Dynion Drwg. Gwyn oedd lliw gwisg a cheffyl y 'da' at ei gilydd, a lliw du	➢ 11 Mawrth – Daeth cysgod dros fuddugoliaeth tîm Cymru a enillodd y Goron Driphlyg wrth i 80 o gefnogwyr gael eu lladd mewn damwain awyren wrth lanio yn Llandŵ ger Pen-y-bont. Roedd y cefnogwyr yn dychwelyd o wylio gêm yn Belfast. Lladdwyd pob un ond tri o'r teithwyr a'r criw. ➢ Awst – Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerffili, sefydlwyd y 'Rheol Gymraeg' (h.y. Cymraeg yn unig). ➢ 21 Medi – Daeth Freddie Williams o Bort Talbot yn Bencampwr	➢ 30 Mai – Daeth dogni petrol i ben. ➢ 2 Tachwedd – Bu farw George Bernard Shaw, yr awdur a'r dramodydd o Iwerddon. Roedd yn un o sefydlwyr 'London School of Economics' hefyd.	➢ 26 Ionawr – Yn New Delhi, cyhoeddwyd bod India'n weriniaeth. ➢ 17 Mehefin – Y trawsblaniad aren cyntaf erioed yn Chicago o berson marw i fenyw gan y llawfeddyg R.H. Lawler.

	i'r rhai 'drwg'. Yn aml caed stori garu – gyda'r ferch brydferth yn ennill calon y dyn da. Hon oedd y 'Gŷl'	'Speedway' y Byd (beiciau modur). Enillodd eto yn 1953.		
1951	Roedd yn ymwybodol o le ei ardal yn hanes Cymru - o leoedd fel Fferm Bryn Cyfergyd - a enwir ym mhedwaredd gainc y Mabinogi - stori Lleu a Blodeuwedd, "chwedl fwyaf rhyfeddol o holl hen chwedlau Cymru,". Roedd Gwyn Thomas yn agored iawn i'r math hwn o ddylanwad. "Pan ydych chwi'n mynd i nôl llefrith i le fel hyn rydych chi'n dod yn rhan o ryw hen, hen bethau sydd wedi cyfrannu at ein gwneud ni, Gymry, yr hyn ydym ni".	➢ Cynhaliwyd protest yng Nghymru i geisio atal y Swyddfa Ryfel rhag cymryd tir at ddibenion milwrol. Yr ardaloedd a effeithiwyd oedd y Preseli, sir Benfro; Tregaron, Ceredigion a Thrawsfynydd yng Ngwynedd. ➢ 6 Mawrth – Bu farw Ivor Novello, y cyfansoddwr, y perfformiwr a'r awdur. Roedd yn 58 blwydd oed. ➢ 3 Gorffennaf – Bu farw Gwendoline Davies, Gregynog. Casglodd hi a'i chwaer weithiau celf enwog o bedwar ban y byd. Cafodd y rhain eu gadael i Amgueddfa Genedlaethol Cymru a dyma asgwrn cefn casgliad Amgueddfa Genedlaethol Cymru. ➢ 11 Gorffennaf – Agorwyd Gwaith Dur Margam, Port Talbot. Erbyn 1963 roedd yn cyflogi dros 17,000 o bobl. ➢ 18 Hydref – Sefydlwyd Parc Cenedlaethol Eryri i warchod yr amgylchedd ac yn lle o harddwch naturiol.	➢ 19 Ebrill – Cynhaliwyd y gystadleuaeth 'Miss Byd' gyntaf, gyda Miss Sweden yn cael ei choroni. ➢ 4 Mai – Agorwyd Gŵyl Prydain yn Llundain. ➢ 26 Hydref – Y Blaid Geidwadol yn ennill yr Etholiad Cyffredinol a Winston Churchill yn dod yn Brif Weinidog.	➢ 14 Mai – De Affrica yn pleidleisio i gael gwared ar hawl pobl 'liw' (hil gymysg) i bleidleisio. ➢ 8 Medi – Llofnododd Japan gytundeb heddwch gyda 48 cenedl arall, gan ddod â'r Ail Ryfel Byd i ben yn swyddogol.

1952	Bu'n cadw ieir – gyda help ei dad. Roedd am fynd yn ffermwr. Sylwodd ar y ffordd roedd ieir yn ymosod ar yr iâr wan o hyd: "Fersiwn o'r 'bwlio' sydd bellach, meddir, yn dra chyffredin oedd hyn, ac mae bwlio gyda'r math gwaethaf o ddrygioni yn fy marn i, lle y mae'r cryf yn cymryd mantais ar y gwan. Mae pob bwli'n haeddu cosb." Dyma flwyddyn sefyll ei arholiadau allanol cyntaf a llwyddo yn anrhydeddus. Mae'n amlwg y deuai gwaith ysgol yn hawdd iawn iddo. Un o athrawon ifanc yr ysgol a oedd yn lletya drws nesa ond un i gartref Gwyn Thomas a'i deulu, oedd y cenedlaetholwr Dafydd Orwig. Er mai ardal o sosialwyr Cymraeg, cryf iawn, oedd Ffestiniog bryd hynny, daeth gwybodaeth am Blaid Cymru i mewn, a hynny drwy bobl fel Dafydd Orwig. Bu Gwyn Thomas yn ei helpu fwy nag unwaith.	➢ 29 Chwefror – Agorwyd Parc Cenedlaethol Penfro. ➢ 11 Mehefin – Darparodd Aer Lingus wasanaeth awyr rhwng y Rhws, Caerdydd a Dulyn yn Iwerddon. ➢ 7 Hydref – Agorwyd y gwaith alcam yn Nhrostre, Llanelli, gan sicrhau miloedd o swyddi. Roedd y gwaith yn rhan o gwmni'r Gwaith Dur Cenedlaethol.	➢ 6 Chwefror – Bu farw'r Brenin George VI a daeth Elizabeth II yn Frenhines. ➢ 26 Chwefror – Cyhoeddodd Llywodraeth Prydain fod ganddi fom atomig. ➢ 16 Mai – Pleidleisiodd ASau o blaid tâl cyfartal i fenywod oedd yn gwneud yr un gwaith â dynion.	➢ 15 Mehefin – Cyhoeddwyd dyddiadur Ann Frank, y ferch a guddiodd rhag y Natsïaid yn Amsterdam yn ystod y rhyfel. ➢ 26 Gorffennaf – Bu farw Eva Peron ('Evita'), gwraig arlywydd yr Ariannin. ➢ Awst – Cynhaliwyd y Gemau Olympaidd yn Helsinki yn y Ffindir. ➢ 4 Tachwedd – Etholwyd Dwight D. Eisenhower yn Arlywydd UDA.
1953	Yn y chweched - mae lluniau ohono yn cynrychioli'r ysgol yn nhîm pêl-droed a chriced yr ysgol.	➢ 23 Ionawr – Bwrdd Croeso Cymru yn dod o dan archwiliad am gyhoeddi ei fod yn bwriadu cynnal cystadleuaeth 'Miss Cymru'.	➢ Chwefror – Corwyntoedd, glaw trwm a llanw uchel yn dod â thrychineb i arfordir dwyrain Prydain. Boddwyd o leiaf 280 o	➢ 5 Mawrth – Bu farw Joseph Stalin, arweinydd yr Undeb Sofietaidd. ➢ 29 Mai – Dringodd Tenzing Norgay ac

	Yn haf 1953 dechreuodd ei fam fynd yn sâl.	➢ 1 Mawrth – Y BBC yn darlledu'r rhaglen deledu Gymraeg gyntaf erioed. ➢ Awst – Yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl, enillodd menyw, Dilys Cadwaladr, y goron am y tro cyntaf erioed.	bobl ar arfordir swydd Lincoln a swydd Caint. ➢ 26 Mawrth – Profion llwyddiannus i ddod o hyd i frechlyn yn erbyn polio. ➢ 2 Mehefin –Coronwyd y Frenhines Elizabeth II mewn seremoni yn Abaty Westminster a dangoswyd y coroni i wylwyr teledu dros y byd i gyd.	Edmund Hillary i gopa Everest, mynydd uchaf y byd. ➢ Ebrill – Daeth gwyddonwyr o hyd i strwythur DNA ym mhopeth byw.
1954	14 Ionawr – bu farw ei gefnder Dave, a oedd yn briod ac wedi bod yn byw ar yr un stryd â theulu Gwyn Thomas. Aeth Dave yn weinidog i Geredigion. "Fe ddar'u ei farw ddweud yn arw ar Mam, a bu'n cyfeirio ato'n aml efo Nhad a minnau". 24 Ionawr – dydd Sul, bu farw mam Gwyn Thomas "...ac, am y tro cyntaf yn fy mywyd, dyma ryw wylo ingol, y tu hwnt i unrhyw gysuro, yn cydio ynof am dipyn. Ar ôl hynny, wnes i ddim wylo wedyn." Daeth Gwyn Thomas yn ymwybodol fod ei fam wedi ei 'dyrchafu' o'r byd hwn i le gwell. Syniad a arhosodd gydag ef weddill ei fywyd.	➢ 1 Mawrth – Clwb pêl-droed Fflint yn ennill Cwpan Cymru am yr unig dro yn hanes y clwb. ➢ 10 Ebrill – Tîm rygbi Cymru'n chwarae ei gêm olaf ar faes Sain Helen yn Abertawe ac yn ennill yn erbyn yr Alban. ➢ Awst – Perfformiwyd opera am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais – opera *Menna* gan Arwel Hughes. ➢ Medi – Gŵyl Ddrama Genedlaethol gyntaf Cymru yn Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn.	➢ 6 Mai – Yn Rhydychen, rhedodd yr athletwr Roger Bannister filltir mewn llai na phedair munud, y cyntaf i gyflawni'r gamp. ➢ 3 Gorffennaf – Daeth dogni i ben ym Mhrydain a llosgodd rhai eu llyfrau dogni'n gyhoeddus.	➢ 9 Ebrill – Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r awyren jet *Comet* ar ôl y ddiweddaraf mewn cyfres o ddamweiniau. ➢ 12 Ebrill –Cyhoeddwyd y record 'We're Gonna Rock Around The Clock' gan Bill Haley a'r Comets gan agor tudalen newydd yn hanes canu poblogaidd. ➢ 26 Ebrill – Yn yr Unol Daleithiau, defnyddiwyd brechiad yn erbyn polio am y tro cyntaf. ➢ 8 Mai – Syrthiodd dinas Diem Bien Phu yn Indo-Tsieina i ddwylo'r Comiwnyddion, arwydd o ddiwedd ymerodraeth

	Mis Awst - aeth i gynrychioli sir Feirionydd i Eisteddfod Genedlaethol yn Ystradgynlais. Tra oedd yno, bu farw ei fodryb Anti Winnie. Dechreuodd ysgrifennu cerddi ac ati - gan yn aml aros yn effro tan oriau mân y bore. "Sut y bu imi fynd trwy arholiadau ac ennill ysgoloriaethau dydw i ddim yn gwybod." Mis Hydref – dechrau yn y Brifysgol ym Mangor. Lletya yn hostel dynion Neuadd Reichel ar Ffordd y Ffriddoedd. Ymunodd â chymdeithasau gwahanol fel glas fyfyriwr - yn arbennig y Cymric - i'r Cymry Cymraeg. Bu'n rhan o berfformio, o ornestau dadlau a chael llawer o hwyl a gwneud ffrindiau lu. Yn 'Jimmy's' – cwt lle mae Morrisons heddiw, y cynhaliwyd dawnsfeydd, a rhai eraill yn Neuadd Pritchard Jones. Astudiodd Gymraeg, Saesneg a Hanes yn ei flwyddyn gyntaf.			Ffrainc yn y Dwyrain Pell. ➢ 17 Mai – Yn yr Unol Daleithiau, gwaharddwyd arwahanu ar sail hil mewn ysgolion cyhoeddus. ➢ 19 Hydref – Arwyddwyd cytundeb rhwng Prydain a'r Aifft a oedd yn datgan mai eiddo'r Aifft oedd Camlas Suez.
1955	Yn yr ail flwyddyn bu Gwyn Thomas yn astudio Cymraeg a	➢ Mai – Cyhoeddwyd mai Caerdydd oedd prifddinas Cymru.	➢ 5 Ebrill – Daeth Anthony Eden yn Brif Weinidog pan	➢ 18 Ebrill – Bu farw'r gwyddonydd arloesol

	Saesneg. Rhoddwyd pwyslais mawr ar ramadeg ac astudiaeth o iaith. Y darlithydd ifanc a gafodd ddylanwad enfawr arno o ran llenyddiaeth y Gymraeg, oedd John Gwilym Jones. Ef oedd y cyntaf i gynnig cwrs ar ysgrifennu creadigol ym mhrifysgolion Prydain! Mae'n nodi mor ffodus y bu yn ei ddarlithwyr - yr Athro J.E. Caerwyn Williams, Brinley Rees. Byddai hwnnw'n dod â chloc larwm i bob darlith ac ar ben yr awr - byddai'n dweud wrth i'r larwm ganu "'Wn i ddim arwydd o beth yw hyn - ai amser i mi dewi, ynteu amser i chwi ddeffro'". Yno hefyd roedd Enid Roberts ac R. Geraint Gruffydd.	➢ Gorffennaf - Ymweliad cyntaf y canwr opera Pavarotti â Chymru pan ddaeth i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Daeth yn rhan o gôr ac nid fel unawdydd. ➢ Awst – Agorwyd yn swyddogol adeilad gorffenedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan y Frenhines Elisabeth II. ➢ 3 Rhagfyr –Sefydlwyd Undeb Amaethwyr Cymru. ➢ Agorwyd gwarchodfa natur gyntaf Cymru yng Nghwm Idwal, Eryri. ➢ Y bardd R.S. Thomas yn ennill Gwobr Heinman y Gymdeithas Lenyddol Frenhinol am ei flodeugerdd 'Song at the Year's Turning'. ➢ Etholwyd y Canon Maurice Jones o Drawsfynydd yn Gymrawd cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol. ➢ Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwllheli. W.J. Gruffydd (Elerydd) enillodd y goron, ac enillodd Richard Rees, y baswr o Bennal ger Machynlleth, y Rhuban Glas am yr ail waith (y canwr cyntaf i wneud hyn).	ymddiswyddodd Winston Churchill oherwydd afiechyd. ➢ 13 Gorffennaf – Dienyddiwyd Ruth Ellis - yng ngharchar Holloway, Llundain. Hi oedd y wraig olaf i'w chrogi ym Mhrydain. ➢ 22 Medi – Darlledwyd rhaglenni cyntaf ITV. ➢ 14 Rhagfyr – Etholwyd Hugh Gaitskell yn arweinydd y Blaid Lafur.	Albert Einstein yn 75 oed. ➢ 14 Mai – Arwyddwyd Cytundeb Warsaw gan wledydd comiwnyddol dwyrain Ewrop er mwyn dangos undod yn erbyn gwledydd y Gorllewin. ➢ 11 Mehefin – Yn Ffrainc, lladdwyd 86 o bobl mewn damwain yn ystod ras 24 awr Les Mans. ➢ 18 Gorffennaf – Agorwyd y Disneyland cyntaf yn California. ➢ 30 Medi – Lladdwyd yr actor 24 mlwydd oed James Dean mewn damwain car yn Los Angeles. ➢ 28 Tachwedd – Cyhoeddwyd stad o argyfwng yn Cyprus wrth i derfysgwyr EOKA, a ymgyrchai o blaid uno'r ynys â gwlad Groeg, barhau i ladd milwyr Prydeinig.

1956		➢ 9 Mai – 73 milltir sgwâr o Benrhyn Gŵyr oedd y lle cyntaf ym Mhrydain i gael ei nodi'n swyddogol yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. ➢ 23 Mehefin – Codwyd cofeb yng Nghilmeri i gofio Llywelyn ap Gruffudd, yr olaf o dywysogion Gwynedd, ac un a ystyrir gan lawer yn ddeiliad dilys olaf y teitl 'Tywysog Cymru'. ➢ 27 Awst – Cipiodd y bocsiwr Joe Erskine o Gaerdydd bencampwriaeth pwysau trwm Prydain gan drechu Johnny Williams. ➢ Medi – Agorwyd Ysgol Gyfun Glan Clwyd yn Rhyl – yr ysgol uwchradd gyntaf lle roedd y Gymraeg yn gyfrwng dysgu. ➢ 21 Tachwedd – Dechreuodd ymgyrch Tryweryn o ddifrif gyda Gwynfor Evans yn cyflwyno'r achos dros arbed Cwm Tryweryn i gynghorwyr Lerpwl. ➢ 22 Tachwedd – Bu farw Syr Rhys Hopkin Morris, un o'r ffigurau amlycaf ym mywyd cyhoeddus Cymru, ac Aelod Seneddol Sir Gaerfyrddin.	➢ Chwefror – Shirley Bassey yn rhyddhau ei sengl gyntaf 'Burn my candle (at both ends)'. ➢ 11 Chwefror - Yr ysbïwyr Guy Burgess a Donald Maclean (ysbiwyr Caergrawnt) yn ymddangos ym Moscow. ➢ 7 Ebrill – Man United yn ennill cynghrair cyntaf pêl-droed Lloegr (*League First Division title)* gyda chyfartaledd oed y chwaraewyr yn 24 oed yn unig. ➢ 5 Gorffennaf – Deddf aer glân yn dod i rym yn dilyn problemau 'smog' 1952. ➢ 17 Hydref – Y Frenhines yn agor pwerdy niwclear cyntaf masnachol yn Calder Hall, Sellafield yn ardal Cumbria. ➢ 22 Tachwedd – 8 Rhagfyr – Prydain a Gogledd Iwerddon yn cystadlu yn y Gemau Olympaidd yn Melbourne, Awstralia gan ennill 6 medal aur, 7 arian ac 11 efydd. ➢ 29 Tachwedd – dogni petrol ym Mhrydain oherwydd argyfwng Suez. ➢ 12 Rhagfyr – IRA yn dechrau ymosod ar adeiladau cyhoeddus yng ngogledd Iwerddon.	➢ 9 Mawrth – Alltudiwyd Archesgob Makarios, arweinydd y Groegiaid yn Cyprus. ➢ 30 Mawrth – Cynhaliwyd yr orymdaith gyntaf gan brotestwyr gwrth-niwclear i Ganolan Ymchwil Aldermaston. ➢ 19 Ebrill – Priodwyd yr actores ffilmiau Grace Kelly a'r Tywysog Rainier o Monaco. ➢ 23 Mehefin – Etholwyd Gamal Abdel Nasser yn Arlywydd yr Aifft. ➢ 26 Gorffennaf – Cyhoeddodd yr Arlywydd Nasser ei fwriad i wladoli cwmni Camlas Suez. ➢ 14 Awst – Bu farw'r awdur a'r dramodydd o'r Almaen, Bertolt Brecht. ➢ 5 Tachwedd – Chwalwyd yr ymgais i ddemocrateiddio Hwngari wrth i fyddin yr Undeb Sofietaidd

		➢ Cododd Cymru yn ystod y flwyddyn i safle prif ardal gynhyrchu dur Prydain.	➢ 25 Rhagfyr – PG Tips yn dechrau hysbysebion ar y teledu yn defnyddio tsimpansïaid.	ymyrryd ac ailsefydlu'r drefn Gomiwnyddol. ➢ 6 Tachwedd – Glaniodd milwyr Prydain a Ffrainc yn yr Aifft er mwyn ceisio diogelu Camlas Suez. ➢ 8 Tachwedd – Daeth Rhyfel Suez i ben gyda'r Cenhedloedd Unedig yn derbyn y cyfrifoldeb am reoli'r sefyllfa.
1957	Graddiodd. Aeth ymlaen wedyn i ddilyn cwrs ymchwil ar *Gweledigaethau y Bardd Cwsg* – sef Ellis Wynne o'r Lasynys, dan gyfarwyddwyd yr Athro Caerwyn Williams a John Gwilym Jones. Bu'n ysgrifennydd Cymdeithas y Cymric ac yn isolygydd papur y myfyrwyr ym Mangor – sef *Y Dyfodol*.	➢ 28 Chwefror – Arwydd clir o gwymp y Rhyddfrydwyr, pan gipiodd merch David Lloyd George, Megan Lloyd George, sedd Seneddol Caerfyrddin dros y Blaid Lafur. ➢ Ebrill – Agorwyd 519 milltir sgwâr o dir y De-ddwyrain yn swyddogol fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. ➢ 22 Mehefin – Cyhoeddwyd bod y llywodraeth ganolog yn Llundain wedi cytuno i ganiatáu cymhorthdal o £1,000 gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer cyhoeddi llyfrau Cymraeg. ➢ 31 Gorffennaf – Pasiodd y Senedd 'Ddeddf Corfforaeth Lerpwl' i ganiatáu boddi Tryweryn. ➢ Awst – Ymunodd John Charles, un o'r pêl-droedwyr gorau a welodd	➢ 9 Ionawr – Anthony Eden (Ceidwadwr) yn ymddiswyddo fel Prif Weinidog oherwydd afiechyd. Daeth Harold Macmillan yn ei le. ➢ 16 Chwefror – daeth yr arfer o beidio â darlledu rhaglenni teledu rhwng 6pm a 7pm, i ben. Y bwriad gwreiddiol oedd bod yr awr yma yn gyfle i rieni roi eu plant yn y gwely. ➢ 26 Mehefin – Cyhoeddwyd adroddiad gan y Cyngor Ymchwil Meddygol yn dangos bod cysylltiad rhwng ysmygu a chancr. ➢ 30 Hydref – y Llywodraeth yn rhyddhau bwriad i ddeddfu i ganiatáu i fenywod wasanaethu yn Nhŷ'r Arglwyddi.	➢ 14 Ionawr – Bu farw'r actor Humphrey Bogart. ➢ 6 Mawrth – Yn Affrica, daeth Ghana yn wlad annibynnol. ➢ 25 Mawrth – Sefydlwyd y Farchnad Gyffredin yn Ewrop pan arwyddwyd Cytundeb Rhufain gan Ffrainc, Gorllewin yr Almaen, yr Eidal, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a Luxembourg. ➢ 6 Gorffennaf – Am y tro cyntaf, enillwyd pencampwriaeth tennis Wimbledon gan wraig groenddu, sef Althea Gibson.

		Cymru erioed â Juventus, un o glybiau enwocaf yr Eidal. ➢ 12 Rhagfyr – Swydd Gweinidog Seneddol dros Gymru yn cael ei chreu ac i fod yn rhan o'r Llywodraeth.	➢ 25 Rhagfyr – y Frenhines yn darlledu ei neges Nadolig gyntaf ar deledu.	➢ 30 Awst – Daeth Malaya yn wlad annibynnol. ➢ 31 Awst – Enillodd y gyrrwr ceir rasio, Juan Fangio, bencampwriaeth y byd am y pumed tro. ➢ 4 Hydref – Anfonwyd y lloeren gyntaf – y 'Sputnik' – i'r gofod gan yr Undeb Sofietaidd. ➢ 3 Tachwedd – Ci o'r enw Laika oedd yr anifail cyntaf i hedfan i'r gofod wrth i'r Undeb Sofietaidd anfon 'Sputnik' arall i'r gofod.
1958	Gorffen ei waith ymchwil ar Ellis Wynne a gwneud cais am waith ymchwil pellach ar gyfer gradd doethuriaeth.	➢ 14 Ionawr – Dechreuodd 'Television Wales and the West' ddarlledu, a daeth teledu masnachol i Gymru. ➢ 6 Mai – Crogwyd y dyn olaf yng Nghymru yng ngharchar Abertawe, sef Vivian Frederick Teed. ➢ 22 Mehefin – Ailagorwyd un o drysorau pensaernïol pennaf yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Gadeiriol Llandaf. ➢ 18–26 Gorffennaf – Cynhaliwyd Gemau'r Gymanwlad yng Nghaerdydd, y tro cyntaf i'r Gemau ddod i Gymru.	➢ 6 Chwefror – Lladdwyd wyth o chwaraewyr pêl-droed Manchester United mewn damwain awyren yn Munich. ➢ 17 Chwefror – Sefydlwyd CND, yr Ymgyrch Diarfogi Niwclear. ➢ 4 Mehefin – Gwobrau cyntaf Dug Caeredin yn cael eu cyflwyno. ➢ 9 Medi – Yn Notting Hill, Llundain, gwelwyd terfysgoedd hiliol. ➢ 5 Rhagfyr –Agorwyd y draffordd gyntaf ym Mhrydain yn Sir Gaerhirfryn (rhan o ffordd osgoi Preston sydd nawr yn rhan o'r M6).	➢ 1 Chwefror – Anfonwyd lloeren i'r gofod gan yr Unol Daleithiau. ➢ 24 Mawrth – Yn yr Unol Daleithiau galwyd y canwr pop Elvis Presley i'r fyddin. ➢ 29 Mehefin – Yn Sweden, enillodd Brazil Gwpan y Byd gan guro Sweden 5–2. ➢ 26 Awst – Bu farw'r cerddor Ralph Vaughan Williams.

		➢ 19 Gorffennaf – Cyhoeddwyd llythyr yn y Western Mail oddi wrth 16 o Gymry blaenllaw yn galw am greu sianel deledu ar wahân, i wasanaethu Cymru. ➢ Yn ystod y flwyddyn cyrhaeddodd tîm pêl-droed Cymru rowndiau terfynol Cwpan y Byd – yr unig dro yn ystod yr 20fed ganrif.		➢ 9 Hydref – Bu farw'r Pab Pius XII. ➢ 25 Hydref - Etholwyd Angelo Roncalli yn Bab gan gymryd yr enw Ioan XXIII. ➢ 21 Rhagfyr – Etholwyd Charles de Gaulle yn Arlywydd Ffrainc.
1959	Ennill Cymrodoriaeth Prifysgol Cymru i fynd i Rydychen i wneud gwaith ar 'Y Traddodiad Barddol yng Ngogledd Cymru yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg' o dan gyfarwyddyd yr Athro Idris Ll. Foster. Aeth yno gyda Bruce Griffiths, a oedd wedi bod yn astudio yno ers tair blynedd. Ymunodd â Chymdeithas Dafydd ap Gwilym – cymdeithas i ddynion yn unig yn y cyfnod hwnnw! Roedd cymdeithas arall hefyd i'r Cymry – sef y 'Welsh Forum'. Bu Gwyn Thomas yn diwtor y Gymraeg i'r gymdeithas hon.	➢ 17 Ionawr – Dewi Bebb yn ennill ei gap cyntaf am chwarae rygbi dros Gymru. ➢ 23 Chwefror – Cyhoeddwyd gorchymyn y Frenhines fod baner y Ddraig Goch i'w chydnabod yn faner swyddogol Cymru. ➢ Ebrill – Dechreuodd Plaid Cymru ddarlledu propaganda'n anghyfreithlon trwy offer radio symudol dan yr enw 'Radio Cymru'. ➢ Yn ystod y flwyddyn caewyd 12 o byllau glo'r De, y nifer mwyaf erioed mewn un flwyddyn.	➢ 30 Ebrill – Prydain a Gwlad yr Iâ mewn anghydfod am hawliau pysgota – y 'Cod Wars'. ➢ 28 Gorffennaf – dechrau arbrofi gyda'r syniad o god post am y tro cyntaf – a hynny yn Norwich. ➢ 26 Awst – y car mini cyntaf yn mynd ar werth. ➢ 7 Hydref – ganwyd Simon Cowell, crëwr rhaglen *X Factor*, yn ardal Lambeth, Llundain. ➢ 8 Hydref – Etholiad cyffredinol a'r Ceidwadwyr yn ennill eto am y drydedd waith. Ymhlith yr aelodau newydd roedd un a ddaeth yn enwog iawn – Margaret Thatcher.	➢ 2 Ionawr – Disodlwyd llywodraeth Batista yn Cuba gan wrthryfelwyr dan arweiniad Fidel Castro. ➢ 3 Chwefror – Yn yr Unol Daleithiau, lladdwyd y canwr pop Buddy Holly mewn damwain awyren. ➢ 23 Chwefror – Sefydlwyd Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg. ➢ 9 Ebrill – Bu farw'r pensaer Frank Lloyd Wright. ➢ 19 Ebrill - Ceisiodd y Dalai Lama, arweinydd ysbrydol Tibet, am loches wleidyddol yn India wedi iddo ddianc oddi wrth filwyr Tsieina a oresgynnodd Tibet.

				➢ 26 Mehefin – Yn Quebec agorwyd Morffordd St. Lawrence a gysylltai lynnoedd mawr Canada â Chefnfor Iwerydd. ➢ 25 Gorffennaf – Teithiodd yr hofrennydd cyntaf ar draws y Sianel. ➢ 16 Medi – Lansiwyd 'Xerox 914' y peiriant llungopïo dogfennau cyntaf. ➢ 10 Tachwedd – Condemniwyd deddfau hiliol 'apartheid' De Affrica gan y Cenhedloedd Unedig. ➢ 13 Rhagfyr – Etholwyd yr Archesgob Makarios yn Arlywydd Cyprus.
1960		➢ 2 Ionawr – Rhedodd y trên olaf i deithwyr ar y rheilffordd o Flaenau Ffestiniog i'r Bala. ➢ 4 Ebrill – Derbyniodd Hugh Griffith o Fôn wobr 'Oscar' fel Actor Cynorthwyol Gorau am ei ran yn yr epig dair awr a hanner o hyd, *Ben Hur*. ➢ 28 Mehefin – Lladdwyd 45 o lowyr mewn tanchwa yng nglofa'r 'Six Bells', Aber-big.	➢ 27 Medi – Bu farw'r swffragét Sylvia Pankhurst. ➢ 17 Awst – Y Beatles yn perfformio eu cyngerdd cyntaf o dan yr enw yma, a hynny yn Hamburg yn yr Almaen. ➢ 2 Tachwedd – Yn llys yr Old Barley, Llundain, penderfynodd rheithgor nad oedd nofel D.H. Lawrence, *Lady Chatterley's Lover* yn anllad.	➢ 22 Mawrth – Yn Ne Affrica, saethwyd yn farw 69 protestiwr croenddu yn Sharpeville. ➢ 25 Ebrill – Lladdwyd 1,500 mewn daeargryn yn Iran. ➢ 30 Mehefin – Dangoswyd *Psycho*, ffilm arswyd Alfred Hitchcock am y tro cyntaf.

		➢ 6 Gorffennaf – Bu farw Aneirin Bevan, un o gewri gwleidyddiaeth Cymru a'r byd, o ganser. ➢ Tachwedd – Y mis Tachwedd gwlypaf ers mwy na chanrif, gwelwyd y llifogydd gwaethaf yng Nghymru er 1929.	➢ 30 Tachwedd – y pêl-droediwr Gary Lineker yn cael ei eni yng Nghaerlŷr. ➢ 9 Rhagfyr – darlledu'r rhifyn cyntaf o'r opera sebon *Coronation Street*. ➢ 31 Rhagfyr – Daeth gorfodaeth filwrol i ben.	➢ 21 Gorffennaf – Etholwyd y wraig gyntaf yn y byd i ddod yn Brif Weinidog pan ddaeth Sirimavo Bandaranaike yn arweinydd Sir Lanka. ➢ 19 Awst – Ym Moscow, cafwyd y peilot Americanaidd Gary Powers, yn euog o ysbïo ar yr Undeb Sofietaidd o'i awyren *Lockheed U-2*. ➢ 25 Awst – 11 Medi – Cynhaliwyd y Gemau Olympaidd yn Rhufain. ➢ 1 Hydref – Daeth Nigeria yn wlad annibynnol. ➢ 9 Tachwedd – Etholwyd John. F. Kennedy yn Arlywydd yr Unol Daleithiau.
1961	Cychwynnodd ar swydd athro yn dysgu Cymraeg a Saesneg yn ei hen ysgol ym Mlaenau Ffestiniog.	➢ 3 Mawrth – Gwaharddwyd arwerthiant blynyddol y Da Duon Cymreig o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau. ➢ 7 Mehefin – Nid nepell o gopa mynydd Pumlumon, daeth rhai cannoedd ynghyd ar brynhawn glawog ar gyfer y gwasanaeth olaf i'w gynnal yng nghapel bach Nant-y-moch.	➢ 1 Ionawr – daeth yr arian ffyrling (*farthing*) i ben fel arian swyddogol. Ei werth oedd chwarter ceiniog. ➢ 21 Mawrth – grŵp y Beatles yn perfformio yng nghlwb y Cavern yn Lerpwl am y tro cyntaf. ➢ 1 Mai – siopau hapchwarae (*gambling*) yn dod yn gyfreithlon.	➢ 1 Chwefror – Taniwyd yr ICBM cyntaf mewn arbrawf yn Nevada. ➢ 12 Ebrill – Yuri Gagarin o'r Undeb Sofietaidd oedd y dyn cyntaf i hedfan i'r gofod yn y llong ofod *Vostak 1*. ➢ 20 Ebrill – Cyhoeddwyd mai methiant oedd yr

		➢ 8 Tachwedd – Cynhaliwyd refferendwm a ddaeth i'r canlyniad o blaid agor tafarnau ar y Sul mewn pump o siroedd Cymru. ➢ Tachwedd – Sefydlu'r Cyngor Llyfrau Cymraeg. ➢ 28 Rhagfyr – Bu farw Robert Lloyd (Llwyd o'r Bryn) – storïwr ffraeth, eisteddfodwr brwd a ffermwr arloesol. ➢ Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd *Un Nos Ola Leuad*, nofel gan Caradog Pritchard, a gafodd ei chydnabod yn un o glasuron modern yr iaith Gymraeg.	➢ 3 Mai – Yn Llundain, carcharwyd y cyn-ddiplomydd George Blake am 42 mlynedd am ysbïo.	ymgais a gefnogwyd gan yr Unol Daleithiau, i ddisodli Fidel Castro yn Cuba. ➢ 5 Mai – Alan Shephard oedd yr Americanwr cyntaf i hedfan i'r gofod. ➢ 6 Mehefin – Bu farw'r seicdreiddiwr arloesol Carl Jung. ➢ 13 Awst – Yn Berlin, dechreuodd Dwyrain yr Almaen godi wal er mwyn atal pobl y wlad rhag dianc i'r Gorllewin. ➢ 18 Medi – Lladdwyd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Dag Hammarskjoeld, mewn damwain awyren yng Ngogledd Rhodesia. ➢ 15 Hydref – Sefydlwyd 'Amnest Rhyngwladol, corff i gynorthwyo carcharorion cydwybod.
1962	Cyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth – sef *Chwerwder yn y Ffynhonnau* (Gwasg Gee)	➢ 13 Chwefror – Darlledwyd araith enwog Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith'. ➢ 30 Ebrill – Bu farw Bob Owen, un o chwilotwyr a lloffwyr selocaf y wlad.	➢ 2 Ebrill – Y 'Panda crossings' cyntaf yn cael eu defnyddio. ➢ 4 Ebrill – Crogwyd James Hanratty am 'lofruddiaeth yr A6' er bod amheuaeth ynglŷn â'i euogrwydd.	➢ 21 Mai – Yn Israel, dienyddiwyd Adolf Eichmann a gyhuddwyd o lofruddio miloedd o

		➢ 20 Gorffennaf – Cychwynnodd y gwasanaeth hofrenfad cyntaf erioed i deithwyr ar daith 17 milltir o'r Rhyl i Wallasey ar draws aber Afon Dyfrdwy. ➢ 4 Awst – sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. ➢ 5 Medi – Enillodd tîm pêl-droed Bangor 2–0 yn erbyn AC Napoli, un o brif dimau'r Eidal, yng Nghystadleuaeth Cwpan Enillwyr Cwpanau Ewrop. ➢ 14 Medi – Rhaglenni teledu gan Gymry i Gymru oedd nod selogion cwmni Teledu Cymru pan ddechreuodd ddarlledu yn y gogledd a'r gorllewin o drosglwyddydd Mynydd Preseli. ➢ 26 Hydref – Agoriad swyddogol gwaith dur Llanwern yn dilyn buddsoddiad o £120 o filiynau.	➢ 8 Mai – Y bysiau troli olaf yn rhedeg yn Llundain.	Iddewon yn yr Ail Ryfel Byd. ➢ 1 Gorffennaf – Pleidleisiodd mwyafrif llethol o bobl Algeria o blaid annibyniaeth ar reolaeth Ffrainc. ➢ 10 Gorffennaf – Lansiwyd *Telstar*, y lloeren delegyfathrebu fasnachol cyntaf, i'r gofod. ➢ 5 Awst – Darganfuwyd corff y seren ffilmiau Marilyn Monroe yn ei chartref yn Hollywood. Y gred oedd iddi ei lladd ei hun. ➢ 22 Awst –Yn Ffrainc, methodd ymgais gan derfysgwyr i ladd yr Arlywydd de Gaulle. ➢ 1 Hydref – Mynychodd y myfyriwr du cyntaf ddarlithoedd ym Mhrifysgol Mississippi. ➢ 28 Hydref – Penderfynodd yr Undeb Sofietaidd dynnu ei arfau niwclear o Cuba,

				gan osgoi gwrthdaro â'r Unol Daleithiau. ➢ 15 Rhagfyr – Bu farw'r actor a'r cyfarwyddwr ffilmiau Charles Laughton.
1963	Cael ei benodi yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor	➢ Chwefror – Yn Aberystwyth, cynhaliwyd protestiadau cyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. ➢ 10 Chwefror – Niweidiwyd offer trydan mewn ffrwydrad bom ar safle adeiladu dadleuol Argae Tryweryn. ➢ 29 Mawrth – Cafwyd y myfyriwr Emyr Llywelyn (mab T. Llew Jones) yn euog o osod y ffrwydron yn Nhryweryn a'i garcharu am flwyddyn. ➢ Mawrth – Rhoddodd adroddiad yr Arglwydd Beeching gychwyn ar y gwaith o ddinistrio cyfundrefn rheilffyrdd Cymru. ➢ 23 Gorffennaf – Diwrnod cyntaf Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar ei safle parhaol newydd yn Llanelwedd.	➢ 13 Chwefror – Daeth Harold Wilson yn arweinydd y Blaid Lafur wedi marwolaeth Hugh Gaitskell. ➢ 5 Mehefin – Ymddiswyddodd John Profumo o'r llywodraeth ar ôl i'r wasg ddatgelu ei berthynas â phutain o'r enw Christine Keeler, Cymraes o Lanelli. ➢ 8 Awst – Dygodd lladron £2.5 miliwn oddi ar drên yn sir Buckingham, achos a ddaeth yn adnabyddus fel 'The Great Train Robbery'. ➢ 18 Hydref – Daeth yr Arglwydd Home yn Brif Weinidog wedi ymddiswyddiad Harold Macmillan.	➢ 16 Mehefin – Teithiodd y wraig gyntaf, Valentina Tershkova o'r Undeb Sofietaidd, i'r gofod. ➢ 29 Awst – Yn Washington, o flaen hanner miliwn o bobl, rhoddodd Dr Martin Luther King ei araith enwog 'I Have a Dream'. ➢ 11 Hydref – Yn Ffrainc, bu farw'r gantores boblogaidd Edith Piaf. ➢ 22 Tachwedd – Llofruddiwyd yr Arlywydd John F. Kennedy yn Dallas, Texas. Fe'i holynwyd gan Lyndon B. Johnson. ➢ 24 Tachwedd – Saethwyd Lee Harvey Oswald yn farw, y gŵr a gyhuddwyd o lofruddio'r Arlywydd Kennedy.

1964	Priodi â Jennifer Roberts, merch o Flaenau Ffestiniog	➢ 22 Ebrill – Darlledwyd y rhaglen gyntaf yn y gyfres boblogaidd *Siôn a Siân*, y gyfres gwis hwyaf erioed yn Gymraeg. ➢ Awst – Ar faes Sain Helen, llwyddodd cricedwyr Morgannwg i drechu Awstralia am y tro cyntaf erioed. ➢ Hydref – Yn sgil buddugoliaeth y Blaid Lafur yn yr etholiad cyffredinol, penodwyd James Griffiths, Aelod Seneddol Llanelli, yn Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru. ➢ Hydref – Yn y Gemau Olympaidd yn Tokyo, enillodd Lynn Davies o Nant-y-moel gystadleuaeth y naid hir. Ef oedd yr athletwr cyntaf o Gymru i ennill medal aur Olympaidd fel unigolyn. ➢ Ffilm fwyaf poblogaidd y flwyddyn yng Nghymru oedd *Zulu*, a gynhyrchwyd gan Stanley Baker, yr actor o Lyn Rhedynog, Cwm Rhondda.	➢ 15 Medi – Cyhoeddwyd y papur newydd, *The Sun*, am y tro cyntaf. ➢ 16 Hydref – Daeth Harold Wilson yn Brif Weinidog wrth i'r Blaid Lafur ennill etholiad cyffredinol. ➢ 21 Rhagfyr – Dilëwyd y gosb eithaf ym Mhrydain.	➢ 8 Chwefror – Cafodd y grŵp pop The Beatles groeso ecstatig gan bobl ifanc Efrog Newydd ar eu hymweliad â'r Unol Daleithiau. ➢ 25 Chwefror – Enillodd Cassius Clay (Muhammad Ali wedi hynny) bencampwriaeth focsio pwysau trwm y byd drwy guro Sonny Liston. ➢ 28 Mai – Bu farw Jawaharlal Nehru, Prif Weinidog cyntaf India. ➢ 11 Mehefin – Yn Ne Affrica cafodd yr arweinydd croenddu, Nelson Mandela, ddedfryd o garchar am oes. ➢ 15 Hydref – Disodlwyd arweinydd yr Undeb Sofietaidd, Nikita Khruschev. ➢ 3 Tachwedd – Etholwyd Lyndon B. Johnson yn Arlywydd yr Unol Daleithiau.

				➢ 12 Rhagfyr – Daeth Kenya yn wlad annibynnol, gyda Jomo Kenyatta yn Arlywydd.
1965	Cyhoeddi'r gyfrol *Y Weledigaeth Haearn* (Gwasg Gee) – barddoniaeth.	➢ 13 Mawrth – Cipiodd tîm rygbi Cymru'r Goron Driphlyg am y degfed tro erioed. ➢ Mawrth – Caewyd Ffatri Arfau'r Goron, Pen-bre, sir Gaerfyrddin. ➢ 31 Mai – Dathlu canmlwyddiant y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia yn yr Ariannin. ➢ Awst – Cyhoeddwyd y cylchgrawn dychanol *Lol* am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. ➢ 29 Medi – Cafodd Llywydd Plaid Cymru, Gwynfor Evans, bedair munud a deugain eiliad i ddweud ei ddweud yn narllediad cyntaf erioed ei blaid am 9:30 yr hwyr.	➢ 24 Ionawr – Bu farw Winston Churchill, Prif Weinidog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. ➢ 26 Hydref – Cyflwynwyd medal MBE i aelodau'r grŵp pop The Beatles mewn seremoni ym Mhalas Buckingham.	➢ 11 Chwefror – Dechreuodd awyrlu'r Unol Daleithiau gyrchoedd bomio yng Ngogledd Fiet Nam. ➢ 21 Chwefror – Llofruddiwyd yr arweinydd croenddu Malcom X yn Efrog Newydd. ➢ 8 Mawrth – Anfonwyd milwyr yr Unol Daleithiau i Fiet Nam er mwyn cynorthwyo byddin De Fiet Nam i wrthsefyll ymosodiadau gan wrthryfelwyr comiwnyddol. ➢ 18 Mawrth – Am y tro cyntaf erioed cerddodd dyn yn y gofod, pan adawodd y gofodwr, Alexei Leonvo, ei long ofod. ➢ 14 Gorffennaf – Agorwyd twnnel Mont

				Blanc i gysylltu Ffrainc â'r Eidal. ➢ 27 Awst – Bu farw'r pensaer arloesol Le Corbusier. ➢ 11 Tachwedd – Cyhoeddodd Ian Smith, Prif Weinidog Rhodesia, annibyniaeth y wlad ar reolaeth Prydain.
1966		➢ 6 Mawrth – Achoswyd gwerth £36,000 o ddifrod a bwriwyd amserlen y gwaith yn ôl chwe wythnos gan ffrwydrad bom ar safle Argae Clywedog, ger Llanidloes. ➢ 14 Gorffennaf – Cipiodd Gwynfor Evans sedd Caerfyrddin mewn isetholiad. Hon oedd sedd gyntaf Plaid Cymru. ➢ 22 Gorffennaf – Agorodd Cledwyn Hughes, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ffordd osgoi Port Talbot yn rhan o'r M4. Dyma'r darn cyntaf o draffordd drefol ym Mhrydain. ➢ 22 Gorffennaf – Boddwyd pymtheg o bobl pan suddodd y cwch pleser *Prince of Wales* yn aber Afon Mawddach, ger Llyn Penmaen, Meirionnydd. ➢ 18 Hydref – Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref, Roy Jenkins o	➢ 6 Mai – Yn y llys yr Old Bailey, Llundain, anfonwyd Ian Brady a Myra Hindley i garchar am oes am lofruddio plant yng ngogledd Lloegr. ➢ 30 Gorffennaf – Yn Wembley, Llundain, enillwyd Cwpan y Byd gan Loegr drwy guro Gorllewin yr Almaen. ➢ 22 Hydref – Dihangodd yr ysbïwr George Blake o garchar Wormwood Scrubs, Llundain.	➢ 19 Ionawr – Etholwyd Indira Gandhi yn Brif Weinidog India. ➢ 30 Mehefin – Penderfynodd Ffrainc adael NATO. ➢ 8 Awst – Cyhoeddodd arweinydd Tsieina, Mao Zedong, y 'Chwyldro Diwydiannol' er mwyn adfywio'r ysbryd chwyldroadol yn y wlad. ➢ 6 Medi – Llofruddiwyd Prif Weinidog De Affrica, Hendrik Verwoerd. ➢ 9 Tachwedd – Yn Fflorens, yr Eidal, dechreuodd y gwaith o geisio adfer gweithiau celfyddydol a gafodd eu

		Abersychan, bardwn brenhinol llawn i Timothy Evans o Ynysowen ger Merthyr Tudful, a grogwyd ar 9 Mawrth 1950 am ladd ei wraig a'i ferch 13 mis oed. ➢ 21 Hydref – Trychineb Aber-fan – cafodd 144 o bobl, gan gynnwys 116 o blant eu lladd yn Ysgol Gynradd Pant-glas pan foddwyd adeiladau'r ysgol gan filoedd o dunelli o wastraff glo gwlyb. ➢ Rhagfyr – Cadarnhawyd safle Tom Jones o Drefforest fel un o gantorion pop mawr y 60au pan gyrhaeddodd frig y siartiau gyda'r gân 'The Green, Green Grass of Home'. ➢ Yn ystod y flwyddyn perfformiwyd y ddrama *Saer Doliau* gan Gwenlyn Parry am y tro cyntaf gan Gwmni Theatr Cymru.		difrodi gan lifogydd mawr.
1967	Cyhoeddi *Ysgyrion Gwaed* (Gwasg Gee) – barddoniaeth.	➢ 9 Chwefror – Sefydlwyd Cyngor y Celfyddydau o dan ei Gadeirydd cyntaf, yr Athro Gwyn Jones. ➢ 9 Mawrth – Yn isetholiad Gorllewin y Rhondda, gwelwyd pleidlais nodedig o uchel i Blaid Cymru, a hynny yn un o gadarnleoedd traddodiadol y Blaid Lafur. ➢ 27 Gorffennaf – Daeth Mesur yr Iaith Gymraeg yn ddeddf.	➢ 19 Mawrth – Tarodd y tancer olew *Torrey Canyon* greigiau ger Land's End, Lloegr, gan ollwng olew i'r môr ac achosi difrod sylweddol i draethau'r ardal. ➢ 28 Mai – Yn Plymouth, Lloegr, cwblhaodd yr hwyliwr Francis Chichester daith hwylio unigol o gwmpas y byd.	➢ 27 Ionawr – Yn yr Unol Daleithiau, lladdwyd tri gofodwr pan aeth eu llong ofod ar dân wrth ymarfer. ➢ 21 Ebrill – Yng Ngwlad Groeg digwyddodd 'coup d'etat' gan uwch-swyddogion y fyddin. ➢ 10 Mehefin – Daeth y 'Rhyfel Chwe Diwrnod' i

		➢ 27 Gorffennaf – Ymgyrch hir gan Aelod Seneddol Pont-y-pŵl, Leo Abse, a arweiniodd at basio deddf yn cyfreithloni gwrywgydiaeth ym Mhrydain. ➢ 10 Awst – Sefydlwyd Cymdeithas Emynau Cymru yn y Bala. ➢ Awst – Enillodd Eluned Phillips Goron yr Eisteddfod Genedlaethol, yr ail wraig erioed i ennill y goron. ➢ Medi – Ffilmiwyd pennod o'r gyfres deledu boblogaidd *Dr Who* yn Nant Ffrancon.	➢ 27 Gorffennaf – Cyfreithlonwyd cyfathrach rywiol gydsyniol rhwng dynion dros 21 blwydd oed.	ben gydag Israel yn fuddugol dros y gwledydd Arabaidd. ➢ 9 Hydref – Saethwyd y gwrthryfelwr Che Guevera yn farw yn Bolifia, De America. ➢ 21 Hydref – Yn Washington, ymunodd miloedd â phrotest yn erbyn Rhyfel Fiet Nam. ➢ 4 Rhagfyr – Cyflawnwyd y llawdriniaeth drawsblannu calon gyntaf gan Dr Christiaan Barnard yn Ne Affrica.
1968		➢ 23 Ionawr – Howard Winstone o Ferthyr Tudful oedd y Cymro cyntaf i ddal teitl byd ers pum mlynedd pan ddaeth yn bencampwr bocsio pwysau plu'r byd. ➢ 6 Chwefror – Ym Monte Carlo, bu farw'r barwn papurau newydd, Arglwydd Kemsley o Ferthyr Tudful. ➢ 15 Mawrth – Gwelwyd y rhaglenni cyntaf i'w darlledu gan gwmni teledu annibynnol newydd o dan gadeiryddiaeth William Ormsby Gore, Pumed Arglwydd Harlech.	➢ 21 Ebrill – Mewn araith ddadleuol, datganodd y gwleidydd Enoch Powell ei ofn am effaith y mewnfudiad o bobl groenddu i Brydain. ➢ 17 Medi – Canslwyd taith griced Lloegr i Dde Affrica gan fod tîm Lloegr yn cynnwys y chwaraewr croendywyll Basil d'Oliveira. ➢ 27 Hydref – Y tu allan i Lysgenhadaeth yr Unol Daleithiau yn Llundain, protestiodd 250,000 o bobl yn erbyn y rhyfel yn Fiet Nam.	➢ 31 Ionawr – Syfrdanwyd lluoedd yr Unol Daleithiau yn Fiet Nam wrth i'r 'Viet Cong' ddechrau ymosodiad a adwaenid fel Ymgyrch Tet. ➢ 4 Ebrill – Yn yr Unol Daleithiau, llofruddiwyd yr arweinydd croenddu, Martin Luther King. ➢ 21 Mai – Aeth deg miliwn o weithwyr ar streic yn Ffrainc gan fyfyrwyr y wlad yn

		➢ Ebrill – Penodwyd George Thomas, Aelod Seneddol Gorllewin Caerdydd, yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru. ➢ 18 Hydref – Agorwyd yn swyddogol Atomfa Trawsfynydd yng Ngwynedd. ➢ 17 Rhagfyr – Agorwyd y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant.		erbyn polisïau'r Arlywydd de Gaulle. ➢ 6 Mehefin – Yn Los Angeles, llofruddiwyd Robert Kennedy, brawd y cyn-Arlywydd Kennedy. ➢ 20 Awst – Yn Prag, daeth byddin yr Undeb Sofietaidd ag ymgais arweinydd Tsiecoslofacia, Alexander Dubcek, i ddemocrateiddio'r wlad i ben. ➢ 5 Tachwedd – Etholwyd Richard M. Nixon yn Arlywydd yr Unol Daleithiau.
1969	Cyhoeddi *Lliw'r Delyn* (Gwasg y Moresg) – drama. Cyhoeddi cyfieithiad – *Diweddgan* – drama Samuel Beckett (Gwasg Prifysgol Cymru).	➢ 1 Mai – Dathlwyd canmlwyddiant y *Western Mail*. ➢ 1 Gorffennaf – Arwisgwyd Charles, mab y Frenhines Elisabeth II, yn Dywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon. ➢ Penwythnos olaf Awst – Enillodd Morgannwg Bencampwriaeth Criced Siroedd Lloegr am yr ail dro yn hanes y clwb.	➢ 3 Ionawr – Trodd ymdaith hawliau sifil yng Ngogledd Iwerddon yn derfysg wrth i Babyddion a Phrotestaniaid wrthdaro. ➢ 15 Awst – Anfonwyd y fyddin i Ogledd Iwerddon gan lywodraeth Prydain er mwyn ceisio cael trefn yn y dalaith wedi wythnosau o anghydfod treisgar.	➢ 19 Ionawr – Yn Prag, lladdodd myfyriwr o'r enw Jan Palach ei hun drwy gynnau ei ddillad fel protest yn erbyn y ffaith bod yr Undeb Sofietaidd wedi meddiannu Tsiecoslofacia. ➢ 3 Chwefror – Daeth Ÿasser Arafat yn

		➢ 15 Rhagfyr – Mewn seremoni yn Neuadd Brangwyn, rhoddwyd statws dinas i Abertawe. ➢ Yn ystod y flwyddyn lansiwyd cwmni recordiau Cymraeg newydd o'r enw 'Sain'.		arweinydd Mudiad Rhyddid Palesteina. ➢ 2 Mawrth – Hedfanodd yr awyren uwchsonig *Concorde* am y tro cyntaf. ➢ 28 Ebrill – Ymddiswyddodd Arlywydd Ffrainc, Charles de Gaulle. ➢ 20 Gorffennaf – Wedi i *Apollo 11*, llong ofod yr Unol Daleithiau, lanio ar y lleuad, cerddodd Neil Armstrong yno, y dyn cyntaf i wneud hynny. ➢ 20 Awst – Yn Woodstock, talaith Efrog Newydd, cynhaliwyd cyngerdd canu poblogaidd a ddaeth yn enwog drwy'r byd. ➢ 2 Tachwedd – Yn Nigeria, adroddwyd bod 300,000 o bobl yn marw o newyn yn Biafra wedi'r rhyfel cartref yno.
1970	Cyhoeddi *Yr Aelwyd Hon* – astudiaeth o waith y Cynfeirdd – ysgolheictod.	➢ 4 Ionawr – Bu farw D.J. Williams yr awdur ac un o'r tri a losgodd yr ysgol fomio yn 1936 ym Mhenyberth.	➢ 7 Mawrth – Cyhoeddwyd y *New English Bible* a gwerthwyd miliwn o gopïau ohono cyn pen diwrnod.	➢ 12 Ionawr – Yn Nigeria, daeth y rhyfel yn Biafra i ben.

		➢ 23 Ionawr –Bu farw Syr Ifan ab Owen Edwards, sylfaenydd yr Urdd. ➢ 26 Ionawr – Bu farw'r cyn-Archdderwydd Cynan. ➢ Chwefror – Bu farw'r athronydd Bertrand Russell. ➢ Mawrth – Yn Ysgol y Pasg Cymdeithas yr Iaith yn Aberystwyth, sefydlwyd y mudiad radicalaidd 'Adfer' yn sgil araith gan Emyr Llewelyn, mab T. Llew Jones. ➢ 20 Ebrill – Rhoddwyd dedfryd o ddeng mlynedd o garchar i John Barnard Jenkins o Ben-bryn, Morgannwg, pennaeth y garfan bara-filwrol Mudiad Amddiffyn Cymru, a dedfryd o chwe blynedd i Fredrick Ernest Alders. Cafwyd y ddau yn euog o osod nifer o fomiau rhwng mis Ionawr 1966 a mis Tachwedd 1969. ➢ 7 Mai – Bu farw'r dramodydd a'r nofelydd Jack Jones o Ferthyr Tudful. ➢ 23 Mai – Am 9:40 nos Sadwrn aeth Pont Britannia, y bont dros afon Menai ar dân. ➢ 2 Mehefin – Cwympodd darn 250 troedfedd o'r bont a oedd yn cael ei chodi dros Afon Cleddau gan ladd 4	➢ 19 Mehefin – Daeth Edward Heath yn Brif Weinidog wedi i'r Ceidwadwyr ennill yr Etholiad Cyffredinol.	➢ 16 Ebrill – Dychwelodd criw'r llong ofod *Apollo 13* yn ddiogel wedi iddi fynd i drafferthion 206,000 milltir o'r ddaear. ➢ 4 Mai – Ym Mhrifysgol Talaith Kent yn yr Unol Daleithiau, lladdwyd pedwar myfyriwr wrth i Warchodwyr Cenedlaethol saethu at brotest yn erbyn ymgais yr Unol Daleithiau i oresgyn Cambodia. ➢ 21 Gorffennaf – Yn yr Aifft cwblhawyd adeiladu Argae Aswan. ➢ 12 Medi – Ffrwydrwyd tair awyren yn niffeithwch Gwlad yr Iorddonen gan Fudiad Rhyddid Palesteina wedi iddynt eu herwgipio. ➢ 5 Hydref – Etholwyd Salvador Allende yn Arglwydd Chile. ➢ 9 Tachwedd – Bu farw cyn-Arlywydd Ffrainc, Charles de Gaulle.

		o weithwyr ac anafu 6 arall yn sir Benfro. ➢ 3 Mehefin – Bu farw'r athronydd o Bwllheli, J.R. Jones. ➢ 9 Tachwedd – Bu farw'r undebwr llafur, y gwleidydd a'r bardd Huw T. Edwards.		
1971	Cyhoeddi *Y Bardd Cwsg a'i gefndir.* Astudiaeth o waith Ellis Wynne – ysgolheictod.	➢ 7 Ebrill – Yn Abertawe, ffurfiwyd y Gymdeithas Astudio Hanes Llafur Cymru. ➢ 2 Mehefin – Enillodd Geoff Lewis o Dalgarth, Sir Frycheiniog ras fawr 'Derby Epsom', y joci cyntaf o Gymru i ennill y ras. ➢ 30 Mehefin – Ymddeolodd Glyn Simon fel Archesgob Cymru. ➢ 26 Gorffennaf – Pan gyrhaeddodd Newport, Rhode Island, yn yr Unol Daleithiau, Nicolette Milnes-Walker, 28 oed, o Gaerdydd oedd y ferch gyntaf i hwylio ar ei phen ei hun ar draw Cefnfor Iwerydd. ➢ Awst – Yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, sefydlwyd y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol. ➢ 25 Medi – Mewn cyfarfod yn Aberystwyth, sefydlwyd Mudiad yr Ysgolion Meithrin i ddarparu addysg feithrin Gymraeg i blant.	➢ 1 Ionawr – Cyflwynwyd cyfreithiau a olygai ei bod hi'n haws cael ysgariad. ➢ 2 Ionawr – Yn Glasgow, lladdwyd 66 o gefnogwyr pêl-droed wrth i glwydi atal tyrfa ddymchwel ym Mharc Ibrox. ➢ 15 Chwefror – Mabwysiadwyd arian degol gan Brydain.	➢ 29 Mawrth – Cafwyd swyddog ym myddin yr Unol Daleithiau yn euog o lofruddio sifiliaid yng nghyflafan Mylai, Fiet Nam, yn 1968. ➢ 11 Awst – Adroddwyd i 12 gael eu lladd gan yr IRA yng Ngogledd Iwerddon wedi i'r awdurdodau yno arestio 300 o weriniaethwyr dan bwerau argyfwng newydd. ➢ 11 Medi – Bu farw'r cyn-arweinydd Sofietaidd Nikita Krushchev. ➢ 17 Rhagfyr – Daeth y rhyfel rhwng India a Phacistan i ben ar ôl pythefnos o ymladd. O ganlyniad i fuddugoliaeth India, daeth Bangladesh yn wlad annibynnol gan

		➢ 1 Rhagfyr – Gwerthwyd Ynys Enlli gan Arglwydd Niwbwrch am £95,000. ➢ Dwysaodd protestiadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn hon, gyda'r pwyslais ar y frwydr am arwyddion dwyieithog ac am sefydlu gwasanaeth radio a theledu Cymraeg.		dorri'r cysylltiad â Phacistan.
1972	Cyhoeddi *Enw'r Gair* (Gwasg Gee) – barddoniaeth. Cyhoeddi *Amser Dyn* (Gwasg Gee) – drama.	➢ 5 Chwefror – Ym muddugoliaeth ysgubol Cymru o 35 i 12 yn erbyn yr Alban yn rygbi'r undeb, sgoriodd Gareth Edwards un o'r ceisiau unigol gorau a welwyd erioed. ➢ 30 Hydref – Agorwyd Banc Masnachol Cymru yng Nghaerdydd gan Syr Julian Hodge. ➢ 31 Hydref – Llwyddodd tîm rygbi Llanelli i guro Seland Newydd ar Barc y Strade o 9 pwynt i 3. ➢ Yn y flwyddyn hon agorwyd Atomfa'r Wylfa ar Ynys Môn, ail bwerdy niwclear Cymru.	➢ 9 Chwefror – Cyhoeddwyd stad o argyfwng i ddelio â'r prinder pŵer a achoswyd gan streic y glowyr. ➢ 29 Gorffennaf – Cafwyd streic genedlaethol yn y dociau. ➢ 21 Awst – Hedfanodd y Prydeiniwr Donald A. Cameron y balŵn aer poeth cyntaf dros fynyddoedd yr Alpau.	➢ 17 Mehefin – Yn Washington darganfuwyd bod pencadlys Plaid y Democratiaid yn adeilad Watergate wedi'i fwrglera gan gefnogwyr yr Arlywydd Nixon. ➢ 11 Awst – Dychwelodd y milwyr olaf i'r Unol Daleithiau o Fiet Nam. ➢ 5 Medi – Yn ystod Gemau Olympaidd Munich, herwgipiwyd naw aelod o dîm Israel gan derfysgwyr Arabaidd. ➢ 23 Rhagfyr – Lladdwyd miloedd o ganlyniad i ddaeargryn yn Nicaragua.

1973	Cyhoeddi *Presenting Saunders Lewis* – cyd-olygydd – ysgolheictod.	➢ Ionawr – Sefydlwyd Cyngres Undebau Llafur Cymru. ➢ 1 Ebrill – Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf *Y Dinesydd*, papur bro i Gaerdydd a'r cylch. ➢ Mai – Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn dychanol newydd *Rebecca*. ➢ 8 Awst – Mewn cyngerdd yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun ymddangosodd y grŵp pop Cymraeg Edward H Dafis. ➢ 23 Hydref – Enillodd yr Athro Brian Josephson o Gaerdydd Wobr Nobel Ffiseg am ei waith ar uwchddargludedd. ➢ 31 Hydref – Cyhoeddwyd Adroddiad y Comisiwn Brenhinol a oedd yn argymell cyrff etholedig yng Nghaerdydd a Chaeredin a Phrif Weinidog i Gymru a'r Alban. ➢ Hydref – Agorwyd Llyfrgell Glowyr De Cymru yn Abertawe gan Glyn Williams, Llywydd Undeb y Glowyr.	➢ 1 Ionawr – Ymunodd Prydain â'r Gymdeithas Economaidd Ewropeaidd. ➢ 8 Mawrth – Ffrwydrodd bom yn Llundain mewn car oedd wedi'i barcio o flaen yr Old Bailey ger Sgwâr Trafalgar. Ffrwydrad yn ymwneud â'r IRA ydoedd. ➢ 17 Mawrth – Agorodd y Frenhines, Elizabeth II, Bont newydd Llundain. ➢ Ym Mhrydain cyflwynwyd TAW (Treth ar Werth) am y tro cyntaf. ➢ 14 Tachwedd – Priodod y Dywysoges Anne â'r Capten Mark Phillips yn Abaty Westminster. ➢ 22 Tachwedd – Cyhoeddodd Prydain gynllun i alluogi Protestaniaid cymedrol a Phabyddion i rannu grym yng Ngogledd Iwerddon.	➢ 27 Ionawr – Cyhoeddodd yr Arlywydd Nixon ddiwedd ar y cysylltiad rhwng yr Unol Daleithiau a Fiet Nam. ➢ 8 Ebrill – Bu farw'r arlunydd Pablo Picasso. ➢ 17 Mai – Dechreuodd Senedd yr Unol Daleithiau ystyried achos Watergate. ➢ 11 Medi – Yn Chile lladdodd yr Arlywydd Allende ei hun. ➢ 17 Hydref – Cyhoeddodd y gwledydd Arabaidd gynnydd o 70% ym mhris olew gan arwain at y posibilrwydd o ddogni petrol yng ngorllewin Ewrop. ➢ 24 Hydref – Daeth y rhyfel, a adwaenid fel Rhyfel Yom Kippur, rhwng Israel a'r gwledydd Arabaidd i ben. ➢ 20 Rhagfyr – Lladdwyd Prif Weinidog Sbaen,

				Luis Carrero Blanco, gan fom a daflwyd i mewn i'w gar gan derfysgwyr ETA, y mudiad a frwydrai am annibyniaeth i wlad Basg.
1974		➢ 4 Chwefror – Dechreuodd streic genedlaethol bedair wythnos o hyd gan lowyr Prydain a arweiniodd ar argyfwng ynni, wythnos waith dri diwrnod yn y ffatrïoedd, ac yn y pen draw at gwymp llywodraeth Geidwadol Edward Heath. ➢ 30 Medi – Clywyd rhaglenni cyntaf gorsaf radio newydd, Sain Abertawe, yr orsaf radio fasnachol gyntaf yng Nghymru. ➢ 14 Hydref – Darlledwyd *Pobl y Cwm* am y tro cyntaf. ➢ Hydref – Agorwyd Neuadd Pantycelyn yn neuadd breswyl Gymraeg ei hiaith i fyfyrwyr Aberystwyth. ➢ Hydref a Thachwedd – Gwelwyd protestiadau mawr a swnllyd gan ffermwyr Cymru ym mhorthladdoedd Phenbedw yn erbyn mewnforio gwartheg o Iwerddon.	➢ 29 Mai – Daeth Gogledd Iwerddon o dan lwyr reolaeth uniongyrchol San Steffan. ➢ 30 Gorffennaf – Llofnodwyd cytundeb heddwch Ysgrifennydd Gwladol Prydain gan Brif Weinidogion Gwlad Groeg a Thwrci er mwyn rhoi diwedd ar yr argyfwng yn Cyprus. ➢ 21 Tachwedd – Lladdwyd 17 o bobl gan fomiau a osodwyd gan yr IRA mewn tafarndai yn Birmingham. ➢ 1974–76 Harold Wilson yn gwasanaethu yn ei 2il dymor fel Prif Weinidog Prydain.	➢ 13 Chwefror – Alltudiwyd Alexander Solzhenistyn, yr awdur gwrthwynebol, gan yr Undeb Sofietaidd. ➢ 2 Ebrill – Bu farw Arlywydd Ffrainc, Georges Pompidou. ➢ 10 Gorffennaf – Cyhoeddwyd bod gan India fom niwclear. ➢ 8 Awst – Ymddiswyddodd yr Arlywydd Richard Nixon a thrwy hynny osgoi cael ei uchelgyhuddo. Fe'i holynwyd gan Gerald Ford. ➢ 29 Hydref – Enillodd Muhammad Ali bencampwriaeth pwysau trwm y byd am yr eildro mewn gornest

		➢ 22 Tachwedd – Enillodd Helen Morgan o'r Barri gystadleuaeth 'Miss World'.		yn erbyn George Foreman yn Zaire. ➢ 7 Tachwedd – Dechreuwyd chwilio am yr Arglwydd Lucan ar ôl llofruddiaeth nani ei blant yn Llundain.
1975	Cyhoeddi *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill* (Gwasg Gee) – barddoniaeth.	➢ 1 Mawrth – Cyhoeddwyd cyfieithiad newydd o'r Testament Newydd, y fersiwn Gymraeg awdurdodol gyntaf o'r ysgrythurau Groeg er Testament Newydd William Salesbury yn 1567. ➢ 8 Mawrth – Teithiodd y fferi olaf ar draws Afon Cleddau, o Neyland i Hobbs Point, yn sgil agor Pont Cleddau. ➢ Mehefin – Enillodd Owen Edwards o Landudno radd mewn mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, y myfyriwr cyntaf i wneud hynny. ➢ Awst – Enillodd Gerallt Lloyd Owen gadair Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, Cricieth gyda'i awdl 'Afon'. ➢ 30 Awst – Clwb Criced Tre-gŵyr oedd y tîm cyntaf o Gymru i ennill Pencampwriaeth Griced y Pentrefi, gyda buddugoliaeth ysgubol o chwe wiced yn erbyn Isleham ar faes Lords yn Llundain.	➢ Etholwyd y fenyw gyntaf i arwain y Blaid Geidwadol, sef Margaret Thatcher. ➢ 5 Mehefin – Mewn refferendwm pleidleisiodd pobl Prydain o fwyafrif llethol dros barhau'n aelod o'r Farchnad Gyffredin. ➢ 18 Mehefin – Daeth yr olew cyntaf i'r lan drwy beipen o feysydd olew Môr y Gogledd. ➢ 29 Awst – Bu farw cyn-Arlywydd Gweriniaeth yr Iwerddon, Eamon de Valera yn 92 mlwydd oed.	➢ 13 Ebrill – Dechreuwyd cyfnod o wrthryfela ffyrnig yn Libanus. ➢ 17 Ebrill – Cipiwyd grym yn Cambodia gan luoedd comiwnyddol y Khmer Rouge dan arweiniad Pol Pot. ➢ 30 Ebrill – Yn Saigon, ildiodd De Fiet Nam i luoedd Gogledd Fiet Nam. ➢ 16 Mai – Dringodd Junko Tabei o Japan i gopa Everest, y wraig gyntaf i gyflawni'r gamp. ➢ 20 Tachwedd – Yn Sbaen, bu farw'r Cadfridog Franco, arlywydd y wlad ers y 1930au.

1976	Cyhoeddi *Cadwynau yn y Meddwl* (Gwasg Gee) – barddoniaeth. Cyhoeddi *Y Traddodiad Barddol* (Gwasg Prifysgol Cymru) – ysgolheictod.	➢ 3 Chwefror – Cymerodd George Thomas o Donypandy le Selwyn Lloyd fel Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, y trydydd Aelod Seneddol Cymraeg erioed i ddal y swydd. ➢ 28 Ebrill – Yn Nhalsarnau, Meirionydd, bu farw'r nofelydd Richard Hughes. ➢ 17 Gorffennaf – Y tro cyntaf erioed i Ras yr Wyddfa gael ei chynnal. ➢ Yn y flwyddyn hon, cafodd Ogof Ffynnon Ddu, ger Craig-y-nos ym mhen uchaf Cwm Tawe ei nodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol, y gyntaf ym Mhrydain.	➢ 16 Mawrth – Ymddiswyddodd y Prif Weinidog, Harold Wilson a chafodd ei ddisodli gan James Callaghan. ➢ 2 Mehefin – Enillodd Lester Piggott ras Derby am y seithfed tro – record i joci. ➢ 7 Gorffennaf – Daeth David Steel yn arweinydd y Blaid Ryddfrydol wedi ymddiswyddiad Jeremy Thorpe. ➢ 8 Awst – Lansiwyd y Mudiad Gwragedd dros Heddwch yng Ngogledd Iwerddon mewn rali a fynychwyd gan 20,000 o Babyddion a Phrotestaniaid y dalaith. ➢ Medi – Gorfodwyd Prydain i fenthyg arian gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol.	➢ 4 Gorffennaf – Llwyddodd cyrch gan yr Israeliaid i achub 106 o deithwyr wedi iddynt gael eu herwgipio a'u caethiwo ym maes awyr Entebbe, Uganda. ➢ 20 Gorffennaf – Gwelwyd y lluniau manwl cyntaf o'r blaned Mawrth wedi i'r llong ofod *Viking 1* lanio arni. ➢ 9 Medi – Bu farw arweinydd Tsieina, Mao Zedong, yn 82 mlwydd oed. ➢ 2 Tachwedd – Etholwyd Jimmy Carter yn Arlywydd yr Unol Daleithiau.
1977	Cyhoeddi *Ymarfer Ysgrifennu* – esboniad ac ymarferion gramadeg ac iaith.	➢ Ionawr – Lansiwyd Radio Cymru am y tro cyntaf. ➢ 10 Chwefror – Bu farw'r cerddor a'r gyfansoddwraig Grace Williams o'r Barri. ➢ 1 Ebrill – O ganlyniad i Ddeddf Datblygu Cymru Wledig, daeth Bwrdd Datblygu Cymru Wledig i fodolaeth.	➢ 2 Ebrill – Yn Lerpwl, enillodd y ceffyl Red Rum ras y Grand National am y trydydd tro. ➢ 7 Mehefin – Cynhaliwyd dathliadau jiwbilî i ddynodi pum mlynedd ar hugain ers coroni'r frenhines Elizabeth II. ➢ Trefnwyd streiciau gan Undebau Llafur y sector cyhoeddus; roedd y	➢ 17 Ionawr – Yn Salt Lake City, dienyddiwyd Gary Gilmore am lofruddiaeth, y cyntaf i'w ddienyddio yn yr Unol Daleithiau ers deng mlynedd. ➢ 28 Mawrth – Lladdwyd 574 o deithwyr wedi i ddwy awyren wrthdaro

		➢ 22 Ebrill – Bu farw'r difyrrwr poblogaidd Ryan Davies tra oedd ar daith yn Buffalo, Talaith Efrog Newydd. ➢ Daeth cwmni theatr newydd o'r enw 'Bara Caws' i fodolaeth y flwyddyn hon gyda sioe dafarn a berfformiwyd yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam.	streicwyr yn cynnwys ymladdwyr tân.	ar faes awyr Los Rodeos, Tenerife. ➢ 17 Mai – Etholwyd Menachim Begin yn Brif Weinidog Israel. ➢ 15 Mehefin – Wedi'r etholiadau democrataidd cyntaf yn Sbaen ers 41 mlynedd, etholwyd Adolfo Suarez yn Brif Weinidog. ➢ 16 Awst – Yn ei gartref yn Memphis, bu farw Elvis Presley, un a ddisgrifiwyd fel 'brenin' y byd roc. ➢ 12 Medi – Bu farw'r arweinydd croenddu Steve Biko ar ôl iddo gael ei guro gan yr heddlu yn Ne Affrica.
1978	Cyhoeddi *Croesi Traeth* (Gwasg Gee) – barddoniaeth.	➢ Gorffennaf – Cyhoeddwyd bod ymddiriedolaeth, o dan arweiniad Dr Carl Clowes, wedi prynu hen bentref Porth y Nant yn Nant Gwrtheyrn, Gwynedd am £25,000 – bwriad yr ymddiriedolaeth oedd sefydlu Canolfan Iaith Genedlaethol yno. ➢ 7 Hydref – Gosodwyd beddfaen ar ddarn o dir yn Abaty Cwm-hir lle y	➢ 21 Mehefin – Yn Llundain, perfformiwyd y sioe gerddorol *Evita* am y tro cyntaf. ➢ 25 Gorffennaf – Cafodd Louise Brown, y baban tiwb profi cyntaf ei geni yn Oldham. ➢ Achoswyd aflonyddwch mawr i wasanaethau amrywiol o ganlyniad i streiciau'r Gwasanaeth Cyhoeddus.	➢ 11 Mawrth – Lladdwyd 37 o Israeliaid wedi i derfysgwyr Palesteinaidd osod bomiau ar dri bws ger Haifa. ➢ 9 Mai – Darganfuwyd corff Aldo Moro, cyn-Brif Weinidog yr Eidal, a lofruddiwyd gan

		claddwyd corff Llywelyn Ein Llyw Olaf yn y 13eg ganrif. ➢ Hydref – Enillwyd y wobr gyntaf yng Ngŵyl Darlledu Asia a gynhaliwyd yn y Delhi Newydd gan ffilm o Gymru. ➢ Y ffilm gowbois *Shane* oedd y ffilm gyntaf erioed i gael ei dybio yn Gymraeg pan ddangoswyd hi gan HTV yn ystod y flwyddyn hon.		derfysgwyr adain chwith. ➢ 18 Medi – Yn Camp David, Maryland, arwyddodd yr Aifft ac Israel gytundeb heddwch hanesyddol. ➢ 28 Medi – Etholwyd Pieter Willem Botha yn Brif Weinidog De Affrica. ➢ 16 Hydref – Etholwyd y cardinal Pwylaidd Karol Wojtyla yn Bab, y cyntaf i'w ddewis o'r tu allan i'r Eidal mewn pedair canrif. ➢ 29 Tachwedd – Yn Guyana, darganfuwyd cyrff dros 900 o gefnogwyr cwlt a arweiniwyd gan y 'Parchedig' Jim Jones. Roeddent i gyd, gan gynnwys Jones, wedi eu lladd eu hunain. ➢ 25 Rhagfyr – Ymosododd lluoedd Fiet Nam ar Cambodia.
1979		➢ 1 Mawrth – Pleidleisiodd mwyafrif llethol o boblogaeth Cymru 'Na' mewn refferendwm ar gynlluniau'r	➢ 1 Mawrth – Gwrthodwyd datganoli gan Gymru a'r Alban.	➢ 30 Mawrth – Cyfaddefodd yr awdurdodau yn yr Unol

		llywodraeth i greu cynulliad i Gymru yng Nghaerdydd. ➢ Ebrill – Cipiodd Terry Griffiths o Lanelli Bencampwriaeth Snwcer Proffesiynol y Byd. ➢ 12 Rhagfyr – Llosgwyd y cyntaf o nifer o dai haf yng Nghymru. ➢ Rhagfyr – Cafwyd y llifogydd gwaethaf yng Nghymru ers ugain mlynedd.	➢ 3 Mai – Cafodd Margaret Thatcher ei hethol fel Prif Weinidog benywaidd cyntaf Prydain. ➢ 27 Awst – Llofruddiwyd cefnder y Frenhines, Yr Arglwydd Mountbatten, gan yr IRA.	Daleithiau y gallai damwain yng ngorsaf niwclear Three Mile Island, Pennsylvania, fod wedi arwain at drychineb. ➢ 18 Mehefin – Yn Vienna, daeth yr Undeb Sofietaidd a'r Unol Daleithiau i gytundeb ynglŷn â rheoli arfau. ➢ 20 Gorffennaf – Yn Nicaragua, disodlwyd yr Arlywydd Somoza gan wrthryfelwyr Sandinista. ➢ 21 Tachwedd – Cyhoeddwyd bod ceidwad lluniau'r frenhines, Syr Anthony Blunt, wedi bod yn ysbïwr Sofietaidd yn y gorffennol. ➢ 10 Rhagfyr – Cyflwynwyd Gwobr Heddwch Nobel i'r Fam Teresa am ei gwaith dyngarol ymhlith tlodion India. ➢ 21 Rhagfyr – Daeth annibyniaeth

				anghyfreithlon Rhodesia i ben wrth ffurfio gwlad newydd, Zimbabwe. ➢ 27 Rhagfyr – Ymosododd lluoedd yr Undeb Sofietaidd ar Afghanistan.
1980		➢ Ionawr – Cafwyd protest ganol Ionawr pan gyhoeddodd y Swyddfa Gymreig fod tiroedd ar y ffin rhwng Gwynedd a Phowys wedi eu nodi fel man i archwilio lleoliadau addas ar gyfer claddu gwastraff niwclear. ➢ 30 Mawrth – Arestiwyd mwy na deg ar hugain o genedlaetholwyr Cymreig adnabyddus yn rhan o ymgyrch yr heddlu - 'Operation Tân'. ➢ 11 Ebrill – Sefydlwyd yr ail orsaf radio fasnachol yng Nghymru, Cwmni Darlledu Caerdydd. ➢ 5 Mai – Datganodd Gwynfor Evans y byddai'n dechrau ymprydio oni fyddai'r llywodraeth yn San Steffan yn anrhydeddu ei haddewid i sefydlu sianel deledu Cymraeg. Roedd yr ympryd i ddechrau ar 6 Hydref. ➢ 26 Tachwedd – Bu farw'r actores Rachel Roberts. Datgelwyd ei bod wedi'i gwenwyno ei hun.	➢ 2 Ionawr – Aeth gweithwyr dur Prydain ar streic genedlaethol dros gyflogau, galwyd y streic gan Gydffederasiwn Masnachau Haearn a Dur y Deyrnas Unedig. ➢ 25 Mawrth – Pleidleisiodd y Gymdeithas Olympaidd Brydeinig o blaid herio'r llywodraeth ar ei phenderfyniad i atal anfon athletwyr i'r Gemau Olympaidd a gynhaliwyd ym Moscow. ➢ 1 Ebrill – Diddymwyd streic y gweithwyr dur. ➢ 10 Hydref – Gwnaeth Margaret Thatcher ei haraith enwog –'The lady's not for turning'.	➢ 4 Mawrth – Etholwyd Robert Mugabe yn Brif Weinidog senedd ddemocrataidd gyntaf Zimbabwe. ➢ 15 Ebrill – Yn Ffrainc, bu farw'r awdur a'r athronydd Jean-Paul Sartre. ➢ 25 Ebrill – Yn Iran, methodd ymgais gan filwyr yr Unol Daleithiau i ryddhau'r gwystlon a herwgipiwyd gan chwyldroadwyr Islamaidd chwe mis ynghynt. ➢ 5 Mai – Yn llysgenhadaeth Iran yn Llundain, rhyddhawyd y gwystlon a herwgipiwyd gan derfysgwyr o ganlyniad i gyrch gwaedlyd gan yr SAS.

		➢ Penderfynodd y BBC wahardd chwarae record newydd Dafydd Iwan ar ei raglenni. Teimlent y byddai ei gân – 'Magi Thatcher' – yn ennyn dicter tuag at y llywodraeth a chefnogwyr y Prif Weinidog.		➢ 20 Mai – Mewn refferendwm, pleidleisiodd etholwyr Quebec yn erbyn mynd yn annibynnol ar Ganada. ➢ 22 Medi – Ar orchymyn arweinydd newydd y wlad, Saddam Hussein, ymosododd byddin Iraq ar Iran gan ddechrau rhyfel gwaedlyd. ➢ 22 Medi – Yng Ngwlad Pwyl, ffurfiwyd yr undeb llafur annibynnol Solidarnosc, y cyntaf yng ngwledydd comiwnyddol dwyrain Ewrop. ➢ 4 Tachwedd – Yn yr Unol Daleithiau, etholwyd y cyn-actor Ronald Reagan yn Arlywydd. ➢ 9 Rhagfyr – Yn Efrog Newydd, saethwyd John Lennon, y seren bop a chyn-aelod o'r Beatles, yn farw.
1981	Cyhoeddi *Symud y Lliwiau* (Gwasg Gee) – barddoniaeth.	➢ 24 Ionawr – Yng Nghaerdydd roedd angen mwy na 1,600 o blismyn i	➢ 25 Ionawr – Yn Llundain, sefydlwyd Cyngor dros	➢ 21 Ionawr – Rhyddhawyd y gwystlon

		gadw dwy orymdaith ar wahân – 1,200 o gefnogwyr Sinn Féin a 350 o'r Ffrynt Cenedlaethol. ➢ 23 Chwefror – Cyhoeddodd cwmni Duport yn Llanelli y byddai mwy na mil o bobl yn colli eu swyddi pan fyddai'r cwmni dur yn cau ei weithfeydd yn y dref. ➢ 13 Ebrill – Bu farw'r nofelydd a dramodydd Gwyn Thomas o'r Porth, Cwm Rhondda. ➢ 27 Awst – Cychwynnodd 36 o wragedd a 4 dyn o Gaerdydd i safle milwrol Comin Greenham i sefydlu protest heddychlon yn erbyn defnyddio'r lle fel safle ar gyfer taflegrau niwclear *Cruise* yr Unol Daleithiau. ➢ Ymddeolodd Gwynfor Evans o'i swydd fel Llywydd Plaid Cymru wedi 36 blynedd o wasanaeth.	Ddemocratiaeth Gymdeithasol gan Roy Jenkins, David Owen, Shirley Williams a William Rodgers. Byddai'n dod yn Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol (SDP) ar 26 Mawrth. ➢ 9 Ebrill – Ac yntau ar streic newyn yng ngharchar y Maze, Belfast, etholwyd Bobby Sands, aelod o'r IRA, yn aelod seneddol mewn isetholiad yn Fermanagh. ➢ 11 Ebrill – Taniwyd terfysgoedd yn Brixton ac ardaloedd eraill o ganlyniad i densiynau hiliol. ➢ 5 Mai – Bu farw Bobby Sands wedi 66 diwrnod ar streic newyn. ➢ 24 Mehefin – Agorwyd Pont Humber, y bont un bwa hiraf yn y byd. ➢ 4 Gorffennaf – Dechreuodd cyfnod o derfysgoedd yn Toxteth, Lerpwl, a Moss Side, Manceinion. ➢ 3 Hydref – Rhoddwyd terfyn ar ympryd carcharorion Gweriniaethol wedi deg marwolaeth.	Americanaidd yn Iran ar ôl 444 diwrnod mewn caethiwed. ➢ 13 Mai – Saethwyd y Pab Ioan Pawl II gan derfysgwyr o Dwrci ond achubwyd ei fywyd gan feddygon. ➢ Yn Ffrainc, daeth dyddiau'r gilotîn i ben pan ddiddymwyd y gosb eithaf. ➢ 6 Hydref – Llofruddiwyd Arlywydd yr Aifft, Anwar Sadat, gan eithafwyr Islamaidd.
1982	Cyhoeddi *Gruffydd ab yr Ynad Coch* – astudiaeth o farddoniaeth Gruffydd ab yr Ynad Coch – ysgolheictod.	➢ 23 Chwefror - Daeth Cymru yn wlad swyddogol ddiniwclear pan gytunodd Cyngor Sir Clwyd â'r saith cyngor sirol arall i wahardd arfau niwclear o'i sir.	➢ 26 Ionawr – Cyhoeddwyd diweithdra uchel wedi cyfnod o ddirwasgiad. ➢ 2 Ebrill – Rhyfel y Falklands yn dechrau wrth i'r Ariannin ymosod	➢ 2 Mai - Suddwyd llong rhyfel yr Ariannin, *General Belgrano*, yng Nghefnfor Iwerydd, er ei bod y tu allan i ardal

		➢ 8 Mehefin – Lladdwyd 39 o filwyr y Gwarchodlu Cymreig ac anafwyd 79 pan darodd torpido y llong gludo milwyr *Sir Galahad* yn Bluff Cove wrth i luoedd arfog Prydain ymdrechu i ennill Ynysoedd y Falkland. ➢ Mehefin – Enillodd Angharad Tomos o Lanwnda Fedal Lenyddiaeth Eisteddfod yr Urdd ym Mhwllheli. ➢ 2 Mehefin – Daeth y Pab Ioan Paul II i Gymru, y Pab cyntaf erioed i ymweld â'r wlad. ➢ 9 Medi – Agorwyd Neuadd Dewi Sant, Caerdydd gyda chyngerdd am ddim. ➢ 17 Hydref – Lansiwyd *Sulyn*, y papur Sul Cymraeg cyntaf erioed. ➢ 19 Hydref – Bu farw Iorwerth Cyfeiliog Peate, y llenor a sylfaenydd Amgueddfa Werin Cymru. ➢ 1 Tachwedd – Wedi ugain mlynedd o frwydro, dechreuodd Sianel Pedwar Cymru (S4C) ddarlledu fel sianel arbennig ar gyfer rhaglenni yn yr iaith Gymraeg.	ar y diriogaeth Brydeinig yn Ynysoedd y Falkland. ➢ Dechreuodd 'Channel 4' ddarlledu gan sicrhau pedair gorsaf deledu i Brydain.	waharddedig a osodwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ym mis Ebrill. ➢ 12 Tachwedd – Daeth cyn-bennaeth y KGB, Yuri Andropov, yn arweinydd yr Undeb Sofietaidd a hynny ddau ddiwrnod wedi marwolaeth Leonid Brezhnev.
1983		➢ 9 Mehefin – Cipiodd Ceidwadwyr Cymru eu cyfanswm mwyaf o seddi yn y ganrif gyfan yn yr Etholiad Cyffredinol.	➢ 10 Mehefin – Ailetholwyd Margaret Thatcher i'w swydd fel Prif Weinidog y Deyrnas Unedig. ➢ 14 Mehefin – Cyrhaeddodd lluoedd Prydain Port Stanley,	➢ 12 Ebrill – Cynhaliwyd seremoni wobrwyo'r Oscars lle enillodd y ffilm *Gandhi* wyth o'r prif wobrau.

		➢ Mehefin – Cyhoeddwyd y byddai darn punt newydd Cymreig yn cael ei fathu. Roedd y llywodraeth yn awyddus i gynhyrchu darnau arian yn cynnwys symbolau Cymreig. ➢ 23 Gorffennaf – Cynhaliwyd cystadleuaeth Canwr y Byd am y tro cyntaf yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. ➢ 2 Hydref – Daeth y Cymro o Dredegar, Neil Kinnock, yn arweinydd ar y blaid Lafur, y Cymro cyntaf i ddal y swydd. ➢ Sefydlwyd yn y flwyddyn hon yr Archif Wleidyddol Gymreig i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru.	prifddinas Ynysoedd Falkland gan orfodi byddin yr Ariannin i ildio. ➢ 20 Gorffennaf – Lladdwyd 10 o bobl gan fomiau yr IRA yn Hyde Park a Regent's Park, Llundain. ➢ 22 Medi – Cynhaliwyd 'Diwrnod Gweithredu' gan yr undebau llafur er mwyn cefnogi gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd. ➢ 11 Hydref – Daeth y llong *Mary Rose* i'r wyneb. Roedd wedi suddo ym mhorthladd Portsmouth ym 1545. ➢ 23 Tachwedd – Cafwyd y llofrudd torfol, Dennis Nilsen, yn euog o lofruddio 17 dyn ifanc yn Llundain. Ef oedd y llofrudd torfol gwaethaf ym Mhrydain.	➢ 5 Mai – Gwnaed y cyhoeddiad mai achos o dwyll oedd y dyddiaduron yr honnwyd eu bod yn eiddo i Hitler. Gwerthwyd y deunydd i'r Sunday Times am £1 filiwn cyn y cyhoeddiad. ➢ 1 Medi – Lladdwyd 269 o bobl wrth iddynt deithio ar awyren *Boeing 747* o Efrog Newydd i Korea. Saethodd awyrennau'r Undeb Sofietaidd atynt wrth iddynt groesi Siberia.
1984	Cyhoeddi *Wmgawa* – (Gwasg Gee) – barddoniaeth. Cyhoeddi diweddariad o *Pedair Cainc y Mabinogi* – ysgolheictod. Cyhoeddi *Tales from the Mabinogion* – ar y cyd gyda Kevin Crossley-Holland.	➢ 12 Mawrth – Cychwynnodd streic genedlaethol hir gan y glowyr. ➢ 4 Mehefin – Ymddeolodd Syr Geraint Evans wedi 36 o flynyddoedd o berfformio yn y Tŷ Opera Brenhinol, Covent Garden. ➢ 22 Mehefin – Bu farw'r pianydd jazz Dillwyn Owen Jones yn Efrog Newydd, ond ganed ef yng Nghastell-nedd, a'i fagu yn Llanymddyfri.	➢ 12 Mawrth – Dechreuwyd ar Streic y Glowyr dros gau pyllau glo. ➢ 12 Ebrill – Preifateiddiwyd y cwmni Prydeinig British Telecom. ➢ 23 Medi – Arwyddwyd cytundeb rhwng Tsieina a Phrydain yn Beijing ynglŷn â dyfodol Hong Kong. ➢ 12 Hydref – Cafwyd ymosodiad gan yr IRA yng Nghynhadledd y Ceidwadwyr yn Brighton.	➢ 23 Ionawr – Lansiwyd y cyfrifiadur newydd - yr Apple Mac yn California. ➢ 31 Hydref – Llofruddiwyd Prif Weinidog India, Indira Gandhi. ➢ 6 Tachwedd – Ailetholwyd yr Arlywydd Ronald Reagan i wasanaethu am ail dymor yn Unol Daleithiau America.

		➢ 5 Awst – Bu farw'r actor Richard Burton o Bont-rhyd-y-fen, yng Ngenefa, y Swistir. ➢ Awst – Yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan ym mis Awst, sefydlwyd mudiad CYD (Cyngor y Dysgwyr) i ddod â Chymry Cymraeg a dysgwyr yr iaith ynghyd. ➢ 30 Tachwedd – Gwelwyd unig farwolaeth Streic y Glowyr ym maes glo'r De pan laddwyd gyrrwr tacsi 31 oed, David Wilkie wrth yrru glöwr i'r gwaith. Cafodd Wilkie ei daro gan bostyn concrit a daflwyd at ei dacsi o Bont Rhymni uwchben y ffordd.		
1985		➢ 5 Mawrth – Wedi iddynt dreulio bron i flwyddyn ar streic, dychwelodd glowyr de Cymru i'w gwaith. ➢ 30 Mawrth – Hywel Davies o Aberteifi a enillodd y Grand National, a hynny ar y ceffyl 'Last Suspect'. ➢ 4 Ebrill – Bu farw Kate Roberts, un o awduron rhyddiaith mwyaf y ganrif yng Nghymru. ➢ 20 Ebrill – Enillodd y Cymro Steve Jones Farathon Llundain.	➢ 25 Chwefror – Dychwelodd 4,000 o lowyr i'r gwaith, gan adael ychydig dros hanner y glowyr eraill yn parhau i streicio. ➢ Mawrth 3 – Daeth streic y glowyr i ben ar ôl blwyddyn. ➢ Rhagfyr 25 – Sefydlwyd yr elusen 'Comic Relief'.	➢ 11 Mawrth – Dechreuodd cyfnod Mikhail Gorbachov fel arweinydd yr Undeb Sofietaidd gan ddechrau hefyd ar gyfnod o ddiwygio'r wlad. ➢ 13 Gorffennaf – Codwyd £40 miliwn drwy lwyddiant y cyngerdd 'Live Aid' yn Wembley i elusennau a weithiai i leddfu newyn yn Affrica. ➢ 1 Medi - Darganfuwyd gweddillion *Titanic*, y

		➢ 7 Mehefin – Agorwyd ffatri newydd Laura Ashley yng Nghaernarfon gan gyflogi dros fil o weithwyr. ➢ 17 Awst – Dechreuodd streic chwarelwyr Cwmni Ffestiniog. ➢ 1 Medi – Bu farw Saunders Lewis, prif ffigwr llenyddol Cymraeg yr ugeinfed ganrif a phrif ysgogydd y mudiad cenedlaethol modern. ➢ 17 Medi – Cychwynnodd David Sinnett-Jones o borthladd Aberaeron ar daith o gwmpas y byd. Y tro nesa iddo weld porthladd Aberaeron oedd ychydig llai na thair blynedd wedi iddo gychwyn ar ei daith.		llong a suddodd ym 1912 ger Newfoundland. ➢ 10 Hydref – Bu farw dau actor enwog ar yr un diwrnod – Orson Welles ac Yul Brynner.
1986	Cyhoeddi *Am ryw Hyd* (Gwasg Gee) – barddoniaeth	➢ Ebrill – Cynhaliwyd protestiadau helaeth yng Nghaerfyrddin. Amgylchynwyd y byncer niwclear yr oedd Cyngor Dosbarth Caerfyrddin yn ei adeiladu ar y pryd gan ryw 4,000 o orymdeithwyr a chefnogwyr cymdeithas CND Cymru. ➢ 31 Mehefin – Daeth bron dwy ganrif o dorri glo yng nghymoedd Rhondda Fawr a Rhondda Fach i ben pan godwyd y glo diwethaf o bwll olaf cymoedd y Maerdy. ➢ 24 Gorffennaf – Cytunodd tri barnwr nad oedd Cyngor Sir Gwynedd yn euog o hiliaeth pan	➢ 30 Ebrill – Cynhaliwyd terfysgoedd dros nos mewn carchardai ar draws y wlad. ➢ 8 Mai – Bu cynnydd mawr i'r Blaid Lafur mewn etholiadau cynghorau lleol. ➢ 31 Gorffennaf – Cyhoeddwyd bod 3.25 miliwn o bobl yn ddi-waith, hwn oedd y ffigwr uchaf a gofrestrwyd erioed. ➢ 19 Medi – Cyflwynwyd cyrsiau arholiad TGAU i gymryd lle cyrsiau Lefel 'O' ar gyfer pobl ifanc 15/16 oed.	➢ 28 Chwefror – Llofruddiwyd Prif Weinidog Sweden, Olaf Palme yn Stockholm. ➢ 14 Ebrill – Bu farw'r awdures Simone de Beauvoir yn Ffrainc. ➢ 15 Ebrill – Hedfanodd awyrennau'r Unol Daleithiau i fomio Libya, gan ddechrau o feysydd awyr ym Mhrydain. Pwrpas yr ymosodiad oedd talu'r pwyth yn ôl am gefnogaeth

		wrthododd gyflogi dwy Gymraes ddi-Gymraeg mewn cartref henoed. ➢ 1 Medi – Y mewnwr David Bishop oedd y chwaraewr cyntaf erioed o Gymru i gael ei garcharu am drais ar y cae rygbi. Cafodd rheithgor ef yn euog o ymosod ar Chris Jarman o glwb rygbi Trecelyn ar 23 Hydref 1985. ➢ Medi – I ddynodi pen-blwydd y Cwmni Opera Cenedlaethol yn ddeugain oed, cyflwynodd y cwmni berfformiadau o'r cylch epig o operâu, *Y Fodrwy* gan Richard Wagner ar draws Prydain.	➢ 8 Rhagfyr – Preifateiddiwyd diwydiannau cenedlaethol mawr.	arweinydd y wlad, Cyrnol Gaddafi, i derfysgwyr. ➢ 22 Tachwedd – Enillodd Mike Tyson bencampwriaeth bocsio pwysau trwm y byd yn Las Vegas, yr ieuengaf erioed i gyflawni'r gamp.
1987		➢ 3 Chwefror – Bu farw'r awdur a'r darlledwr Wynford Vaughan-Thomas o Abertawe. ➢ 19 Mawrth – Gwelwyd aildrefnu sylweddol ar yr Eglwys Babyddol yng Nghymru pan ffurfiwyd tair esgobaeth newydd o'r ddwy flaenorol. Bellach bodolai Esgobaeth Mynyw, Esgobaeth Wrecsam ac Archesgobaeth Caerdydd. ➢ 22 Mawrth – Mewn seremoni yn Llundain, enillodd y gyfres gartŵn *Superted*, gan gwmni Siriol o Gaerdydd, wobr BAFTA am y gwaith animeiddio gorau.	➢ 11 Mehefin - Enillodd y Prif Weinidog Margaret Thatcher ei thrydydd tymor. ➢ 19 Hydref – Crëwyd problemau ariannol ym Mhrydain o ganlyniad i Gwymp Wall Street. Dilëwyd gwerth pum deg biliwn oddi ar gyfranddaliadau Gyfnewidfa Stoc Llundain. ➢ 8 Tachwedd – Bu bomio mewn gwasanaeth Sul y Cofio yn Enniskillen, Gogledd Iwerddon lle laddwyd 11 o bobl gan yr IRA.	➢ 7 Mawrth – Lladdwyd 188 o bobl pan suddodd y fferi, *Herald of Free Enterprise*, wrth ymadael â phorthladd Zeebrugge. ➢ 8 Rhagfyr – Arwyddodd yr Undeb Sofietaidd a'r Unol Daleithiau gytundeb yn Washington i leihau nifer yr arfau niwclear yr oedd y ddwy wlad yn eu cadw.

		➢ 20 Mehefin – Cipiodd Cymru'r drydedd wobr yng Nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd wrth iddynt drechu Awstralia ym mlwyddyn gyntaf y gystadleuaeth. ➢ 30 Medi – Carcharwyd Aelod Seneddol Ynys Môn, Keith Best, ar ôl ei gael yn euog o dwyll gan reithgor yn Llys y Goron Southwark, Llundain. Prynodd gyfranddaliadau drwy dwyll. ➢ 29 Rhagfyr – Bu farw Anna Williams, yn ôl pob tebyg y wraig hynaf yn y byd ar y pryd, yn 114 mlwydd oed.		
1988	Cyhoeddi *Culhwch ac Olwen* (Gwasg Prifysgol Cymru) - ysgolheictod.	➢ 27 Chwefror – Estynnwyd ymgyrch losgi'r garfan anweledig 'Meibion Glyndŵr' y tu hwnt i Glawdd Offa. Ymosododd y garfan ar swyddfeydd pedwar o asiantau tai yng Nghaer gan dargedu cwmnïau yn Lloegr a werthai dai yng Nghymru i bobl o'r tu allan i'r wlad. ➢ 1 Mawrth – Cyhoeddwyd y *Beibl Cymraeg Newydd*, bedwar can mlynedd wedi cyhoeddi'r Beibl Cymraeg cyntaf o gyfieithiad yr Esgob William Morgan. ➢ 8 Medi – Aeth y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn materion cyfoes wythnosol, *Golwg*, ar werth.	➢ 3 Chwefror – Cynhaliwyd 'diwrnod gweithredu' gan nyrsys er mwyn pwysleisio'r dirywiad a fu yn y Gwasanaeth Iechyd. ➢ 11 Mawrth – Daeth darn arian punt yn lle'r papur punt. ➢ 17 Rhagfyr – Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ar Dwnnel y Sianel. ➢ 21 Rhagfyr – Ffrwydrodd bom mewn awyren Pan Am 747 uwchben tref Lockerbie, yr Alban, gan ladd 270 yn yr awyren ac 11 yn y dref.	➢ 6 Gorffennaf – Bu farw 170 o weithwyr ym Môr y Gogledd ar ôl ffrwydrad ar y llwyfan olew – 'Piper Alpha'. ➢ 20 Awst – Bu cadoediad rhwng y rhyfeloedd yn Iran ac Iraq. ➢ 8 Tachwedd – Etholwyd George Bush yn Arlywydd Unol Daleithiau America. ➢ 2 Rhagfyr – Daeth gwraig yn bennaeth ar wlad Islamaidd am y tro cyntaf erioed pan

		➢ Hydref – Bu farw'r dramodydd John Gwilym Jones. ➢ Tachwedd – Darlledwyd y rhaglen gyntaf o gyfresi comedi mwyaf poblogaidd S4C, *C'mon Midffild*.		etholwyd Benazir Bhutto yn Brif Weinidog Pacistan.
1989	Cyhoeddi *Gwelaf Afon* (Gwasg Gee) - barddoniaeth	➢ 5 Mawrth – Lansiwyd *Wales on Sunday*, y papur Sul Saesneg cyntaf i'w gynhyrchu yng Nghymru ar gyfer Cymru. ➢ 17 Mehefin – Enillodd y canwr bariton Bryn Terfel o Bantglas, Caernarfon, Wobr Lieder cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd. ➢ 1 Gorffennaf – Am y tro cyntaf, ymddangosodd grŵp yn cysylltu eu hunain â'r llosgwyr tai, Meibion Glyndŵr, mewn man cyhoeddus. ➢ Medi – Lansiwyd Gŵyl Ffilm Aberystwyth (Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru wedi hynny). ➢ 8 Tachwedd – Cynhaliwyd refferendwm lle pleidleisiodd Dwyfor a Phenrhyn Llŷn, yr unig rai yng Nghymru, o blaid cadw tafarndai ar gau ar y Sul.	➢ 15 Ebrill – Arweiniodd trychineb Hillsborough at 96 o farwolaethau a 766 o anafiadau mewn gêm bêl-droed rhwng Lerpwl a Nottingham Forest yn Stadiwm Hillsborough, Sheffield, Lloegr. Digwyddodd y trychineb oherwydd gorlenwi yn y stadiwm. ➢ Dyfeisiwyd y We Fyd-eang gan Tim Berners Lee.	➢ 3 Mehefin – Bu farw arweinydd Iran, Ayatollah Khomeini. ➢ 4 Mehefin - Lladdodd byddin Tsieina filoedd o brotestwyr yn Sgwâr Tianamen, Beijing ➢ 9 Tachwedd – Dechreuwyd dymchwel Wal Berlin. ➢ 25 Rhagfyr – Cafodd arweinydd comiwnyddol Rwmania, Nicolae Ceausescu, ei ddienyddio gan wrthryfelwyr. ➢ 29 Rhagfyr – Cafodd y dramodydd Vaclav Havel ei ethol yn Arlywydd Tsiecoslofacia.
1990		➢ 14 Chwefror – Arestiwyd y canwr poblogaidd ac un o sêr teledu amlycaf Cymru, Bryn Fôn, wrth i Heddlu Gogledd Cymru geisio dal y	➢ 31 Mawrth – Bu terfysgoedd ar draws Llundain wedi i'r Llywodraeth gyflwyno trethi lleol a 'threth y pen'.	➢ 11 Chwefror – Rhyddhawyd yr arweinydd croenddu Nelson Mandela o garchar yn Ne Affrica.

		rhai a fu wrthi'n llosgi tai haf ers 1979. ➢ 26 Chwefror – Symudwyd dwy fil o bobl o'u cartrefi a bu difrod i 2,800 o dai pan darodd llifogydd mawr dref Towyn, ger Abergele. ➢ 1 Mawrth – Cyhoeddwyd cyfrol newydd a oedd yn arbennig am ddau reswm. *Hanes Cymru* gan John Davies oedd y llyfr cyntaf i olrhain yn Gymraeg holl hanes y wlad o'r cyfnod cynharaf hyd y presennol. Hefyd, hwn oedd y llyfr Cymraeg cyntaf erioed i'w gynhyrchu gan y cyhoeddwyr rhyngwladol, Penguin. ➢ 27 Medi – Daeth bron i ddwy ganrif o gynhyrchu dur ym Mrymbo, ger Wrecsam i ben a chollodd mil o bobl eu swyddi pan gaewyd gweithfeydd dur y dref. ➢ 1 Medi – Mewn oedfa ddathlu genedlaethol yn Aberystwyth, sefydlwyd Cytûn, mudiad yr Eglwysi Ynghyd yng Nghymru.	➢ 22 Tachwedd – Ymddiswyddodd Margaret Thatcher a daeth John Major yn Brif Weinidog ar y Deyrnas Unedig. ➢ 2 Rhagfyr – Torrwyd tir newydd ym mhroses adeiladu Twnnel y Sianel wrth i weithwyr twnnel Prydain a Ffrainc gyfarfod 40 metr o dan wely môr y Sianel gan sefydlu'r cysylltiad daearyddol cyntaf rhwng y Deyrnas Unedig a thir mawr Ewrop ers yr oes iâ ddiwethaf.	➢ 11 Mawrth – Cyhoeddwyd Lithwania yn wlad annibynnol. ➢ 29 Mai – Etholwyd Boris Yeltsin yn Arlywydd Ffederasiwn Rwsia. ➢ 7 Gorffennaf – Cipiodd Martina Navratilova bencampwriaeth Wimbledon am y nawfed tro. ➢ 3 Awst – Goresgynnwyd Kuwait gan luoedd Iraq o dan arweiniad Saddam Hussein. ➢ 4 Awst – Anfonwyd milwyr i Saudi Arabia o'r Unol Daleithiau er mwyn paratoi i ryddhau Kuwait. ➢ 3 Hydref – Daeth yr Almaen yn wlad unedig unwaith eto. ➢ 7 Hydref – Saethwyd yn farw 21 o brotestwyr Palesteinaidd yn Jerwsalem gan heddlu Israel. ➢ 9 Rhagfyr – Daeth Slobodan Milosevic yn Arlywydd Serbia.

1991		➢ 22 Chwefror – Lladdwyd y Cymro, Corporal David Denbury, yn Rhyfel y Gwlff. ➢ 28 Chwefror – Cyhoeddwyd bod Cymro arall wedi cael ei ladd yn Rhyfel y Gwlff – Rhingyll Vincent Phillips. ➢ 14 Ebrill – Enillodd y golffiwr Ian Woosnan o Lanymynech 55fed Bencampwriaeth Meistri'r Unol Daleithiau yn Augusta, Florida. ➢ 26 Ebrill – Cyhoeddwyd gan y Llywodraeth na fyddai'n adeiladu gorsaf radar ar y cyd â'r Unol Daleithiau ar safle ger Tyddewi, sir Benfro. ➢ 5 Mehefin - Yn un o rowndiau rhagbrofol Pencampwriaeth Ewrop, daeth un o'r buddugoliaethau mwyaf cofiadwy i beldroedwyr Cymru. Enillodd tîm Cymru yn erbyn deiliaid Cwpan y Byd, yr Almaen, yn y Stadiwm Genedlaethol. ➢ 30 Awst – Gwelwyd pedair noson o derfysg yn ardal Elái, Caerdydd. Diweithdra uchel a pharhaol oedd y cefndir i'r cynnwrf.	➢ 17 Ionawr – Lansiodd America a'i chynghreiriaid, gan gynnwys Prydain, 'Operation Desert Storm'. Roedd hwn yn ddechreuad ar Ryfel y Gwlff. ➢ 7 Chwefror – Ymosododd yr IRA ar Rif 10, Stryd Downing.	➢ 16 Ionawr – Dechreuodd y rhyfel er mwyn rhyddhau Kuwait o feddiant lluoedd Iraq. ➢ 27 Chwefror – Rhyddhawyd Kuwait o ddwylo lluoedd Iraq a'r diwrnod canlynol cyhoeddodd yr Arlywydd Bush ddiwedd y rhyfel. ➢ 5 Ebrill – Condemniodd y Cenhedloedd Unedig yr ymosodiadau ar boblogaeth Gwrdaidd Iraq gan fyddin y wlad. ➢ 21 Awst – Methodd ymgais gan hen gomiwnyddion i gipio grym ym Moscow. ➢ 18 Tachwedd – Rhyddhawyd Terry Waite yn Libanus, bum mlynedd ar ôl iddo gael ei herwgipio. ➢ 25 Rhagfyr - Ymddiswyddodd yr Arlywydd Gorbachev ym Moscow gan arwain at ddiwedd swyddogol yr Undeb Sofietaidd.

				Cymerwyd lle'r hen Undeb Sofietaidd gan gymanwlad o wledydd annibynnol.
1992	Cyhoeddi *Duwiau'r Celtiaid* – Llyfrau Llafar Gwlad (Gwasg Carreg Gwalch) – ysgolheictod. Cyhoeddi *Chwedl Taliesin* (Gwasg Prifysgol Cymru) – ysgolheictod.	➢ 4 Ebrill - Enillodd y joci, Carl Llewellyn o Benfro, ras y Grand National ar y ceffyl 'Party Politics'. Enillwyd y ras o ddau hyd a hanner, er mai ail ddewis oedd Llewellyn. ➢ 9 Ebrill – Ymddiswyddodd y Cymro Neil Kinnock, arweinydd y Blaid Lafur, o'i swydd. ➢ 14 Ebrill – Cyhoeddwyd y rhifyn olaf o'r papur wythnosol *Baner ac Amserau Cymru* a sefydlwyd 133 o flynyddoedd ynghynt. ➢ 14 Gorffennaf – Cafodd dau frawd o Gastell-nedd eu rhyddhau gan y Llys Apêl yn Llundain wedi iddynt dreulio saith mlynedd yn y carchar am lofruddiaeth nad oeddynt wedi'i chyflawni. ➢ Medi – Bu Tanni Grey yn fuddugol yn y cystadlaethau isod yng Ngemau Paralympaidd Barcelona – 100 metr, 200 metr, 400 metr a 500 metr i fenywod mewn cadair olwyn. Er iddi ddod yn ail yn y ras 800 metr, diarddelwyd y wraig fuddugol wedi'r gystadleuaeth.	➢ 9 Ebrill – Enillwyd yr Etholiad Cyffredinol gan y Ceidwadwyr gan sicrhau tymor arall i John Major fel Prif Weinidog. ➢ 6 Mai – Agorwyd Twnnel y Sianel gan gysylltu Llundain â Pharis drwy reilffordd. ➢ 9 Rhagfyr – Cyhoeddodd y Tywysog Charles a'r Dywysoges Diana eu bod yn ymadael â'i gilydd.	➢ 3 Mawrth – Cyhoeddwyd annibyniaeth Bosnia. Pleidleisiodd mwyafrif y boblogaeth o blaid annibyniaeth mewn refferendwm ond dilynwyd hynny gan ryfel rhwng y boblogaeth Serbaidd, y Mwslimiaid a'r Croatiaid. ➢ 17 Mawrth – Pleidleisiodd mwyafrif poblogaeth De Affrica o blaid cynigion i newid y cyfansoddiad mewn refferendwm. ➢ 25 Ebrill – Goresgynnwyd prifddinas Afghanistan, Kabul, gan luoedd Mwslimaidd y Mujahidin.

		➢ Lansiwyd y gwasanaeth radio cymunedol dwyieithog cyntaf ym Mhrydain, sef Radio Ceredigion.		➢ 3 Tachwedd – Etholwyd Bill Clinton yn Arlywydd yr Unol Daleithiau.
1993	Cyhoeddi *Anifeiliaid y Maes Hefyd*, lluniau gan Ted Breeze Jones (Gwasg Dwyfor) – barddoniaeth.	➢ 9 Mawrth – Yn Llys y Goron, Caernarfon, cafwyd Siôn Aubrey Roberts o Langefni, Ynys Môn, yn euog o feddu ar ffrwydron ac o anfon bomiau llythyr trwy'r post at Geidwadwyr amlwg yn ogystal ag at aelodau o'r heddlu. ➢ 15 Mawrth – Agorwyd fferm wynt Penrhyddlan a Llidiart-y-waun, y fwyaf y tu allan i'r Unol Daleithiau ar y pryd. ➢ 7 Ebrill – Bu'n rhaid i un o ganghennau'r Seiri Rhyddion yn ne Cymru gau am bum mlynedd wedi iddi gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg. ➢ 20 Awst – Enillodd Colin Jackson y ras 110 metr dros y clwydi ym Mhencampwriaethau'r Byd, a hynny mewn 12.91 eiliad. Felly, cipiodd y fedal aur a record y byd. ➢ 9 Medi – Arestiwyd wyth o unigolion wedi i lori a oedd yn cludo gwerth £3 miliwn o ddarnau arian 10 ceiniog o'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant, gael ei chipio ddeuddydd ynghynt.	➢ 22 Ebrill – Llofruddiwyd Steve Lawrence. ➢ 29 Ebrill – Agorwyd Palas Buckingham i'r cyhoedd am y tro cyntaf. ➢ 3 Medi – Sefydlwyd y Blaid UKIP. ➢ 15 Rhagfyr – Arwyddwyd Datganiad Stryd Downing a oedd yn hyrwyddo trafodaethau ynghylch dyfodol Gogledd Iwerddon.	➢ 1 Ionawr – Rhannwyd Tsiecoslofacia yn ddwy ran. Ffurfiwyd y Weriniaeth Tsiec a Slofacia fel gwledydd annibynnol. ➢ 13 Medi – Arwyddodd yr Israeliaid a'r Palesteiniaid gytundeb heddwch yn Washington. ➢ 30 Medi – Bu farw 30,000 o bobl o ganlyniad i ddaeargryn yn nhalaith Maharashtra, India. ➢ 4 Hydref – Daeth ymgais i ddisodli'r Arlywydd Yeltsin ym Moscow i ben wrth i luoedd Rwsia adfeddiannu senedd y wlad. ➢ 1 Tachwedd – Daeth cytundeb Maastricht i rym gan dynnu gwledydd yr Undeb Ewropeaidd yn nes at ei gilydd.

		➢ 21 Hydref – Pasiwyd ail Ddeddf yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghymru. ➢ 17 Tachwedd – Dangoswyd y ffilm *Dafydd* yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Aberystwyth. Dyma'r ffilm gyntaf yn Gymraeg lle roedd y prif gymeriad yn agored hoyw.		➢ 22 Rhagfyr – Daeth y system apartheid i ben yn Ne Affrica wrth i'r senedd bleidleisio o blaid mabwysiadu cyfansoddiad newydd dros dro.
1994		➢ 9 Chwefror – Cyhoeddwyd bod y ffilm *Hedd Wyn* wedi ei henwebu ar gyfer Oscar, y ffilm gyntaf erioed yn y Gymraeg i dderbyn yr anrhydedd. ➢ 6 Ebrill – Pleidleisiodd yr Eglwys yng Nghymru o drwch blewyn yn erbyn caniatáu i'r 62 merch a oedd yn ddiaconiaid yn yr Eglwys gymryd y cam naturiol nesaf a chael eu hurddo'n offeiriaid. ➢ 9 Mehefin – Yn 27 mlwydd oed, Eluned Morgan o Gaerdydd oedd yr aelod ieuengaf oll o Senedd Ewrop pan etholwyd hi dros Orllewin a Chanolbarth Cymru. Cynhaliwyd y seremoni gyflwyno ar 22 Mawrth. ➢ 24 Rhagfyr – Fel rhan o raglen breifateiddio pyllau glo Prydain, trosglwyddwyd pwll dwfn olaf de Cymru, Glofa'r Tŵr yn Hirwaun, i ofal ei weithwyr.	➢ 12 Mawrth – Ordeiniwyd yr offeiriad benywaidd gyntaf gan yr Eglwys yn Lloegr. ➢ Ebrill – Cynhaliwyd achos llys cyntaf Fred a Rosemary West. Cafwyd y ddau yn euog o lofruddio o leiaf 30 o bobl rhyngddynt. ➢ 1 Gorffennaf – Rhoddwyd Hong Kong yn ôl i ddwylo cyfreithiol Tsieina, ar ôl mwy na 150 o flynyddoedd o dan reolaeth Prydain. ➢ 21 Gorffennaf – Etholwyd Tony Blair yn arweinydd ar y Blaid Lafur. ➢ 26 Awst – Daeth y Ddeddf Masnachu ar y Sul i rym. ➢ 14 Tachwedd – Lansiwyd gwasanaethau rheilffyrdd yr Eurostar am y tro cyntaf.	➢ 22 Ebrill – Bu farw'r cyn-Arlywydd Richard Nixon. ➢ 6 Mai – Plaid yr ANC, o dan arweiniad Nelson Mandela, oedd yn fuddugol yn etholiad De Affrica. ➢ 27 Mai – Dychwelodd yr awdur Alexander Solzhenitsyn i Rwsia, 20 mlynedd wedi iddo gael ei alltudio. ➢ 31 Awst – Yng Ngogledd Iwerddon wedi 25 mlynedd o derfysgoedd, cyhoeddwyd cadoediad gan yr IRA. ➢ 11 Rhagfyr – Cafwyd ymosodiad gan luoedd Rwsia ar Chechenya, y weriniaeth a gyhoeddodd

				annibyniaeth ar Moscow yn 1991.
1995		➢ 26 Mehefin – Cyhoeddodd John Redwood ei fod yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn herio John Major fel arweinydd y Blaid Geidwadol a Phrif Weinidog y wlad. ➢ Medi – Dirwywyd cwmni Nuclear Electric mewn llys yn yr Wyddgrug am fod yn ddiofal ar ôl damwain yn Atomfa Wylfa, Ynys Môn, ar 31 Gorffennaf 1993. ➢ 16 Tachwedd – Bu farw'r hanesydd Gwyn Alf Williams. ➢ 22 Rhagfyr – Cyhoeddodd Comisiwn y Mileniwm na fyddai'n cefnogi cynllun Ymddiriedolaeth Tŷ Opera Caerdydd. ➢ 22 Rhagfyr – Penderfynodd Comisiwn y Mileniwm fuddsoddi yng nghynlluniau Undeb Rygbi Cymru i adeiladu stadiwm newydd erbyn cystadleuaeth Cwpan y Byd 1999.	➢ 5 Mai – Erbyn hyn nid oedd gan y Ceidwadwyr reolaeth ar un o gynghorau'r Alban na Chymru. ➢ 6 Mai – Cynhaliwyd dathliadau o gwmpas Prydain i ddynodi 50 mlynedd ers Diwrnod VE. ➢ O ganlyniad i gyfres o isetholiadau, cafwyd cwymp aruthrol yng nghyfanswm y seddau Ceidwadol gan fygwth y Llywodraeth fwyafrifol. ➢ 1% yn unig o boblogaeth Prydain (600,000) oedd â chysylltiad â'r we yn y flwyddyn hon.	➢ 1 Ionawr – Daeth Sweden, y Ffindir ac Awstria yn rhan o'r Gymuned Ewropeaidd. ➢ 17 Ionawr – Tarodd daeargryn Kobe yn Japan gan ddinistrio rhannau helaeth o'r ddinas. ➢ 19 Ebrill – Lladdwyd 168 o bobl yn yr Unol Daleithiau gan fom a osodwyd gan eithafwyr adain dde. Ffrwydrodd y bom mewn adeilad yn ninas Oklahoma. ➢ 5 Medi – Condemniwyd Ffrainc wedi iddynt gynnal profion ar fom niwclear yn Ynys Mururoa yn ne'r Cefnfor Tawel. ➢ 4 Tachwedd – Llofruddiwyd Yitzhak Rabin, Prif Weinidog Israel, gan Iddew a oedd yn gwrthwynebu'r cytundeb a wnaed gyda'r Palesteiniaid.

				➢ 20 Rhagfyr – Daeth lluoedd NATO yn gyfrifol am gadw'r heddwch yn Bosnia.
1996	Cyhoeddi *Y Dymestl* –cyfieithiad o ddrama William Shakespeare (Gwasg Gee).	➢ 15 Chwefror – Bu trychineb ar arfordir Penfro pan hwyliodd llong 147,000 tunnell o'r enw *Sea Empress* i borthladd Aberdaugleddau. Cafodd y llong ei dal ar greigiau, ac o ganlyniad, gollyngwyd dros chwe mil o dunelli o olew i'r môr. Am rai dyddiau bu'r *Sea Empress* a'r drychineb yn destun trafod ar draws y byd. ➢ 1 Ebrill – Daeth trefniant newydd o awdurdodau lleol yng Nghymru. Diflannodd yr wyth sir a'r 37 dosbarth a chafwyd 22 awdurdod unedig yn eu lle. ➢ 31 Mai – Am y tro cyntaf yn ei hanes, bu'n rhaid i'r Frenhines Elizabeth ganslo ymrwymiad ym Mhrydain oherwydd protest gan rai a wrthwynebai ei hymweliad ag Aberystwyth. Roedd y protestwyr yn cynnwys trigolion lleol a myfyrwyr o Neuadd Pantycelyn. ➢ 5 Mehefin – Agorwyd pont newydd dros afon Hafren gan y Tywysog Charles.	➢ 13 Mawrth – Lladdfa Dunblane – Lladdwyd 16 o blant, athrawes a'r llofrudd ei hun, Thomas Hamilton, mewn ysgol gynradd yn Dunblane, Stirling, Yr Alban. Y digwyddiad oedd y gyflafan waethaf yn hanes Prydain yn yr oes fodern. ➢ 2 Mai – Collwyd 578 o seddau gan y Blaid Geidwadol mewn etholiadau Llywodraethau lleol. ➢ 28 Awst – Daeth priodas y Tywysog Charles a Diana, Tywysoges Cymru, i ben yn swyddogol. ➢ 12 Hydref – Edwinodd mwyafrif y Llywodraeth Geidwadol i un sedd yn unig. ➢ 16 Hydref – Cyhoeddodd Llywodraeth Prydain gynlluniau i wneud i ddrylliau llaw fod yn anghyfreithlon wedi cyflafan Dunblane.	➢ 29 Ebrill – Saethwyd 34 o bobl yn farw gan ŵr arfog yn Hobart, Tasmania. ➢ 31 Mai – Etholwyd Benjamin Netanyahu yn Brif Weinidog Israel. ➢ 4 Awst – Agorwyd y Gemau Olympaidd yn Atlanta gan y cyn-bencampwr bocsio Muhammad Ali. ➢ 28 Hydref – Goresgynnwyd Afghanistan gan y gwrthryfelwyr Islamaidd, y Taliban. ➢ 5 Tachwedd – Ailetholwyd Bill Clinton yn Arlywydd yr Unol Daleithiau.

		➢ Awst – Arweiniodd newidiadau yn y gwasanaeth a gynigiai BBC Radio Cymru at anghydfod ymhlith darlledwyr a'r beirdd a gymerai ran yn y rhaglen boblogaidd *Talwrn y Beirdd*.		
1997		➢ 1 Mai – Am y tro cyntaf ers 91 o flynyddoedd, nid oedd un Aelod Seneddol Ceidwadol yng Nghymru wedi'r Etholiad Cyffredinol. ➢ 18 Medi – Pleidleisiodd Cymru o blaid datganoli a chael Cynulliad Cenedlaethol. ➢ 2 Rhagfyr – Roedd ffermwyr da byw wedi cael digon ar weld prisiau eu gwartheg yn gostwng tra oedd cig rhad yn Iwerddon a gwledydd eraill Ewrop yn cael ei fewnforio. Penderfynodd rhai gynnal gwarchae ym mhorthladd Caergybi ac Abergwaun. ➢ 13 Rhagfyr – Anafwyd cefn capten tîm rygbi Cymru, Gwyn Jones, yn ddifrifol mewn gêm gynghrair.	➢ 30 Mawrth – Lansiwyd 'Channel 5', pumed sianel deledu ddaearol Prydain, y gyntaf ers Tachwedd 1982. ➢ 1 Mai – Enillwyd yr etholiad cyffredinol gan y Blaid Lafur, a daeth Tony Blair yn Brif Weinidog. ➢ 1 Gorffennaf – Daeth Hong Kong o dan reolaeth swyddogol Tsieina gan ddod â rheolaeth Prydain i ben. ➢ 31 Awst – Bu farw Diana, Tywysoges Cymru, mewn damwain car ym Mharis. ➢ 11 Medi – Pleidleisiodd yr Alban o blaid datganoli. ➢ 18 Medi – Pleidleisiodd Cymru o blaid datganoli.	➢ 19 Chwefror – Bu farw arweinydd Tsieina, Deng Xiaoping. ➢ 4 Gorffennaf - Glaniodd y llong ofod *Pathfinder* ar blaned Mawrth gan anfon y lluniau manwl cyntaf o'r blaned yn ôl i'r ddaear. ➢ 15 Gorffennaf – Llofruddiwyd y cynllunydd ffasiwn Gianni Versace yn Miami, Unol Daleithiau America.
1998	Cyhoeddi *Darllen y Meini* (Gwasg Gee) – barddoniaeth.	➢ 28 Chwefror – Enillodd Iwan Thomas y fedal aur ym Mhencampwriaeth Ewrop drwy redeg y ras 400 metr. ➢ 16 Ebrill – Roedd y Cymro Dafydd Rhys Williams yn aelod o griw'r wennol ofod *Columbia*, a daniwyd i'r	➢ 10 Ebrill – Arwyddwyd Cytundeb Gwener y Groglith, cytundeb rhwng y DU a Llywodraethau Iwerddon i sefydlu Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon.	➢ 24 Ebrill – Dienyddiwyd 22 o bobl yn gyhoeddus yn Rwanda, Affrica. Cafwyd nhw yn euog o lofruddiaethau yn ystod y gyflafan yn y wlad yn 1994.

		entrychion o Cape Canaveral, Fflorida. Anfonodd neges Gymraeg o'r gofod mewn cyfweliad a ddarlledwyd ar y rhaglen *Wales Today*. ➢ 15–16 Mehefin – Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Ewropeaidd yng Nghaerdydd, a chroesawyd 15 pennaeth gwlad a 1,500 o swyddogion i'r brifddinas. ➢ 12 Medi – Enillodd Iwan Thomas y fedal aur ym Mhencampwriaeth y Byd, De Affrica, drwy redeg y ras 400 metr. ➢ 18 Medi – Enillodd Iwan Thomas y fedal aur o drwch blewyn yng Ngemau'r Gymanwlad drwy redeg y ras 400 metr. ➢ 27 Hydref – Syfrdanwyd y wlad pan gyhoeddodd Ron Davies ei fod yn ymddiswyddo o'i swydd fel Ysgrifennydd Gwladol. ➢ 2 Tachwedd – Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei bod wedi codi dros £4 miliwn i brynu rhannau helaeth o'r Wyddfa, y mynydd uchaf a'r enwocaf yng Nghymru.	➢ 9 Mai – Cynhaliwyd Cystadleuaeth Cân Eurovision yn Birmingham yn yr Arena Dan Do Genedlaethol. ➢ 23 Mai – Cynhaliwyd refferendwm ar Gytundeb Gwener y Groglith yng Ngweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon gyda 95% a 71% yn cefnogi'r trefniant. ➢ 9 Tachwedd – Cafodd y Ddeddf Hawliau Dynol Gydsyniad Brenhinol.	➢ 14 Mai – Bu farw'r canwr poblogaidd Frank Sinatra. ➢ 19 Rhagfyr – Pleidleisiodd Tŷ'r Cynrychiolwyr yn yr Unol Daleithiau o blaid uchelgyhuddo'r Arlywydd Bill Clinton oherwydd yr hyn a ddaeth i'r amlwg am ei berthynas â Monica Lewinsky.
1999		➢ Ionawr – Pontypridd oedd y gymuned ddiweddaraf i gael ei tharo gan firws peryglus llid yr	➢ 1 Ionawr – Penderfynodd Prydain beidio ag ymuno â'r Arian Sengl Ewropeaidd.	➢ 12 Chwefror – Methodd yr ymgais i

		ymennydd, bu farw un bachgen 15 oed a dau oedolyn. Erbyn canol mis Chwefror, roedd cyfanswm o 13 o blant ac oedolion wedi'u taro gan yr aflwydd. ➢ 20 Chwefror – Cyhoeddwyd mai Alun Michael fyddai olynydd Ron Davies fel arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru. ➢ 22 Ebrill – Urddwyd arlunydd mwyaf poblogaidd Cymru, Kyffin Williams, yn farchog mewn seremoni yng Nghastell Caerdydd. ➢ 26 Mai – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Llywodraeth y Cynulliad yng Nghaerdydd. ➢ 26 Mehefin – Chwaraewyd y gêm gyntaf yn Stadiwm y Mileniwm, y maes chwaraeon newydd yng Nghymru.	➢ 26 Mawrth – Talwyd cyfanswm o ddau biliwn o bunnoedd mewn iawndal i 100,000 o gyn-lowyr a fu'n dioddef o glefyd yr ysgyfaint wedi blynyddoedd o weithio ym meysydd glo Prydain. ➢ 1 Ebrill – Cyflwynwyd yr isafswm cyflog ar draws y Deyrnas Unedig. ➢ 31 Rhagfyr – Cynhaliwyd dathliadau i ddynodi'r Mileniwm ar draws y wlad, gan gynnwys agoriad swyddogol Cromen y Mileniwm yn ogystal â dadorchuddio'r 'London Eye' yn Llundain.	uchelgyhuddo'r Arlywydd Clinton. ➢ 24 Mawrth – Er mwyn ceisio atal ymgais y Serbiaid i alltudio rhai o dras Albania o dalaith Kosovo, dechreuodd awyrennau NATO fomio Iwgoslafia. ➢ 3 Mehefin – Cytunodd yr Arlywydd Milosevic, arweinydd Iwgoslafia, i delerau cynllun heddwch yn Kosovo. Daeth bomio NATO i ben. ➢ 2 Awst – Lladdwyd dros 300 o bobl mewn damwain trên yn India. ➢ 11 Awst – Gwelwyd eclips haul cyflawn mewn rhai rhannau o'r byd. ➢ 17 Awst – Tarodd daeargryn ogledd-orllewin Twrci gan ladd miloedd o bobl.
2000	Cyhoeddi *Gweddnewidio: Detholiad o Gerddi 1962-1986* (Gwasg Gee) – barddoniaeth.	➢ Mai – Myrddin ap Dafydd yn cael ei benodi'n fardd plant Cymru. ➢ 24 Mai – Agor Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru yn Llanarthne.	➢ 1 Ionawr – Agor 'Cromen y Mileniwm' yn Llundain. ➢ 12 Mai – Agor amgueddfa Tate Modern yn Llundain.	➢ 1 Ionawr – Gisbourne, Seland Newydd oedd y ddinas gyntaf i

	Cyhoeddi *Gair am Air – Ystyriaethau am Faterion Llenyddol* (Gwasg Prifysgol Cymru) – ysgolheictod.	➢ 28 Mai – Donald Watts Davies o Dreorci yn marw – arloeswr ym myd cyfrifiaduron. ➢ Awst – Cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli. ➢ 25 Medi – Y bardd offeiriad R.S. Thomas yn marw.	➢ 14 Gorffennaf – Y sioe realaeth deledu *Big Brother* yn dechrau. ➢ Y flwyddyn 2000 oedd y flwyddyn wlypaf yn y Deyrnas Unedig ers dechrau cadw cofnodion tywydd.	groesawu'r mileniwm newydd. ➢ 15 Medi – 1 Hydref – Gemau Olympaidd Sydney yn Awstralia. ➢ 4 Mawrth – Rhyddhau Playstation 2 yn Japan. ➢ 21 Mawrth – Y Pab John Paul II yn mynd ar daith swyddogol i Israel.
2001		➢ 1 Mawrth – Peter Clarke yn dod yn Gomisiynydd Plant Cymru. ➢ 22 Chwefror – Cledwyn Hughes, y gwleidydd o Fôn, yn marw. ➢ 26 Ebrill – Y bardd a'r llenor Dafydd Rowlands yn marw. ➢ 1 Mehefin – Agoriad swyddogol argae Bae Caerdydd. ➢ Mehefin – Mei Mac yn dod yn Fardd Plant Cymru.	➢ 19 Chwefror – Argyfwng Clwy Traed a'r Genau yn dechrau. ➢ 17 Mawrth – Agor Prosiect Eden yng Nghernyw. ➢ 29 Ebrill – Cyfrifiad yn y Deyrnas Unedig. ➢ 7 Mehefin – Etholiad cyffredinol. Y Blaid Lafur yn ennill a Tony Blair yn parhau fel Prif Weinidog.	➢ 13 Ionawr – Daeargryn yn taro El Salvador gan ladd 800 o bobl. ➢ 15 Ionawr – Dechrau Wikipedia ar y we. ➢ 23 Ionawr – Digwyddiad Sgwâr Tiananmen, yn Beijing – hyd at saith o bobl yn llosgi eu hunain mewn protest. ➢ 16 Chwefror – Yr Unol Daleithiau a Phrydain yn bomio Iraq. ➢ 11 Medi – Ymosodiad ar Ganolfan Masnach y Byd, Efrog Newydd – bu farw bron i 3000 o bobl. ➢ 31 Awst – Cynhadledd y Byd yn erbyn hiliaeth yn cael ei chynnal yn Durban, De Affrica

2002	Cyhoeddi *Sawl Math o Gath* (Gwasg Carreg Gwalch) – ysgrifau. Cyhoeddi *Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan* – cyfieithiad o ddrama William Shakespeare (CBAC).	➢ Mehefin – Menna Elfyn yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ 23 Gorffennaf – Archesgob Cymru, Rowan Williams yn cael ei ethol yn Archesgob Caergaint. ➢ Awst – Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi. Myrddin ap Dafydd yn ennill ei ail gadair.	➢ 14 Ionawr – Diwedd yr argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau ym Mhrydain. ➢ 27 Chwefror – Marw Spike Milligan y comedïwr. ➢ 25 Gorffennaf – Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal ym Manceinion.	➢ 10 Medi – Y Swistir yn dod yn aelod o'r Cenhedloedd Unedig. ➢ 8–24 Chwefror – Gemau Olympaidd y Gaeaf - Salt Lake City, Utah, Unol Daleithiau America.
2003	Cyhoeddi *Yli* – lluniau gan Ted Breeze Jones (Gwasg Dwyfor) – barddoniaeth. Cyhoeddi *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr sydd yn ei gerddi* (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru) – ysgolheictod. Cyhoeddi *Stori Dafydd ap Gwilym* (Y Lolfa) – ar gyfer plant.	➢ 3 Mai – Etholiadau'r Cynulliad. Llafur yn ennill. ➢ Mehefin – Ceri Wyn Jones yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ Awst 2003 – Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau. Tywydd poeth iawn.	➢ 15 Chwefror – Protestiadau yn Llundain yn erbyn rhyfel Iraq. Dros ddwy filiwn o bobl - ac felly'r brotest fwyaf yn hanes Prydain. ➢ Mawrth ac Ebrill – rhyfel Iraq. ➢ 1 Awst – Dechrau Ymchwiliad Hutton i farwolaeth Dr David Kelly a'r arfau dinistriol honedig yn Iraq.	➢ 24 Hydref – Taith fasnachol olaf *Concorde* fel awyren gyflym ar ôl 27 mlynedd.
2004		➢ 22 Ionawr – Bu farw'r awdur Islwyn Ffowc Elis. ➢ 21 Chwefror – Bu farw'r pêl-droediwr John Charles. ➢ Mehefin – Tudur Dylan Jones yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ 26 Tachwedd – Agor Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.	➢ 13 Gorffennaf – Deddf yn dod i rym i roi hawl i bobl i gerdded yng nghefn gwlad. ➢ 16 Awst – Glaw trwm a llifogydd ym mhentref Boscastle yng Nghernyw.	➢ 13–29 Awst – Gemau Olympaidd yn Athen. ➢ 26 Rhagfyr – Tsunami anferth ar arfordir gorllewinol Sumatra, Indonesia. Tua 250,000 o bobl wedi eu lladd.

2005	Cyhoeddi *Apocalups Yfory* (Cyhoeddiadau Barddas) - barddoniaeth Cyhoeddi *Madog* (Y Lolfa) – ar gyfer plant.	➢ 22 Ionawr – Cyngerdd mawr yng Nghaerdydd i godi arian i gynorthwyo dioddefwyr y Tsunami. ➢ 21 Ebrill – Gwynfor Evans, cyn-Lywydd Plaid Cymru yn marw yn 92 oed. ➢ Mehefin – Mererid Hopwood yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ 17 Hydref – Agor Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.	➢ 1 Ionawr – Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn dod i rym. ➢ 18 Chwefror – Deddf i wahardd hela gyda chŵn. ➢ 21 Ebrill – Deddf i roi cydnabyddiaeth swyddogol i Aeleg yr Alban. ➢ 5 Mai – Etholiad Cyffredinol. Y Blaid Llafur yn ennill a Tony Blair yn aros fel Prif Weinidog. ➢ 24 Tachwedd – Hawl gan dafarndai yn Lloegr a Chymru i aros ar agor am 24 awr.	➢ 20 Ionawr – George Bush yn dechrau ar ei ail dymor fel Arlywydd yr Unol Daleithiau. ➢ 2 Ebrill – Y Pab Ioan Pawl II yn marw. ➢ 19 Ebrill – Benedict XVI yn cael ei ethol yn Bab. ➢ 8 Hydref – Daeargryn yn Kashmir a 80,000 o bobl yn marw.
2006	Penodwyd yr Athro Gwyn Thomas yn Fardd Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddi *Bywyd Bach* - Cyfres y Cewri 30 (Gwasg Gwynedd) – hunangofiant. Cyhoeddi *Y Brenin Arthur* (Y Lolfa) – ar gyfer plant,	➢ 1 Mawrth – Agoriad swyddogol adeilad y Senedd yng Nghaerdydd. ➢ Mai - Yr anthem 'Mae hen wlad fy nhadau' yn 150 oed. ➢ Mehefin – Gwyneth Glyn yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ Awst – Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe ac Eigra Lewis Roberts yn ennill y goron. ➢ Penodi Gwyn Thomas yn Fardd Cymru yn dilyn Gwyneth Lewis.	➢ 20 Ionawr – Morfil wedi ei ddarganfod yn nofio yn afon Tafwys yn Llundain. ➢ 5 Ebrill – Achos o ffliw adar yn Cellardyke, Fife, yr Alban – yr achos cyntaf ym Mhrydain ➢ Mehefin – Y Frenhines Elizabeth yn 80 oed.	➢ 1 Ionawr – Rwsia yn atal gwerthu nwy i Wcráin. ➢ 27 Ionawr – Dathlu 250 o flynyddoedd ers geni Wolfgang Amadeus Mozart, y cerddor a'r cyfansoddwr. ➢ 10–26 Chwefror – Gemau Olympaidd y gaeaf yn Torino, yr Eidal. ➢ 9 Gorffennaf – Yr Eidal yn ennill Cwpan Pêl-droed y Byd ➢ 15 Gorffennaf – Twitter (Trydar) yn cael ei lansio.

				➢ 9 Hydref – Gogledd Korea yn honni iddyn nhw gynnal arbrawf niwclear. ➢ 30 Tachwedd – Teiffŵn Durian yn taro ynysoedd y Philippines.
2007	Cyhoeddi *Teyrnas y Tywyllwch* (Cyhoeddiadau Barddas) – barddoniaeth. Cyhoeddi *Blaenau Ffestiniog* – lluniau gan Jeremy Moore (Gwasg Gomer) – barddoniaeth.	➢ 2 Ionawr – Arolwg yn cyhoeddi bod 8 allan o'r deg lle lleiaf iach i fyw yng Nghymru. ➢ 9 Chwefror – Eira mawr ar draws y wlad i gyd. ➢ 1 Ebrill – Dileu tâl am bresgripsiwn yng Nghymru. ➢ 2 Ebrill – Gwahardd ysmygu mewn mannau cyfyng cyhoeddus. ➢ Mehefin – Caryl Parry Jones yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr Wyddgrug.	➢ 3 Mai – Madeleine McCann, merch fach bron yn 4 oed yn diflannu o le gwyliau yn Portiwgal. ➢ 21 Gorffennaf –Yr olaf o lyfrau J.K. Rowling yn dilyn hanes Harry Potter, yn cael ei gyhoeddi ac yn gwerthu dros 11 miliwn copi mewn 24 awr.	➢ 1 Ionawr – Bwlgaria a Romania yn dod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. ➢ 1 Mawrth – Lansio Blwyddyn Ryngwladol y Pegynau, sef astudiaeth o begwn y de a phegwn y gogledd. ➢ 28 Mehefin – Tywydd anghyffredin o boeth yn Ewrop ac un ar ddeg o bobl yn marw yng ngwlad Groeg o effeithiau'r gwres. ➢ 6 Medi – Y tenor byd-enwog Luciano Pavarotti yn marw.
2008	Cyfnod Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol Cymru yn dod i ben. Cyhoeddi *Bronco* (Cyhoeddiadau Barddas) – storïau byrion.	➢ 18 Chwefror – Methiant fu ceisio cyhoeddi papur dyddiol Cymraeg. ➢ 16 Ebrill – Agor canolfan enfawr Amazon ar gyrion Abertawe ond sydd yn sir Castell-nedd Port Talbot.	➢ 18 Chwefror – Llywodraeth Prydain yn gorfod cenedlaetholi'r banc Northern Rock.	➢ 21 Ionawr – Gwerth arian yn y marchnadoedd stoc yn cwympo, yn dilyn argyfwng morgeisi 'subprime'.

		➢ Mehefin – Ifor ap Glyn yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Dic Jones yn Archdderwydd. ➢ 20 Tachwedd – Alun Ffred Jones fel gweinidog Llywodraeth Cymru, yn defnyddio'r Gymraeg am y tro cyntaf mewn cyfarfod o Lywodraeth Ewrop ym Mrwsel.		➢ 3 Chwefror – Arwyddion pendant o'r marchnadoedd stoc o argyfwng economaidd ar draws y gwledydd gorllewinol, gan gynnwys yr Unol Daleithiau ac Ewrop. ➢ 14 Mehefin – Daeargryn mawr yn Japan. ➢ 8–24 Awst – Gemau Olympaidd yr haf yn Beijing, Tsieina. ➢ 4 Tachwedd – Ethol Barack Obama yn Arlywydd yr Unol Daleithiau.
2009	Cyhoeddi *Drychiolaethau* (Gwasg y Bwthyn) – rhyddiaith. Cyhoeddi *Llywelyn ein Llyw Olaf* (Y Lolfa) – ar gyfer plant.	➢ 5 Ionawr – Tywydd oer iawn dros y wlad i gyd. ➢ 10 Ionawr – Eluned Phillips, bardd ac awdur, yn marw yn 93 oed. ➢ Mehefin – Twm Morris yn dod yn Fardd Plant Cymru. ➢ 21 Gorffennaf – Y rasys cyntaf yn cael eu cynnal ar gae rasio ceffylau newydd Cymru yn Ffos-las, sir Gaerfyrddin. ➢ 22 Gorffennaf – Tîm pêl-droed Caerdydd yn symud o Barc Ninian i'w stadiwm newydd.	➢ 6 Ionawr – Holl siopau Woolworths yn cau ar ôl i'r cwmni fynd i'r wal ym mis Tachwedd 2008. Caewyd 813 o siopau a chollwyd 27,000 o swyddi. ➢ 19 Ionawr – Problemau gyda nifer o'r banciau, gan gynnwys Lloyds TSB, Royal Banc of Scotland a'r Halifax. ➢ 2 Chwefror – Eira trwm dros ran helaeth o'r wlad. ➢ 2 Ebrill – Protestiadau yn Llundain adeg Uwchgynhadledd G-20.	➢ 26 Ionawr – System wleidyddol ac ariannol Gwlad yr Iâ yn methu. ➢ 7 Chwefror – Yn Awstralia, tanau mawr yn digwydd yn y coedwigoedd o gwmpas Melbourne. ➢ 2 Ebrill – Ail uwchgynhadledd G-20 yn Llundain yn canolbwyntio ar y sefyllfa economaidd a oedd yn gwaethygu.

		➢ 1 Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. ➢ 12 Awst – Dechrau symud o system ddarlledu analog i system ddigidol yng Nghymru ➢ 18 Awst – Y bardd a'r Archdderwydd Dic Jones yn marw. ➢ 9 Rhagfyr – Carwyn Jones yn dod yn Brif Weinidog Llywodraeth Cymru.	➢ 29 Ebrill – Achosion o ffliw moch yn Lloegr. ➢ 15 Gorffennaf – Harry Patch yn marw yn 111 oed. Ef oedd yr olaf o'r milwyr a fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. ➢ Erbyn diwedd y flwyddyn roedd tua 80% o boblogaeth Prydain yn gallu mynd ar y we.	➢ 11 Mehefin – Gofid am y ffliw moch H1N1 yn dod yn broblem fyd-eang. ➢ 25 Mehefin – Michael Jackson, y canwr a'r perfformiwr, yn marw. ➢ 20 Tachwedd – Yn Cern ailddechreuodd y Peiriant Gwrthdaro Hadronau Mawr.
2010	Cyhoeddi *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (Cyhoeddiadau Barddas) – barddoniaeth	➢ 4 Ionawr – bu farw'r ysgolhaig Hywel Teifi Edwards; ➢ 6 Ionawr – eira trwm ar draws Cymru. Daeth rhagor o eira wythnos yn ddiweddarach. ➢ 10 Ionawr– S4C 2 yn dod i ben. ➢ 17 Mawrth – ffigurau yn dangos bod diweithdra yng Nghymru yr uchaf o wledydd Prydain a'r trydydd uchaf o ran rhanbarth ym Mhrydain i gyd. ➢ 31 Mawrth – Wenfo – y mast olaf analog, yn cael ei ddiffodd, gan gwblhau troi signal teledu yng Nghymru yn wasanaeth digidol. ➢ 6 Mai – canlyniad yr Etholiad Cyffredinol yng Nghymru – nifer yr Aelodau Seneddol oedd Llafur 26, Ceidwadwyr 8, Plaid Cymru 3, Rhyddfrydwyr Democrataidd 3.	➢ 3 Ionawr - Pob maes awyr rhyngwladol ym Mhrydain i gael sganiwr corff llawn oherwydd y perygl o derfysgaeth. ➢ 5 Ionawr – Daeth cwymp mawr o eira dros Brydain i gyd. ➢ Chwefror – gwerthwyd cwmni melysion a siocled Cadbury i gwmni o'r Unol Daleithiau – Kraft. ➢ 3 Mawrth – Bu farw Michael Foot, gwleidydd Llafur. ➢ Mawrth - Pleidiau gwleidyddol gogledd Iwerddon - Sinn Fein a Phlaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (Democratic Unionist Party) - yn cytuno i gydweithio ar ddatganoli yn y dalaith. ➢ 6 Ebrill – Y Prif Weinidog Gordon Brown yn mynd at y Frenhines i	➢ 4 Ionawr - Yn Dubai, agor yn swyddogol adeilad talaf y byd a adeiladwyd gan bobl - sef Burj Khalifa. ➢ 12 Ionawr - Daeargryn yn achosi trychineb yn Haiti - gan ladd tua 316,000 o bobl. Y ddegfed drychineb o ran nifer a laddwyd erioed. ➢ 12–28 Chwefror – Cynhaliwyd gemau Olympaidd y gaeaf yn Vancouver a Whistler yn Canada. ➢ 14 Ebrill - Llwch o losgfynydd Eyjafjalla yng Ngwlad yr Iâ yn arwain at wahardd

		➢ 13 Mai – Only Men Aloud yn ennill albwm y flwyddyn yn y Gwobrau Classic BRIT. ➢ 28 Mai – Bu farw'r bardd Iwan Llwyd. ➢ Mehefin – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghiliau Aeron, Ceredigion. Awst – Steddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy, enillydd y gadair – Tudur Hallam, y goron – Glenys Mair Glyn Roberts. 23 Awst – Dod o hyd i weddillion Gareth Williams o Ynys Môn, a oedd yn gweithio i MI6, mewn bag yn ei fflat yn Llundain. 30 Awst – Bu farw'r darlledwr Owen Edwards. 1 Hydref - Cwpan Ryder (golff) yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd am y tro cyntaf. 19 Tachwedd - Agor amgueddfa yn rhan o bencadlys WPCS - Cymdeithas Cobiau a Merlod Cymreig, yn Felin-fach, Ceredigion	ofyn am hawl i alw etholiad cyffredinol o fewn y mis. ➢ Ebrill – Darlledu dadl deledu rhwng arweinyddion y pleidiau gwleidyddol cyn yr etholiad cyffredinol. ➢ 6 Mai - Etholiad Cyffredinol. Llafur yn colli. Y Ceidwadwyr yn sefydlu clymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol. David Cameron yn Brif Weinidog a Nick Clegg yn ddirprwy iddo. ➢ 2 Mehefin - lladdwyd 12 o bobl ac anafwyd 25 pan aeth gyrrwr tacsi o'r enw Derrick Bird yn wallgof a saethu pobl yn ardaloedd Whithaven, Egremont a Seascale yn Cumbria. Saethodd ei hun wedyn. ➢ 15 Mehefin - Cyhoeddwyd Adroddiad Saville ar 'Bloody Sunday' 1972 - lle gwnaeth byddin Prydain ymddwyn yn anghyfreithlon mewn digwyddiad yng Ngogledd Iwerddon pan laddwyd 27 o bobl. Ymddiheurodd David Cameron y Prif Weinidog am hyn. ➢ 24 Gorffennaf - Bu farw'r chwaraewr snwcer o Ogledd Iwerddon, Alex Higgins.	hedfan a chau meysydd awyr dros dro. ➢ 27 Ebrill – Problemau ariannol dybryd yn effeithio ar wlad Groeg gan siglo marchnadoedd stoc y byd. ➢ 11 Mehefin i 11 Gorffennaf – Cwpan Pêl-Droed y Byd yn cael ei gynnal yn Ne Affrica – a Sbaen yn ennill. ➢ 25 Gorffennaf - Wikileaks - sef rhyddhau dros 90,000 o adroddiadau cyfrinachol yr Unol Daleithiau a oedd yn ymwneud â'r rhyfel yn Afghanistan 2004-2010. ➢ 10 Awst – Sefydliad Iechyd y Byd yn cyhoeddi bod perygl ffliw H1Ni ar draws y byd, ar ben bellach. ➢ 4 Medi – Daeargryn yn taro ac yn dinistrio dinas Christchurch yn Seland Newydd gan ladd 187 o bobl.

			➢ 28 Gorffennaf – Gweinidog y Swyddfa Gartref, Thersa May yn cyhoeddi cynlluniau i gael gwared ar Gyfreithiau Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol yn Lloegr a Chymru. ➢ 3 Medi – Bu farw Annie Turnbull, y wraig hynaf ym Mhrydain a hithau wedi dathlu ei phen-blwydd yn 111 oed. ➢ 14 Medi – Y canwr George Michael 47 oed yn cael dirwy am ddamwain car ac yntau'n gyrru o dan ddylanwad canabis. ➢ 1 Hydref - Deddf Cydraddoldeb yn dod i rym yn cydlynu deddfau fel na ellir gwahaniaethu o ran gwaith a gwasanaethau ar sail rhyw, tras, iechyd, anabledd, rhywioldeb, cred nac oed. ➢ 4 Hydref – Bu farw'r actor a'r comedïwr Norman Wisdom. ➢ 20 Hydref – Canghellor y Trysorlys, George Osborne, yn cyhoeddi'r toriadau mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers yr Ail Ryfel Byd. ➢ 5 Tachwedd – Nigel Farage yn cael ei ailethol yn arweinydd plaid UKIP.	➢ 29 Medi – Bu farw'r actor Tony Curtis o UDA. ➢ 22 Hydref – Mae rhywun wedi bod yn yr Orsaf Ofod Ryngwladol yn ddi-dor ers 2 Tachwedd 2000, sef 3641 o ddiwrnodau. ➢ 17 Tachwedd - Yn Cern yn y Swistir, mae gwyddonwyr yn llwyddo i ddal atomau gwrthhydrogen am chweched ran o eiliad. Dyma'r tro cyntaf i wyddonwyr ddal gwrthfater. ➢ 21 Tachwedd – Ewrop yn cytuno ar becyn i achub Gweriniaeth Iwerddon rhag mynd yn fethdalwyr fel gwlad. ➢ 28 Tachwedd – Mwy o ddogfennau cyfrinachol yn cael eu rhyddhau drwy Wikileaks.

			➢ 1 Rhagfyr – Rhai o feysydd awyr mwyaf Prydain yn cau oherwydd eira mawr. ➢ 9 Rhagfyr – Myfyrwyr yn protestio yn Llundain yn erbyn y toriadau i wariant cyhoeddus.	
2011	➢ Cyhoeddi *Ani-feil-aidd*, lluniau gan Jac Jones (Gwasg Gomer) – barddoniaeth i blant.	➢ 2 Chwefror - Dadorchuddio cerflun o ben Ray Gravell ym mhencadlys y BBC yn Llandaf, Caerdydd. ➢ 3 Mawrth – Refferendwm o blaid i'r Cynulliad gael pwerau deddfu rhannol. ➢ 22 Ebrill – Yr awdur, bardd a'r pregethwr – W.J.Gruffydd (Elerydd) yn marw. ➢ 5 Mai – Etholiadau'r Cynulliad. Llafur yn ennill 30 allan o'r 60 sedd. ➢ 21 Mai – Nathan Cleverly yn dod yn bencampwr WBO bocsio'r byd. ➢ Mehefin – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe a'r Fro. ➢ 9 Gorffennaf – Agor Amgueddfa Gelf Genedlaethol yn rhan o'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. ➢ Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Enillydd y Gadair – Rhys Iorwerth, y Goron – Geraint Lloyd Owen, y Fedal Ryddiaith – Manon Rhys.	➢ 4 Ionawr – Treth Ar Werth (TAW/*VAT*) yn codi o 17.5% i 20%. ➢ 10 Chwefror - Tŷ'r Cyffredin yn pleidleisio o 234 i 222 yn erbyn rhoi'r hawl i bleidlais i'r rheini sydd yn y carchar. ➢ 27 Mawrth - Cynhaliwyd y Cyfrifiad (bob 10 mlynedd). ➢ 1 Ebrill – Dau bapur newydd poblogaidd yn mynd i'r wal (yn fethdalwyr) – *The Daily Sport* a *Sunday Sport*. ➢ 3 Ebrill – Eliffant syrcas olaf Prydain yn ymddeol. ➢ 29 Ebrill – Y Tywysog William a Kate Middleton yn priodi. ➢ 12 Mai – Y Frenhines Elizabeth II yw'r person sydd wedi teyrnasu hiraf ar Wledydd Prydain. ➢ 14 Mai – Manchester United yn ennill pencampwriaeth bêl-droed am y pedwerydd tro ar bymtheg. ➢ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi bod poblogaeth Prydain	➢ 15 Chwefror – Rhyfel cartref cyntaf Libya yn dechrau. ➢ 11 Mawrth – Daeargryn a tsunami yn taro Japan gan ladd 15,840 o bobl. Hyn yn effeithio ar bedwar pwerdy niwclear. ➢ 15 Mawrth – Protestiadau a lladd yn rhoi cychwyn ar ryfel cartref yn Syria. ➢ 23 Mawrth – Bu farw'r actores Elizabeth Taylor. ➢ 2 Ebrill – India yn ennill Cwpan y Byd mewn criced. ➢ 29 Ebrill – Amcangyfrifir bod 2 biliwn o bobl wedi gwylio priodas y Tywysog William â Catherine Middleton. ➢ 2 Mai - Yr Arlywydd Obama o'r Unol

		➢ 1 Medi – Dai Green yn ennill y fedal aur am y 400m dros y clwydi ym Mhencampwriaeth Athletau'r Byd. ➢ 15 Medi - Tanchwa ym mhwll glo y Gleision, Cilybebyll, Castell Nedd. Lladdwyd pedwar o lowyr. ➢ 1 Hydref – Codi 5c am bob bag plastig mewn siopau yng Nghymru. ➢ 15 Hydref - Tîm Cymru yn colli i Ffrainc yn rownd gyn- derfynol Cwpan Rygbi'r Byd. Anfonwyd Sam Warburton oddi ar y cae am dacl beryglus - yn annheg. ➢ 26 Tachwedd – Bu farw rheolwr tîm pêl droed Cymru, Gary Speed, yn 42 mlwydd oed.	wedi cynyddu o 470,000 o bobl rhwng 2009 a 2010, y cynnydd mwyaf mewn hanner can mlynedd. ➢ 15 Gorffennaf - Rhyddhau'r olaf o ffilmiau Harry Potter sef *Harry Potter and the Deathly Hallows Part 2 <https://en.wikipedia.org/wiki/Harry_Potter_and_the_Deathly_Hallows_Part_2>*. ➢ 7 Awst am dridiau – Pobl yn protestio ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn rhannau o Lundain, Birmingham, Lerpwl, Nottingham, a Bryste. ➢ 11 Awst – Y Llywodraeth yn ailymgynnull oherwydd y terfysgoedd yn ninasoedd Lloegr. ➢ 23 Awst – Digon o alw ar ddeiseb dros e-bost i hawlio bod y Llywodraeth yn rhyddhau papurau a dogfennau yn ymwneud â thrychineb Hillsborough yn 1989, yn ymwneud â'r ffordd y cafodd pobl eu trin gan yr heddlu adeg gêm bêl-droed rhwng Lerpwl a Nottingham Forest. Cafodd 96 eu lladd a 766 o bobl eu hanafu. Achos y drychineb oedd gormod o bobl yn y cae pêl droed.	Daleithiau yn cyhoeddi bod Osama bin Laden, arweinydd y grŵp Al-Qaeda, wedi ei ladd. ➢ 23 Gorffennaf – Bu farw Amy Winehouse, cantores boblogaidd, yn 27 oed. ➢ 31 Gorffennaf – Llifogydd yng Ngwlad Thai yn effeithio ar 12.8 miliwn o bobl. ➢ 17 Medi – Dechrau ar brotestiadau yn erbyn diffyg cyfartaledd o ran arian i bobl y byd, sef 'Occupy Wall Street' . Hyn yn ymestyn i 82 o wahanol wledydd. ➢ 31 Hydref – Dyddiad symbolaidd y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei ddewis i gyhoeddi bod poblogaeth y byd wedi cyrraedd 7 biliwn. ➢ 17 Rhagfyr – Bu farw arweinydd Gogledd Korea – Kim Jong-il ➢ 29 Rhagfyr – Samoa a Tokelau yn symud yn swyddogol o ddwyrain y

			➢ 31 Awst – Defnydd o ffonau symudol wedi cyrraedd 50% o'r boblogaeth. ➢ 21 Hydref – Eglwys Gadeiriol St Paul's yn Llundain yn gorfod cau ei drysau wrth i brotestwyr yn erbyn cyfalafiaeth annheg greu gwersyll y tu allan. Roedd yn fater o beth oedd safbwynt arweinwyr yr Eglwys yn erbyn y tlodi byd-eang, a bu i sawl arweinydd crefyddol ymddiswyddo.	Llinell Amser Ryngwladol i'r gorllewin (gan golli 30ain o Ragfyr) er mwyn hwyluso masnachu gyda'u partneriaid.
2012	Cyhoeddi *Gair yn ei le* – (Y Lolfa) ffotograffau gan Geraint Thomas – ysgrifau.	➢ 19 Ionawr – Penodi Chris Coleman yn rheolwr tîm pêl- droed Cymru. ➢ 25 Chwefror – Cymru yn curo Lloegr mewn rygbi yn Twickenham i ennill y Goron Driphlyg am yr 20fed tro. ➢ 17 Mawrth – Cymru yn curo Ffrainc i ennill y Bencampwriaeth a'r Gamp Lawn mewn rygbi. ➢ 1 Mawrth – Cyhoeddi y byddai fferm yr Ysgwrn, cartref y bardd Hedd Wyn, yn cael ei diogelu i'r genedl. ➢ 16 Mawrth – Dr Rowan Williams, Cymro oedd yn Archesgob Caergaint, yn ymddeol. ➢ 4–9 Mai – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglyn Llifon, Eryri. Cafwyd tywydd ofnadwy o wlyb a llifogydd mewn rhannau o Gymru.	➢ 3 Ionawr - Yn dilyn defnyddio'r dulliau fforensig diweddara, carcharwyd Gary Dobson a David Norris am ladd Stephen Lawrence yn 1993, a hynny am resymau hiliol. Dedfrydwyd y ddau i garchar am oes. ➢ 6 Ionawr – O2 yn creu'r parth Wi-fi am ddim mwya yn Ewrop, yn Llundain. ➢ Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi ei bod am gynnal refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban yn 2014. ➢ 21 Ionawr – Caniatáu i glinigau preifat erthylu ac ati i hysbysebu ar deledu a radio am y tro cyntaf. ➢ 4 Chwefror – Eira mawr a rhew.	➢ 13 Ionawr – Y llong bleser *Costa Concordia* yn suddo oddi ar arfordir yr Eidal gan ladd 32 o bobl. ➢ 11 Chwefror – Bu farw'r gantores Whitney Houston – un o'r cantorion sydd wedi gwerthu'r mwyaf o ganeuon erioed. Cafodd ei darganfod wedi boddi yn y bath, ond roedd clefyd y galon a chocên wedi chwarae rhan hefyd. ➢ 19 Chwefror – Iran yn gwahardd allforio olew i

		➢ 25 Mai – Y ffagl Olympaidd yn dechrau ei thaith o gwmpas Cymru. ➢ 23 Mehefin – Penodi Christine James yn Archdderwydd Cymru. Y tro cyntaf i wraig ddal y swydd. ➢ 16 Gorffennaf – Y cyfrifiad yn dangos cynnydd o 5% ym mhoblogaeth Cymru ond nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng. ➢ Awst - Eisteddfod Genedlaethol yn Llandŵ, Bro Morgannwg. Enillydd y gadair oedd Dylan Iorwerth a Gwyneth Lewis enillodd y goron. ➢ 13 Awst – Bu farw Eileen Beasley, ymgyrchydd dros yr iaith Gymraeg. ➢ 1 Hydref – Y ferch 5 oed – April Jones o Fachynlleth yn mynd ar goll. ➢ 12 Tachwedd – Y ddeddf gyntaf i Gymru ei phasio ar dir Cymru ers 600 mlynedd. Deddf yn rhoi statws cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru.	➢ 27 Chwefror – Charlotte Church a'i rhieni yn ennill achos yn erbyn papurau Rubert Murdoch oherwydd i'r papurau gyhoeddi straeon personol yn seiliedig ar gasglu gwybodaeth drwy hacio ffonau symudol. ➢ 15 Mawrth – Diweithdra ar ei uchaf er 17 o flynyddoedd. ➢ Mawrth – Sgandal y 'cash for access' – sef y Blaid Geidwadol yn gwerthu'r hawl i gyfarfod gyda'r Prif Weinidog am nawdd i'r blaid. Hyn yn dechrau rhes o straeon tebyg. ➢ 7 Ebrill - Y ras rwyfo rhwng Caergrawnt a Rhydychen yn gorfod cael ei gohirio hanner ffordd drwy'r ras oherwydd bod nofiwr yn afon Tafwys. Aeth Caergrawnt ymlaen i ennill hon, y 158fed ras rhwng y ddwy brifysgol. ➢ 5 Mai – Chelsea yn ennill y cwpan FA. ➢ 13 Mai - Manchester City yn ennill yr uwch gynghrair pêl-droed, y tro cyntaf ers 1968. ➢ 22 Mai – Sarah West, y wraig gyntaf i ddod yn Gomander llong ryfel, yn dechrau ar ei gwaith.	Brydain a Ffrainc yn dilyn gwaharddiadau masnach yr Undeb Ewropeaidd a'r Unol Daleithiau ym mis Ionawr. ➢ 13 Mawrth – Dod i ben â chyhoeddi *Encyclopaedia Britannica* mewn print, ar ôl 246 o flynyddoedd. ➢ 30 Mehefin – Ychwanegwyd eiliad at ddiwedd y dydd er mwyn cadw'r clociau atomig i gyd-fynd â throadau'r byd. ➢ 4 Gorffennaf - CERN yn cyhoeddi darganfod gronyn newydd - sy'n gyson gyda gronynnau Higgs boson yn dilyn arbrofion yn defnyddio'r Gwrthdrawydd Hadron Mawr. ➢ 20 Gorffennaf – Saethwyd 12 o bobl yn farw ac anafwyd 58 mewn digwyddiad saethu yn Auro,

			➢ 2-5 Mehefin - Dathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines. ➢ 28 Mehefin – Glaw trwm iawn a llifogydd yn arwain at farwolaeth, cau rheilffyrdd a dinistr. ➢ 5 Gorffennaf – Agorodd y Shard, adeilad talaf Ewrop lle gall pobl fynd ac sy'n sefyll yn annibynnol, yn Llundain – yn mesur 309.6 metr (1 016 troedfedd). ➢ 6 Gorffennaf – Andy Murray yn cyrraedd rownd derfynol tenis Wimbledon. Y gŵr cyntaf o ynysoedd Prydain i wneud hynny ers 74 o flynyddoedd. Collodd ddau ddiwrnod wedyn i Roger Federer o'r Swistir. ➢ 27 Gorffennaf i 12 Awst – Y Gemau Olympaidd yn Llundain. ➢ 29 Awst – Y Gemau Paralympaidd yn Llundain. ➢ 30 Medi – Rhaglen deledu yn honni bod Syr Jimmy Saville wedi ymosod yn rhywiol ar ferched dan oedran. ➢ 15 Hydref - Llywodraeth Prydain a Llywodraeth yr Alban yn cytuno ar fanylion y refferendwm ar annibyniaeth. ➢ 16 Tachwedd – Etholiadau i ddewis Comisiynwyr yr Heddlu.	Colorado, yr Unol Daleithiau. ➢ 30 Gorffennaf – Bu farw'r awdures Wyddelig Maeve Binchy. ➢ 25 Awst – Bu farw'r gofodwr Neil Armstrong – y cyntaf i gerdded ar y lleuad yn 1969. ➢ 31 Awst - Ymchwilwyr meddygol yn llwyddo i drawsblannu llygad bionig i berson am y tro cyntaf. ➢ 6 Tachwedd – Ailetholwyd Barack Obama yn Arlywydd yr Unol Daleithiau. ➢ 25 Tachwedd – Teiffŵn Bopha yn y Phillippines yn lladd o leiaf 1 067 o bobl. ➢ 14 Rhagfyr – Yn Ysgol Sandy Hook, Connecticut, Unol Daleithiau, saethwyd 28 o bobl yn farw.

			Dim ond 14.9% o'r boblogaeth sy'n pleidleisio. ➢ 20 Tachwedd - y teipiadur olaf ym Mhrydain yn cael ei gynhyrchu. Mae cyfrifiaduron a phrosesyddion geiriau wedi hawlio'r maes.	
2013	Cyhoeddi *Profiadau Inter Galactig* (Cyhoeddiadau Barddas) – barddoniaeth.	➢ 3 Ionawr - Y Swyddfa Dywydd yn cyhoeddi mai 2012 oedd y drydedd flwyddyn wlypaf ar gof. ➢ 9 Chwefror – Cofio 50 mlynedd ers y bomio yn Nhryweryn. ➢ 12 Chwefror – Yr heddlu yn dal cwmni o Aberystwyth yn cam labelu cig ceffyl fel cig eidion mewn bwydydd wedi eu prosesu. ➢ 24 Chwefror – Abertawe yn ennill 5 i 0 yn erbyn Bradford City i ennill Cwpan y Gynghrair Pêl-droed; ➢ 27 Mawrth – Llywodraeth Cymru yn prynu maes awyr Caerdydd. ➢ 16 Mawrth – Tîm rygbi Cymru yn curo Lloegr o 30 i 3 i ddod yn fuddugol ym mhencampwriaeth y chwe gwlad mewn rygbi. ➢ 1 Ebrill – Sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddiogelu adnoddau naturiol Cymru. ➢ 3 Ebrill – Mwy na 500 o achosion o'r frech goch yn ardal Abertawe.	➢ 11 Ionawr – Cyhoeddwyd adroddiad yn dwyn y teitl 'Giving victims a voice' yn dilyn yr ymchwiliad i ymddygiad Jimmy Saville. ➢ Chwefror - cadarnhad mai sgerbwd a phenglog Richard III - cyn-frenin Lloegr a Chymru, a gafodd ei ddarganfod o dan faes parcio yng Nghaerlŷr (Leicester). Fe'i lladdwyd ym Mrwydr Bosworth yn 1485 gan Gymro - Syr Rhys ap Thomas. Yn dilyn hyn coronwyd Harri Tudur yn Harri VII. ➢ 7 Mawrth – Y gweinidog Amddiffyn, William Hague, yn anfon rhagor o danciau i gynorthwyo'r ymladd yn erbyn Syria. ➢ 26 Mawrth - Merch 14 oed, Jade Anderson o ardal Manceinion, yn cael ei lladd gan gi ffyrnig yn ei chartref. Gofid am nifer y cŵn	➢ 12 Chwefror – Gogledd Korea yn cynnal eu trydydd arbrawf ar fomiau niwclear. ➢ 15 Chwefror – Meteor yn ffrwydro dros ddinas Chelyabinsk yn Rwsia, yn anafu tua 1 490 o bobl ac yn gwneud difrod i dros 4 300 o adeiladau. Dyma'r meteor mwyaf pwerus i daro'r byd ers dros ganrif. ➢ 21 Chwefror – Gwyddonwyr o'r Amerig yn tyfu 'clust' mewn labordy ac yn defnyddio argraffydd 3D i'w wneud i fod yn debyg i glust arall. Hyn yn golygu y bydd modd cael clustiau addas i bobl a'u

		➢ 20 Ebrill – Tîm pêl-droed Caerdydd yn cael ei ddyrchafu i'r uwch gynghrair. ➢ 26 Ebrill – Tân yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth yn arwain at golli rhai pethau gwerthfawr. ➢ 2 Mai – Gareth Bale yn gadael Tottenham i fynd i chwarae pêl-droed i Real Madrid a hynny am record o £85.3 miliwn! ➢ Mehefin – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal ym Moncath, sir Benfro. ➢ 1 Mehefin – Tîm pêl-rwyd Cymru yn ennill pencampwriaeth agored pêl-rwyd Ewrop yn Aberdeen. ➢ 13 Gorffennaf – Tywydd poeth iawn, gyda'r gwres yn cyrraedd 30.2 gradd Celsius. ➢ Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn Ninbych, Dyffryn Clwyd. Ni chafwyd enillydd i'r gadair, aeth y goron i Ifor ap Glyn. ➢ 12 Medi - Yr Eglwys yng Nghymru yn cytuno i ganiatáu i wragedd gael eu hethol yn esgobion. ➢ 14 Hydref – Cofio canrif ers y danchwa waethaf erioed yn hanes glofaol Cymru – sef Senghennydd.	ffyrnig sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes. ➢ 8 Ebrill - Mae'r cyn-Brif Weinidog Margaret Thatcher yn marw ar ôl dioddef strôc a hithau'n 87 mlwydd oed. ➢ 10 Ebrill – Mae'r gân 'Ding Dong! The Witch is Dead' yn cyrraedd rhif 10 yn y siartiau wrth i wrthwynebwyr Thatcher brynu'r gân. ➢ 17 Ebrill – Claddwyd Margaret Thatcher yn Eglwys Gadeiriol St Paul's yn Llundain. ➢ 8 Mai – Syr Alex Ferguson yn ymddeol ar ôl rheoli clwb pêl-droed Manchester United am 27 mlynedd. ➢ 14 Mai – Y Blaid Geidwadol yn cyhoeddi atodiad i araith y Frenhines yn cynnig y syniad o gynnal refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. ➢ 7 Gorffennaf – Andy Murray yn ennill senglau'r dynion yn Wimbledon, yr un cyntaf o wledydd Prydain i wneud hyn ers Fred Perry yn 1936. ➢ 17 Gorffennaf – yn dilyn pasio deddf gwlad, mae priodi person	trawsblannu yn y dyfodol agos. ➢ 28 Chwefror – Y Pab Benedict XVI yn ymddiswyddo fel Pab ar sail ei iechyd. Y cyntaf i wneud hyn ers Gregory XII yn 1415 a'r cyntaf o'i wirfodd ers Celestine V yn 1294. ➢ 13 Mawrth - Etholwyd Cardinal Mario Bergoglio o'r Arianin yn 266ain Pab - gan gymryd yr enw Francis. Hwn yw'r Pab cyntaf i'w ethol o hemisffer y de. ➢ 15 Awst – Dau fom yn cael eu ffrwydro i geisio lladd pobl yn ras marathon Boston, gan ladd 3 a niweidio 264 o bobl. ➢ 15 Mai - Prifysgol yn Oregon yn cyhoeddi eu bod wedi clonio bôn-gelloedd embryo dynol am y tro cyntaf. ➢ 1 Gorffennaf – Croatia yn dod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

		➢ Rhagfyr - Enillydd Personoliaeth Chwaraeon y flwyddyn am 2013 oedd Leigh Halfpenny.	o'r un rhyw yn gyfreithlon ym Mhrydain. ➢ 22 Gorffennaf – Diwrnod poetha'r flwyddyn a'r un poetha ers cadw cofnodion, a hynny yn Heathrow – sef 33.5C (92.3F). Yn dilyn y tair wythnos boeth daeth stormydd mawr. ➢ 5 Awst – Gwyddonwyr wedi creu byrgyr o fôn-gelloedd gwartheg, mewn labordy. ➢ 6 Awst - Llwyddo i gael gwared ar y twmpath mwyaf o fraster ('fatberg') o system garthffosiaeth Llundain. Roedd yn pwyso 15 tunnell ac roedd yr un maint â bws! ➢ 27 Awst – Llywodraeth Prydain yn ailymgynnull i drafod sefyllfa Syria yn dilyn defnyddio cemegau i ladd yn Damascus. ➢ 7 Hydref - Lansiwyd corff newydd i ymladd drwgweithredu - sef yr Asiantaeth Drosedd Genedlaethol (National Crime Agency). ➢ 14 Tachwedd – Bu farw Grace Jones yn 113 oed, yr olaf o bobl Prydain i gael eu geni yn y 1800au.	➢ 29 Awst - Aelodau Seneddol Prydain yn pleidleisio yn erbyn ymosod ar Syria. ➢ 8 Tachwedd – Teiffŵn Haiyan – un o'r cryfaf erioed, yn taro'r Phillippines a Fiet Nam – gan achosi difrod mawr a lladd 6 241 o bobl. ➢ 5 Rhagfyr - Bu farw Nelson Mandela, un a fu'n brwydro yn erbyn apartheid yn Ne Affrica ac a ddaeth yn Arlywydd Cyntaf De Affrica Unedig. Fe'i gwobrwywyd â Gwobr Heddwch Nobel am ei ddyfalbarhad.

2014		➢ 2 Chwefror – dod o hyd i fedd yr artist Gwen John yn Ffrainc. ➢ 19 Mai – Ryan Giggs yn ymddeol o fod yn bêl-droediwr proffesiynol. ➢ 24 Mai – Baton y Frenhines yn dod i Gymru ar gyfer cyhoeddi Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn ddiweddarach yn y flwyddyn. ➢ Mehefin – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal yn y Bala, Meirionnydd. ➢ 15 Gorffennaf – Bu farw'r Prifardd a'r Meuryn Gerallt Lloyd Owen. ➢ Gorffennaf ac Awst – Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow a Chymru yn curo ei record o ennill 36 medal. ➢ Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin. Enillwyd y Gadair gan Ceri Wyn Jones, y Goron gan Guto Dafydd, a'r Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen gan Lleucu Roberts ➢ 18–24 Awst – Pencampwriaethau Paralympaidd Ewrop – yr IPC yn cael eu cynnal yn Abertawe. ➢ 4–5 Medi – Cynhaliwyd uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd.	➢ 3 Ionawr – Stormydd a llanw uchel yn effeithio ar sawl ardal gan gynnwys Ceredigion. ➢ 7–23 Chwefror – Gemau Olympaidd y gaeaf yn Rwsia. Prydain yn gwneud yn well nag a wnaeth ers 1924. ➢ 24 Ebrill – Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cyhoeddi y bydd pobl Cernyw'n cael statws o fod yn bobl leiafrifol o dan Gyngor Ewrop er diogelu lleiafrifoedd. ➢ 23 Mai – Canlyniadau'r etholiadau lleol a rhai Ewropeaidd yn dangos cynnydd mawr yn y gefnogaeth i UKIP. ➢ 9 Mehefin – Gwahardd dysgu syniadaeth creadaeth (creationism) yn ein hysgolion. ➢ 6 Gorffennaf – Lewis Hamilton yn ennill Grand Prix Prydain, am yr eildro. ➢ 23 Gorffennaf i 3 Awst– Gemau'r Gymanwlad yn dechrau yn Glasgow. ➢ 29 Awst – Theresa May, Yr Ysgrifennydd Cartref yn codi'r risg o ymosodiad terfysgol o 'sylweddol' (substantial) i 'llym' (severe).	➢ 11 Ionawr – Bu farw cyn arweinydd gwleidyddol Israel, sef Ariel Sharon. ➢ Chwefror - Gofid mawr bod afiechyd y feirws Ebola yn tyfu'n epidemig - gan heintio o leiaf 25 616 o bobl a lladd 11 310. ➢ 13 Chwefror – Gwlad Belg yn cyfreithloni ewthanasia i unrhyw un sy'n derfynol wael. ➢ 8 Mawrth - Awyren o Malaysia - Boeing 777 yn diflannu dros Fôr Gwlad Thail gyda 239 o bobl ar ei bwrdd. Dim olion ohoni. ➢ 21 Mawrth – Rwsia yn cadw gafael ar Crimea, er i refferendwm gael ei gynnal yno. ➢ 14 Ebrill – Herwgipiwyd 276 o ferched a menywod o ysgol yn Nigeria. ➢ 12 Mehefin – 13 Gorffennaf – Cwpan y Byd Pêl-droed yn cael ei

			➢ 18 Medi – Refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban. Daeth y canlyniadau y diwrnod wedyn: 'Na' yn ennill gyda mwyafrif o 383 937 o bleidleisiau.(NA: 2 001 926; IE:1 627 989). Pleidleisiodd 84.5% o bobl – roedd hyn yn record. ➢ 1 Hydref – Aelodaeth yr SNP (Plaid Genedlaethol yr Alban) wedi treblu o 25 000 i 75 000 ers y refferendwm. ➢ 14 Tachwedd - Nicola Sturgeon yn olynu Alex Salmond fel arweinydd yr SNP.	gynnal yn Brazil, a'r Almaen yn ennill. ➢ 11 Awst – Yr actor a'r awdur talentog Robin Williams yn cyflawni hunanladdiad ac yntau yn 63 oed. ➢ 4 Medi – Bu farw'r actores a'r gomedïwraig Joan Rivers yn 81 oed. ➢ 2 Tachwedd – Yr IPCC (Intergovernmental Panel on Climate Change) yn cyhoeddi 5ed adroddiad yn rhybuddio am y drychineb sydd yn ein haros oherwydd newid hinsawdd y byd.
2015	*Llyfr Gwyn* (Cyhoeddiadau Barddas) – ysgrifau hunangofiannol yn codi o'i waith llenyddol. Cyhoeddi *Hen Englynion: Diweddariadau* (Cyhoeddiadau Barddas) – ysgolheictod / barddoniaeth.	➢ 4 Chwefror – Y cwch (fferi) rhwng Caergybi a Dún Laoghaire yn Iwerddon, yn dod i ben ar ôl 204 o flynyddoedd. ➢ 16 Chwefror – Bu farw'r hanesydd Dr John Davies. ➢ 23 Chwefror – bu farw'r llenor a'r ysgolhaig Dr John Rowlands. ➢ Mehefin – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili.	➢ 5 Ionawr – Y Swyddfa Dywydd (Met Office) yn cyhoeddi mai 2014 oedd y flwyddyn gynhesaf ers cadw cofnodion. ➢ 2 Chwefror – Mae poblogaeth Llundain wedi tyfu i 8 600 000, yr uchaf ers 1939 ac yn debygol o dyfu i fod yn 11 000 000 erbyn 2050. ➢ 11 Chwefror – Llywodraeth Prydain yn cyhoeddi adolygiad o	➢ 7 Ionawr – Ymosodiad gan derfysgwyr Al-Qaeda (Yemen) yn lladd 12 o bobl yn swyddfa *Charlie Hebdo* – sef cyhoeddwyr yn ninas Paris. Mae'r byd yn ymateb. ➢ Ebrill – Sylw'r byd ar ffoaduriaid yn croesi i Ewrop. Boddwyd 850

		➢ Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, Maldwyn. ➢ 11 Hydref – Dathlu canmlwyddiant geni T. Llew Jones, yr awdur plant a'r bardd. ➢ 1 Rhagfyr – System newydd yng Nghymru o optio allan o roi organau dynol.	heolydd Prydain gyda'r bwriad o baratoi at gyfnod o geir heb yrwyr. ➢ 3 Mawrth – Rolf Harris yn colli pob un o'i anrhydeddau wedi iddo gael ei garcharu am weithredoedd rhyw gyda merched dan oedran. ➢ 11 Ebrill – Cynhaliwyd ras rhwyfo merched am y tro cyntaf rhwng Prifysgolion Caergrawnt a Rhydychen. ➢ 22 Ebrill – Tesco yn cyhoeddi colledion o £6 400 000 000 am y flwyddyn flaenorol. ➢ 26 Ebrill - Llywodraeth Prydain yn cyfrannu £5 000 000 tuag at gynorthwyo gyda'r drychineb yn dilyn daeargryn Nepal. ➢ 7 Mai - Etholiad Cyffredinol gyda'r Ceidwadwyr o dan arweiniad David Cameron yn ennill mwyafrif. Yn yr Alban, enillodd yr SNP 56 o'r 59 sedd. ➢ 1 Mehefin - Bu farw Charles Kennedy yn 55 oed, cyn arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ym Mhrydain. ➢ 3 Gorffennaf – Munud o dawelwch i gofio am y 30 o bobl o Brydain a laddwyd yn Tunisia.	wrth i gwch gorlawn suddo. ➢ 25 Ebrill – Daeargryn yn lladd 8 857 o bobl yn Nepal, 130 yn India, 27 yn China, 4 yn Bangladesh – gyda chyfanswm o 9 018 i gyd. ➢ 23 Mai - Gweriniaeth Iwerddon mewn pleidlais gyffredin, yn caniatáu priodas rhwng cyplau o'r un rhyw. ➢ 5–13 Gorffennaf – Groeg yn wynebu problemau gwleidyddol enfawr wrth geisio rheoli gwariant cyhoeddus a rheoli'r problemau economaidd. ➢ Awst - Sylw i'r ffoaduriaid wrth i bobl weld llun o gorff marw y bachgen bach tair oed Aylan Kurdi o Syria, yn cael ei gario i'r lan. ➢ 13 Tachwedd – Sawl ymosodiad yn Ffrainc gan derfysgwyr yn achosi i 130 farw.

			➢ 20 Awst – Angladd y diddanwraig Cilla Black, 72 oed a fu farw ar 2 Awst, yn Lerpwl. ➢ 11 Medi – Y Senedd yn gwrthod pasio deddf yn 'rhoi'r hawl i farw' i bobl sy'n sâl iawn. Y tro cyntaf i bleidlais ddigwydd ers dros 20 mlynedd ar y pwnc dadleuol hwn. ➢ 1 Hydref – Deddf gwlad yn gwahardd smygu mewn cerbydau lle plant hefyd. ➢ 13 Hydref – Torcyfraith yn ymwneud ag atgasedd a rhagfarn wedi cynyddu 18% yng Nghymru a Lloegr yn ôl ffigurau'r Swyddfa Gartref. 80% o gynnydd o ran torcyfraith yn ymwneud â thras, crefydd, anabledd, rhywioldeb a thrawsrywioldeb. ➢ 10 Tachwedd – Storm Abigail yn taro Prydain. Dyma ddechrau'r arfer o enwi stormydd.	➢ 30 Tachwedd – Cynhaliwyd Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd ym Mharis – gydag arweinwyr o 147 o wledydd yno. ➢ 31 Rhagfyr - Bu farw Natalie Cole, y gantores o America.
2016	➢ 13 Ebrill – Bu farw. Claddwyd ym mynwent Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog.	➢ 5 Ionawr – Llifogydd mawr yng Nghymru. ➢ 18 Ionawr – Cwmni dur Tata yn cyhoeddi 750 o ddiswyddiadau ym Mhort Talbot. ➢ 8 Chwefror – Storm Imogen yn taro Cymru. Aberystwyth yn dioddef yn wael iawn.	➢ 10 Ionawr – David Bowie – canwr a chyfansoddwr yn marw. ➢ 13 Ionawr – Aelodau Seneddol Lloegr yn dechrau trafod y syniad y dylai fod gan Loegr anthem iddyn nhw eu hunain. ➢ 29 Ionawr – Y Landrover Defender olaf i gael ei gynhyrchu ym	➢ 28Ionawr – Sefydliad Iechyd y Byd (World Health Organization) yn cyhoeddi bod y feirws Zika wedi codi ei ben eto. ➢ 7 Chwefror – Gogledd Korea yn arbrofi ar

		➢ 30 Mawrth – Tata yn chwilio am brynwr i'w gwaith dur ym Mhort Talbot. ➢ 5 Mai – Etholiadau i'r Cynulliad. UKIP yn ennill 7 sedd. Carwyn Jones yn cael ei ailethol i arwain llywodraeth Lafur ac yn Brif Weinidog Cymru. ➢ 31 Mai – Ifor ap Glyn yn dod yn Fardd Cenedlaethol Cymru, ar ôl i Gillian Clarke orffen. ➢ Mehefin – Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint. ➢ 11 Mehefin - Dechrau taith tîm pêl-droed Cymru ym mhencampwriaeth UEFA Euro 2016. Aeth tîm pêl-droed Cymru drwodd i'r rownd gynderfynol gan golli yn erbyn Portiwgal ar 6 Gorffennaf. Dyma'r tro cyntaf ers 1957 i Gymru ennill lle mewn cystadleuaeth bêl-droed fawr. Y tro diwethaf oedd pan aeth Cymru i Gwpan y Byd yn 1958. ➢ 23 Mehefin – Cymru yn pleidleisio mewn Refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd (52.5% dros adael a 47.5% dros aros). ➢ 25 Mehefin – Cymru yn colli 3 i 0 mewn rygbi'r Undeb yn y prawf allan yn Seland Newydd.	Mhrydain yn cael ei gwblhau,– yn dilyn 68 mlynedd o gynhyrchu yma. ➢ 31Ionawr – Syr Terry Wogan, cyflwynydd radio a theledu yn marw. ➢ 7 Mawrth – Ffigurau yn dangos mai'r Amgueddfa Brydeinig yw'r atynfa dwristaidd fwyaf poblogaidd ym Mhrydain. ➢ 22 Mawrth - Gofid mawr am ymosodiad terfysgol ym Mhrydain yn dilyn digwyddiadau ym Mrwsel. ➢ 30 Mawrth – Tata Steel yn bygwth gwerthu eu hunedau cynhyrchu dur yma ym Mhrydain. ➢ 1 Ebrill – Deddf 'cyflog byw' (Living wage) yn dod i rym i dalu pawb dros 25 oed o leiaf £7.20 yr awr. ➢ 18 Ebrill – Ronnie Corbett y comedïwr yn cael ei gladdu yn Shirley, de Llundain. ➢ 20 Ebrill – Bu farw Victoria Wood awdures a chomedïwraig. ➢ 21 Ebrill – Y Frenhines Elizabeth yr ail yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.	arfau niwclear – taro o bell. ➢ 19 Chwefror – Harper Lee – awdures Americanaidd ac awdur *To Kill a Mockingbird* yn marw yn 89 mlwydd oed. ➢ 21 Mawrth – Barack Obama yn ymweld â Cuba. Y tro cyntaf i Arlywydd yr Unol Daleithiau wneud hyn ers 1928. ➢ 22 Mawrth – Achosion o ffrwydro bomiau gan derfysgwyr ym Mrwsel, gwlad Belg, gan ladd 35 o bobl a niweidio dros 300. ➢ 24 Mawrth – Cyn Arlywydd Bosnia Serbia – Radovan Karadzic – yn cael ei ddyfarnu gan lys yn euog o droseddau yn erbyn y ddynoliaeth, yn codi o ryfel Bosnia (1992–95). ➢ 3 Ebrill – Cyhoeddwyd gan yr ICIJ – sef International

		➢ 21 Gorffennaf – bu farw'r actor J.O. Roberts. ➢ 24 Gorffennaf – Chris Froome yn ennill y Tour de France. Geraint Thomas a Luke Rowe, dau Gymro, yn rhan o dîm Sky. ➢ Awst – Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn sir Fynwy, yn y Fenni. Cafwyd pafiliwn newydd. Enillwyd y Gadair gan Aneirin Karadog, y Goron gan Elinor Gwynn, a'r Fedal Ryddiaith gan Eurig Salisbury. ➢ Cymru yn gwneud yn arbennig iawn yn y Gemau Olympaidd a'r Paralympaidd yn Rio, Brazil. ➢ 13 Medi – Pasiwyd Deddf Cymru 2016 sy'n rhoi mwy o bwerau i'r Cynulliad. ➢ 21 Hydref – Cofio 50 mlynedd ers trychineb Aberfan. ➢ 2 Tachwedd – Etholwyd Joanna Penberthy yn Esgob Tyddewi. Y wraig gynta i ddod yn Esgob yng Nghymru.	➢ 2 Mai – Leicester City yn ennill yr Uwch Gynghrair pêl-droed – yn groes i bob disgwyl. ➢ 20 Mai – Deddf yn mynnu gorchuddio tobacco mewn papur plaen. ➢ 2 Mehefin – Methu cael prynwr i'r siopau British Home Stores (BHS), felly mae'r siopau'n cau i gyd a chollir dros un ar ddeg mil o swyddi. ➢ 12 Mehefin – UEFA yn bygwth gwahardd Lloegr o bencampwriaeth pêl-droed Ewro 2016, yn dilyn ymladd ac ymddygiad annerbyniol rhwng rhai o gefnogwyr Lloegr a chefnogwyr Rwsia. ➢ 24 Mehefin – Y Deyrnas Unedig yn pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd o 51.9% i 48.1%, gyda 72% yn pleidleisio. Lloegr a Chymru yn pleidleisio i adael gyda Llundain, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gibraltar am aros. ➢ Yn dilyn yr uchod – David Cameron yn ymddiswyddo fel Prif Weinidog, a chyfnewidfa stoc Llundain yn colli gwerth 8% ar gyfranddaliadau.	Consortium of Investigative Journalists, dros 11.5 o ddogfennau cyfrinachol yn rhoi gwybodaeth am arferion buddsoddi cwmnïau yn Panama er mwyn peidio â thalu trethi ac ati. ➢ 1 Mehefin – Agorwyd Twnnel Gotthard Base drwy'r Alpau yn y Swistir, sef y twnnel dyfnaf a hiraf ar gyfer rheilffordd. Cymerodd ugain mlynedd i'w gwblhau. ➢ 3 Mehefin – Bu farw'r bocsiwr a'r un a wnaeth safiad dros hawliau sifil – Muhammad Ali, yn 74 mlwydd oed. ➢ 10 Mehefin – 10 Gorffennaf – Portiwgal yn ennill pencampwriaeth pêl-droed Euro 2016. ➢ 12 Mehefin - Saethwr yn lladd 49 mewn clwb nos yn Orlando gan niweidio 53 a hynny yn enw'r

			➢ 1 Gorffennaf – Dwy funud o dawelwch ar draws gwledydd Prydain i gofnodi canrif ers Brwydr Somme yn y Rhyfel Byd Cyntaf. ➢ 6 Gorffennaf – Cyhoeddi Ymchwiliad Chilcott, a oedd yn dangos bod Llywodraeth Tony Blair wedi gorbwysleisio perygl Saddam Hussein a mynd i ryfel yn 2003. ➢ 10 Gorffennaf – Andy Murray yn ennill senglau'r dynion yn Wimbledon am yr ail waith. ➢ 13 Gorffennaf – Theresa May yn dod yn Brif Weinidog Prydain. ➢ 18 Gorffennaf – Aelodau seneddol yn pleidleisio i adnewyddu ein rhaglen arfau niwclear Trident. ➢ 24 Gorffennaf – Chris Froome yn ennill y ras feicio Tour de France am yr ail waith yn olynol a'r drydedd waith i gyd. ➢ 5–21 Awst – Prydain yn dechrau cystadlu yn y Gemau Olympaidd yn Rio de Janero, Brazil. Gorffen yn ail yn y tabl medalau – y safle gorau ers dros ganrif. ➢ 13 Medi – Y BBC yn colli'r hawl i ddarlledu *The Great British Bake Off* i Sianel Pedwar.	Wladwriaeth Islamaidd (IS neu Islamic State). ➢ 5 Gorffennaf – *Juno* – llong ofod NASA – yn cychwyn ar astudiaeth ugain mis o gwmpas y blaned Iau (Jupiter). ➢ 6 Gorffennaf – rhyddhau'r gêm Pokemon Go – gan dorri pob record am werthiant a gwerth ariannol. ➢ 22 Gorffennaf – y recordydd VHS olaf yn cael ei gynhyrchu gan y cwmni o Japan – Funai. ➢ 5–21 Awst – Gemau Olympaidd Rio de Janeiro yn Brazil. Y Gemau Paralympaidd yn dilyn. ➢ 9 Medi – Gogledd Korea yn cynnal arbrawf enfawr o ran arfau niwclear. ➢ 28 Medi – Lefelau CO_2 ar draws y byd yn cynyddu i dros 400ppm – sef y lefel uchaf yn hanes dyn ar y blaned hon.

			➢ 24 Medi – Jeremy Corbyn yn parhau i fod yn arweinydd y Blaid Lafur er i Owen Smith geisio ei herio am yr arweinyddiaeth. ➢ 18 Tachwedd – Y Trysorlys yn cytuno i dalu am adnewyddu Palas Buckingham ar gost o £369 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd gan ddechrau ar y gwaith ym mis Ebrill 2017. ➢ 25 Rhagfyr – George Michael y canwr a'r cyfansoddwr yn cael ei ddarganfod yn farw ar nos Nadolig.	➢ 28 Medi – Bu farw'r gwleidydd a chyn Arlywydd Israel – Shimon Peres. ➢ 8 Tachwedd - Etholwyd Donald Trump yn Arlywydd yr Unol Daleithiau - y 45fed Arlywydd. ➢ 22 Rhagfyr – Mewn treialon gwelwyd bod VSV-EBOV rhwng 70-100% yn effeithiol yn erbyn Ebola. ➢ 23 Rhagfyr - Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig yn datgan drwy benderfyniad 2334 yn condemnio Israel am hawlio tiroedd Palesteina ers 1967.